

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 330 - 60c
Chwefror 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Yr actores
leol
ar y teledu**



Tudalen 5

**Dorothy
yn Halen y
Ddaear**



Tudalen 19

**Diolch Mair
am wasanaeth
clodwiw**



Tudalen 21

Siaradwyr ifanc

Rhai o aelodau C.Ff.I. Llanllwni wedi ennill yr Adran Ddarllen, Yr Adran Iau a'r Adran Ganol yng nghystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Sir Gâr a gynhaliwyd yn Ysgol Nantgaredig yn ystod mis Ionawr.



Cystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar. Aelodau Clwb Llanwenog wedi iddynt ennill Cwpan y Clwb â'r marciau uchaf ar ddiwedd y dydd.



Sioeau lleol yn cyflwyno arian



Swyddogion Pwyllgor Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yn cyflwyno sic o £3,000 i Ros Jones ar ran Ambiwylans Awyr Cymru. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Geraint Hatcher (Cadeirydd), Huw a Nans Davies (Llywyddion), Elfyn Morgans (Perchennog ac Ysgrifennydd y Cae), Gwennan Jenkins (Trysorydd), Cerys Lloyd a Pete Ebbsworth (Ysgrifenyddion y Babel) a Ros Jones (Ambiwylans Awyr Cymru).



Fe gynhaliwyd raffl yn ystod noson Barnu Stoc Sioe Amaethyddol Llambed ar fferm Cwmhendryd y llynedd a rhoddwyd y cyfanswn tuag at elusennau y rhedwraig leol Helen Davies. Cododd Helen £1934 drwy redeg mewn dau hanner marathon yn Abertawe a Chaerdydd. Cyflwynodd Helen a'i mab Rhun sic i Philippa Davies o Parkinsons UK, ac fe ddanfonir yr ail sic i Alzheimers UK.

Diolch Nans a rhodd hael...



Wedi cyfnod hir o bron 20 mlynedd yn brifathrawes Ysgol Llanllwni fe wnaeth Mrs Nans Davies ymddeol ddiwedd y tymor. Cynhaliwyd te parti yn yr ysgol â'r disgyblion yn canu caneuon oedd wedi eu cyfansoddi'n arbennig.



Aelodau C.F.I. Llanllwni yn cyflwyno sic o £1762.16 sef elw Sioe a Threalon Cŵn Defaid a Sioe Gwartheg i Elin Evans tuag at Ysbyty Bryste, sic o £1047.77 i Doctor Simon Holt tuag at Uned Cancr y Fron Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli, sef elw canu carolau a £50.00 i'r clwb, elw cwrdd diolchgarwch y clwb.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd

@Clonc360 neges
@Craffwr

Ionawr 19

Wedi mwynhau
cyflwyniad

@DelythPhillips yn
#BethelParcyrhos

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd

@Clonc360 neges
@drindoddewisant

Ionawr 14

Campws #Llambod yn
edrych yn hyfryd yn yr
#eira

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd

@Clonc360 neges
@S4C

Ionawr 7

Dewi Pws, Beth Robert
ac Anni Dafydd yng
nghyfres #LanaLawr

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd

@Clonc360 neges
@LampeterTownRFC

Rhagfyr 27

Dechrau allan am
goedwig Alltgoch bore
ma!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd

@CorCwmann

Rhagfyr 20

Côr Cwmann
yn perfformio yn
#CarolCerddaChân
@DileuTlodi

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd

@Clonc360 neges
@RhysMeirion

Rhagfyr 6

Diolch am y croeso yn
Siop y Smotyn Du yn
Llanbed!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Chwefror a Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu eostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Tudalen newydd

Mae'r flwyddyn newydd yn gyfle i fwrw golwg yn ôl ar y flwyddyn a fu, ac i ddechrau o'r newydd â thudalen lân.

Yma yn y bröydd sy'n cael eu clymu ynghyd trwy gyfrwng y papur hwn, mae gan lawer ohonom le i ddiolch am ddatliadau a llwyddiannau 2014. A gobeithio bod gennym fel cymunedau hefyd le i edrych mlaen at gerrig milltir, digwyddiadau a sialensiau newydd yn 2015. Nid wrth orffwys ar ein rhwyfau y gwelwn ein cymdeithasau a'n clybiau, ein heglwys i a'n gweithgareddau yn datblygu ac yn ffynnu. Beth pe na fyddai ffermwyr ifanc wedi dod ynghyd tua 70 mlynedd yn ôl a sefydlu clybiau sydd bellach yn ffederasiwn hollbwysig yng nghefn gwlad Cymru? Beth pe na fyddai gwragedd Cymraeg eu hiaith 60 mlynedd yn ôl wedi penderfynu bod angen iddynt gymdeithasu a gweithredu'n eu cymunedau yn eu mamiaith, a sefydlu Merched y Wawr? Beth pe na fyddai pobol leol wedi gweld yn dda i sefydlu sioeau amaethyddol ac eisteddfodau (bach a mawr) a charnifalau? Dychmygwch gymaint tlotach y bydden ni heb weithgareddau fel y rhain ... a chymaint tlotach fyddai cynnwys papur fel Clonc!

Mae'n dda gweld gweithgareddau newydd hefyd yn cael eu trefnu er mwyn gwasanaethu'r gymuned. Digon rhwydd oedd cwyno bod pobol ifanc yn gorfod mynd i Aberystwyth neu Gaerfyrddin i fynd i'r sinema, ond diolch bod rhai

wedi gweld y cyfle i greu sinema gymunedol yn Llambled, y Magic Lamp. Ac efallai nad yw blasu cwrw at ddant pawb, ond mae criw o ddynion ifanc yr ardal yn mentro trefnu'r Wyl Gwrw gyntaf erioed yn Llambled fis Chwefror. Iechyd da iddynt!

Os yw eich addunedau blwyddyn newydd wedi mynd yn rhacs jibidêrs, beth am greu un newydd – ei bod hi'n well mentro ac wedyn difaru, os bydd gweithgaredd newydd yn methu, na gwneud dim a difaru peidio mentro!

Cloncen

Gohebiaeth



Cilmeri, Ffordd Ddewi, Aberystwyth.

Annwyl Gyfaill,

Fyddwch chi yn rhan o Barêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth eleni? Erbyn hyn mae'r Parêd wedi hen sefydlu, ac eleni mae'n prifio! Yn ogystal â'r Parêd ei hun mae yna lu o ddigwyddiadau eraill:

Sadwrn 28/2/2015 - 9 - 11am: Gweithdy creu baneri i blant gyda Rwth Jên yn Morfa. £1. Cofrestrwch o flaen llaw trwy e-bost: dana-edwards@dsl.pipex.com 10am: Sesiwn blasu yn Y Siop Leol, Stryd y Wig. 11am: Gweriniaeth yn canu, Sgwâr Owain Glyndŵr. 11 – 12:45: Cinio Cawl, Morlan. 1pm - Parêd. Tywysydd: Gerald Morgan; cerddorion: Clatchobant, Côr Meibion Aberystwyth, Band Arian Aberystwyth; Pibydd a Drymiwr. 3pm – Gig am ddim yn y Llew Du gyda Clatchobant (band newydd Dewi Pws a Delyth Wyn)

Sul 1/3/2015 - 10am: Oedfa Deuluol Gŵyl Ddewi Eglwys Gogledd Ceredigion gyda Nan Powell-Davies yng Nghapel Morfa.

Felly dewch yn llw. Mae croeso i bawb sy'n falch o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymuno yn y Parêd; a gwisgwch rywbeth coch i ddangos eich ochr! Dana Edwards, Ysgrifennydd Pared Gŵyl Dewi Aberystwyth.



Yma i'ch helpu chi Gwasanaeth prawfddarllen

Lwfans o hyd at 1000 o eiriau,
am ddim i fusnesau ac
elusennau bach a chanolig

0845 6033 221

hybu@comisiynyddygyymraeg.org



CHWEFROR

- 7 Gŵyl Gwrw Llambod, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 4-11pm. £2.50. Trefnir gan Ford Gron Llambod.
- 12 Cinio Cymorth Cristnogol Eglwys San Pedr am 12.00y.p.
- 16-20 Cystadleuaeth Adloniant – Pantomeim C.F.F.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 20 Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan - Noson gyda Clive Edwards, Cwmeils a Chôr Corisma ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant 7.30 y.h. Swper Ysgafn Tocyn £15. Ffoniwch 422099, 423692, 422625.
- 22 Cynhelir cyngerdd gan Shelley Fairplay y delynores enwog yn Hen Neuadd Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbed am 2.30yp. Bydd Shelley yn chwarae gwaith Tchaikovsky, Beethoven, Gershwin, darnau Flamenco a cherddoriaeth fodern. Tocynnau yn £10 a £8.50, myfyrwyr am ddim gyda cherdyn prifysgol, dau blentyn yn ddi-dâl gydag un oedolyn. Mwy o fanylion 01570422436 cockburndavid@gmail.com
- 22 Gwasanaeth ail agor Eglwys St Luc Llanllwni am 10.30y.b. yng ngofal y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tŷ Ddewi.
- 23 Cyngerdd y 3 Panto gorau yn Theatr Felinfach.
- 25 Gŵyl Offerynnol yr Urdd yn Theatr Felinfach.
- 25 Sgwrs gan Mair Jones, Argoed gynt, Gorsgoch ar 'Hanes pentref Gorsgoch' yn nhafarn Cefnhafof am 8y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 26 Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd yn Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.
- 27 Dawns Dewis Swyddogion C.F.F.I. Ceredigion.

MAWRTH

- 6 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambod Cynradd ac Uwchradd.
- 6 Bingo Pasg yn Nhafarn Talardd, Llanllwni gyda'r C.F.F.I. am 8.
- 7 Te Prynhawn a Ffair i godi arian a lledu gwybodaeth am Apêl Bandi i godi canolfan newydd i blant yn Ysbyty Glangwili am 2y.p. yn Festri Aberduar, Llanybydder.
- 15 Oedfa Sul y Mamau, Noddfa, Llambod am 5.00y.p.
- 16 Eisteddfod Rhanbarth Aelwydydd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- 20 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 21 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 24 Eisteddfod Rhanbarth Dawns yn Theatr Felinfach.
- 28 Cynghrair Dartiau Llambod - Cymru (Warren a Lewis) yn erbyn Lloegr (Winstanley a Bunting) yn Neuadd Fictoria; tocynnau ar werth nawr trwy law Bedwyr Davies ar 07580 128039 neu 01570 423683.

EBRILL

- 8 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1.30y.p.
- 10 C.F.F.I. Llanllwni - Tipit yn Nhafarn Talardd.
- 13 Bingo Pasg yn cael ei gynnal yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8y.h gan Cylch Meithrin Llanllwni.
- 26 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul.
- 26 Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr, Bethel Caio.

MAI

- 2 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Cysylltwch â Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr, Caersalem Parcyrhos am 2.30y.p.

MEHEFIN

- 6 Rali C.F.F.I. Ceredigion yn Llanddewi Brefi.

GORFFENNAF

- 5 Corisma, Cacen a Chên - Prynhawn elusenol Côr Corisma i ddechrau am 2.00y.p.

MEDI

- 24 Cynghrair Dartiau Llambod - Meistri'r Dartiau yng nghwmni Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton yn Neuadd Fictoria; tocynnau ar werth nawr trwy law Bedwyr Davies ar 07580 128039 neu 01570 423683.

HYDREF

- 29 a 31 Eisteddfod C.F.F.I. Ceredigion.

Clwb Clonc

Chwefror 2015

£25 rhif 174 :

Mrs Hannah Evenden,
10 Heol-y-Waun, Capel Dewi,
Llandysul.

£20 rhif 81 :

Mrs Gwenda Davies,
Bwlchmawr, Brynteg.

£15 rhif 462 :

Mrs Margaret Thomas,
Llechwedd, Llanwenog.

£10 rhif 20 :

Aneurin Davies,
Gelli Aur, Rhydybont,
Llanybydder.

£10 rhif 65 :

Meinir Davies,
Caerwenog, Penffordd.

£10 rhif 409 :

Eira Price,
Gelli, 1 Brynsteffan, Llambod.

£5 rhif 342 :

Dan Jones,
Penarth, Heol-y-Bryn,
Llambod.

Gorsgoch

Cinio Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog 2014

Cynhaliwyd Cinio Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog yng Nghefn Hafod, Gorsgoch, ar y 6ed o Ragfyr 2014. Daeth 50 o swyddogion a chefnogwyr y Sioe ynghyd i wleda ar fwyd blasus Eiddwen ac i fwynhau araith ddiddorol gan y gŵr gwadd, sef y Cynghorydd Euros Davies, Llys y Wawr, Cwmsychpant. Elusen Sioe 2014 oedd Ambiwlans Awyr Cymru a braf oedd medru croesawu Ros Jones i'n plith i dderbyn siec am £3,000. Diolchwn i bawb unwaith yn rhagor am eu gwaith caled, eu cefnogaeth a'u haelioni.

90 oed

Dathlodd Dannie Davies, Llaingors ei ben-blwydd yn 90 oed canol mis Ionawr. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod cofiadwy a phob dymuniad da i chwi eto i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Eirwen a Gwilym Evans, Gwynfryn ar golli ei chwaer sef Louie Davies, Penlan, Talsarn.

Alltyblaca

Cydymdeimlo

Danfwnn ein cydymdeimlad dwysaf at Gwyn Jones ac Heddwyn, Llwynbedw ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef David Palmer o Lamed a fu farw ddiwedd 2014.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

01570 422221

01570 422221

Weldio D & W Welding

01570 481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnici ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwniciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Pencarreg

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Audrey Evans, Blaencarreg sydd wedi bod yn glaf yn Ward Gwenllian, Caerfyrddin ers chwe wythnos. Da deall dy fod yn gwella ac edrychwn ymlaen i dy gael di nôl ar dy aelwyd yng nghwmni dy deulu yn fuan.

Gwasanaeth Carolau Eglwys Sant Padrig

Noswyl Nadolig ac mi roedd yr eglwys fach yn llawn eleni eto. Hyfryd oedd gweld plant ac oedolion yr ardal wedi ymgynnull i ddathlu Gŵyl y Geni a gwnaethom i gyd fwynhau drama'r geni gan y plant a'r oedolion wnaeth ymuno gydag unawdau a darlleniadau i roi cymaint o bleser i bawb.

Yn ôl ei arfer galwodd Sion Corn heibio â'i sach yn llawn anrhegion i'r plant.

Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hardd gan ychwanegu tuag at greu nawws Nadoligaidd traddodiadol yn gelyn, iorwg, pinwydd ac uchelwydd. Roedd Seren Bethlehem a'r goeden wedi goleuo'r eglwys yn dlws iawn.

Diolch i bawb wnaeth weithio'n galed i sicrhau noson bleserus yng nghalon y pentref a mwynhawyd y wledd a'r sgwrsio cyn troi tua thre.

Calennig

Gwelwyd nifer o blant yn canu calennig ar ddydd Calan o gwmpas yr ardal. Pleser oedd croesawu pob un ohonynt a daliwch ati i gadw'r traddodiad yn fyw.

Blwyddyn Newydd Dda!

Cellan

Capel Caeronnen

Cafwyd orig Nadoligaidd nos Sul Rhagfyr 28ain yng Nghapel Caeronnen, Cellan.

Ein gweinidog, y Parch Cen Llwyd, oedd yng ngofal y gwasanaeth, Miss Eirian Jones, Cysgod y Pin oedd yng ngofal y canu. Cymerwyd rhan gan Alwena Owen, Llanllwni, Nia a Megan Jones, Capel y Groes, Elan Jones a Beca Jones o Gwmann yn ogystal â Heledd a Gwenllian Llwyd o Dalgarreg. Roedd pob un wedi swyno'r gynulleidfa luosog yn fawr iawn. Cyn troi am adre, cafwyd cwpaned a lluniaeth ysgafn wedi eu paratoi gan deulu Nantgwyn. Meirir Green oedd wedi addurno'r capel yn gelfydd iawn. Diolchwyd i bawb am gefnogi a chymryd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. Cen Llwyd.

Wedi meddwl hysbysebu
yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol
iawn
gan ddechrau gydag
hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond £60 am ddeg
ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Actores ifanc

Actores ifanc sy'n mwynhau chwarae'r ferch benderfynol

Mae'r actores sy'n chwarae rhan y ferch Caitlin wrth galon y ddrama deuluol yn Lan a Lawr, y gyfres newydd nos Fercher ar S4C, yn cydnabod ei bod yn debyg i'w chymeriad.

"Mae Caitlin yn eitha' tebyg i fi mewn gwirionedd. Mae'n berson penderfynol ond hefyd yn gyfeillgar iawn ac yn wylidwrs iawn o bobl newydd a dieithr!" meddai'r actores Anni Dafydd sy'n dod o Lanbed.

Mae'r gyfres ddrama Lan a Lawr yn parhau nos Fercher, 4 Chwefror ar S4C. Gyda Mal (Dewi 'Pws' Morris) wedi cyrraedd Abertawe, nid yw Caitlin (Anni Dafydd) yn hapus i'w weld. Ond pa fath o groeso gaiff e gan weddill y criw ym mharc carafanau Maes Gŵyr?

Wedi i Caitlin ddarganfod mai Mal yw ei thad, ac yntau'n ddiartref ar ôl gwahanu â Gwen yn Llanberis, mae Mal yn gobeithio gwneud yn iawn â'i deulu newydd yn Abertawe.

Ond gyda Delia (Beth Robert) yn dal i gadw ei salwch yn gyfrinach rhag pawb heblaw amdano fe, nid yw wedi amseru ei ymweliad yn dda. Yn grac gyda Mal ac yn flin gyda Delia, mae Caitlin yn troi at Magda (Heulwen Haf) am gyngor am beth i'w wneud am ei sefyllfa.

"Mae'r berthynas rhyngddi hi a'i mam, Delia, yn ymdebygu'n fwy i berthynas rhwng dau ffrind. Maen nhw'n agos iawn ac yn rhannu popeth. Dyna pam mae'n fwy o sioc iddi ddarganfod pwy yw ei thad gan ystyried bod Delia yn gwybod ers blynnyddoedd," eglura Anni.

Dywed bod ffilmio'r gyfres yn lot fawr o hwyl, yn enwedig gweithio gyda Heulwen Haf a'i gweld hi'n gwneud ei cholur!

Meddai Anni, "Fel actores sydd newydd ddechrau ar ei gyrfa, roedd hi'n fraint cael gweithio gydag actorion sydd wedi bod yn actio ers blynnyddoedd lawer, ac fe ddysgaes i gymaint mewn byr amser – cyngor ac atgofion fydd yn aros gyda fi am weddill fy oes.

"Roedd hi'n brofiad bythgofiadwy ac roedd y cast i gyd yn deulu erbyn diwedd y cyfnod ffilmio. Roedd cael crwydro Eryri a dod i adnabod y gogledd hefyd yn wych. Dyma gyfres sydd wir yn dod â'r de a'r gogledd at ei gilydd."

Lan a Lawr yw'r gyfres gyntaf i ymddangos ar S4C fel rhan o'r arlwy ddrama newydd bob nos Fercher am 8.00. Mae'r cast o actorion adnabyddus hefyd yn cynnwys Morfudd Hughes, Gwenno Hodgkins a Llion Williams ynghyd â wynebau ifanc newydd fel Anni Dafydd ac Annes Elwy. Awdur y gyfres yw Gareth F. Williams.



Pentrebach

Wyres newydd

Rhai diwrnodau cyn y Nadolig cafodd Ann a Malcolm Davies, Glan yr afon ei hwyres fach gyntaf, Beca Mari, sef merch fach i Laura a Dafydd yn Llanfair Fach. Llonyfarchiadau gwresog i chwi fel teulu.

Rhifyn mis Mawrth

Yn y Siopau
Mawrth 5ed

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn
Chwefror 23ain

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach.*



Lifft
cyfleus
nawr yn ei le
i fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

O'r Cynghorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Ionawr 2015 am 8.00yh. Cadeirydd: Dewi Davies; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y wasg: Dewi Davies. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd blwyddyn newydd dda i'r aelodau.

Plismona: Croesawyd Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar diogelwch yn gyffredinol. **Y Cae Chwarae:** Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Yr oedd Playdale wedi cysylltu â'r Clerc ac yr oedd y gwaith o osod yr adnoddau yn eu lle wedi ei gwblhau, ac yr oeddent wedi gwneud archwiliad o'r adnoddau ar 07 Ionawr 2015. Yr oedd y cwmni yn bwriadu clirio'r defnyddiau oedd ganddynt ar ôl ar y cae erbyn 09 Ionawr 2015. Yr oedd angen gosod arwyddion newydd yn y cae chwarae sef "DIM CŴN AR Y CAE CHWARAE". Cytunwyd i anfon diolch i Hefin Harries, Maesnonni am dorri clawdd y cae chwarae ac am symud y pyst pêl droed ar y cae chwarae er mwyn gwneud lle i'r adnoddau newydd. Seddau a photiau blodau: Yr oedd Farnyard Nurseries wedi plannu blodau gaeaf, ac yr oedd y Clerc wedi archebu y placiau. Cyllid: Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr. Cinio Blynnyddol: Penderfynwyd y byddai'r ginio ar nos Wener 20 Chwefror 2015 am 8yh, a bod angen i'r aelodau gysylltu â'r Clerc erbyn dechrau mis Chwefror gyda eu dewis o fwyd. Gwella Diogelwch ar y ffyrdd - Gwella Troedffordd ar yr A485 : Llythyr i gadarnhau bod y cyllid wedi ei sicrhau i'r gwaith yma ac y byddai'r gwaith yn cymryd tua 10 wythnos i'w gwblhau. Goleuadau Solar 30mya: Yr oeddent yn eu lle ac yn gweithio. Nid oedd y goleuadau wedi bod yn gweithio oherwydd fandaliaeth. Ysgol Llanllwni: Yn dilyn ymddeoliad Mrs Nans Davies fel Prifathrawes yr ysgol penderfynwyd yn unfrydol i ddanfon llythyr oddi wrth yr aelodau i ddymuno yn dda iddi.



Harry Jones enillodd ras y mast mewn 41:10, 2il Dylan Lewis Sarn Helen 43:04 a 3ydd a 1af d40 Daniel Hooper 43:29, 3ydd agored Ken Caulkett Aberystwyth 44:12, 2il d40 Glyn Price Sarn Helen 44:44, 3ydd Michael Davies Sarn Helen 47:89, 1af d50 Dave Powell Aberystwyth 46:54, a rhedwyr Sarn Helen ddaeth yn ail a thrydydd, David Thomas 50:31, a Calvin Williams 50:37. Y fenyw gyntaf nol, Louise Barker Aberystwyth 50:59, 2il m35 Claire Cleathore TATA Multi Sport 52:05, 3ydd m35 Eleri Rivers Sarn Helen 60 munud. 1af agored Clara Evans Pontypridd 51:05, 2il Sian Trace Amman Valley Harriers 53:10, 3ydd Sian Roberts Jones Sarn Helen 56:42. 1af m45 Dawn Kenwright 59:20, 2il Elen Page Sarn Helen 61:01, 3ydd Jane Wilkins Aberteifi 62:30.

Aled Jones Aberystwyth enillodd ras iau 9:59, 2il Llywelyn James Sarn Helen 10:17, 3ydd Thomas Willoughby Sarn Helen 10:27. Beca Mai Roberts Sarn Helen enillodd ras y merched 10:59, 2il Grace Page Sarn Helen 12:04, 3ydd Naomi Howell Sarn Helen 13:41. 1af dan 12 Jamie Jones 5:27, 2il Osian Elis Roberts 5:33, 3ydd Dafydd Jones 5:38, 1af merch Seren James 5:40, 2il Lisa Jenkins 6:33, 3ydd Leah Regan 6:40 a'r plant i gyd yn dod o glwb Sarn Helen.

Yn nhrydydd cyfres traws gwlad Gwent yn Aberhonddu, menywod agored 73 Caryl Davies, dan13 13eg Beca Mai Roberts, bechgyn 13 26ain Daniel Jones, bechgyn nofis Dafydd Jones 58fed. Yn Llanfair ym Muallt bu traws gwlad rhanbarth Cymru, Dawn Kenwright yn ennill y fedal aur yn ras 'master women' mewn 29:34, Elen Page 30:48, Glyn Price yn gorffen 37:52 yn ras 'master men' ac yn cael y fedal efydd, Daniel Hooper 38:38, ras menywod agored

Caryl Davies 30:12, dan 13 Beca Mai Roberts 9:16, a dan 13 bechgyn Daniel Jones 9:10.

Canlyniadau ras 10K Aberystwyth, Dylan Lewis 35:23, Glyn Price 36:20, Steven Holmes 37:58, George Eadon 41:34, Huw Price 42:19.

Yng Nghlwb Rygbi Llanbed oedd cinio'r clwb ac yn ystod y noson cafwyd gwybod pwy oedd pencampwyr y clwb rhedeg a'r beicwyr. Enillwyr y clwb rhedeg: menyw agored Sian Roberts Jones, menyw 35 Eleri Rivers, menyw 45 Helen Willoughby, dyn agored Carwyn Davies, dyn 40 Glyn Price, dyn 50 Paul McCermott. A Dawn Kenwright a Glyn Price enillodd y tarianau sialens. Y clwb beicwyr: 1af menywod Caryl Davies a Rhodri Williams yn gyntaf yn y dynion.

I orffen rasys 2014 cystadlodd Caryl Davies yn y ras nos Galan 5K a gorffennodd yn ei hamser gorau o 21:3.

I ddechrau 2015 roedd rasys traws-gwlad McCain yng Nghaerdydd a chafodd Caitlin Page ei dewis i dîm Cymru dan ugain oed ac yn gorffen yn 10fed, dan 15 Grace Page 49, a dan 11 Beca Mai Roberts 6ed.

Dechrau da i 2015 a thîm Sarn Helen a enillodd y ras pursuit yn Crymch, Dylan Lewis, Llewelyn Lloyd, Michael Davies, Daniel Hooper a Glyn Price. Yn bedwerydd daeth tîm B, Simon Hall, Gethin Jones, Gareth Payne, Paul McDermott ac Andrew Davies. Yn drydydd ar ddeg i dîm menywod y clwb ac yn ail i dîm y merched, Kate McDernott, Eleri Rivers, Dawn Kenwright, Sian Roberts Jones, a Caryl Davies, a phymthegfed oedd y tîm cymysg gyda Dorian Rees, Mitchell Readwin, Eric Rees, Terry Jones a Dee Jolly.

Eglwys St Luc Llanllwni

Gyda chefnogaeth ariannol Cronfa Budd Cymunedol Statkraft Alltwalis, Cronfa Cwm, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Cronfa'r Degwm ac Ymddiriedolaeth Hedley, bu'n bosib adnewyddu tŵr, festri a muriau mewnol Eglwys St Luc Llanllwni er mwyn sicrhau bod yr Eglwys hynafol hon ar gael i'r cenedlaethau sydd i ddod. Trefnir gwasanaeth ail agor Eglwys St Luc Llanllwni ar yr 22ain o Chwefror am 10.30 yng ngofal y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tŷ Ddewi – bydd yna groeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaeth unigryw hwn er mwyn dathlu bod y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau.

Cronfa Ymddiriedolaeth Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis

Os ydych am geisio am gefnogaeth y Gronfa i glwb, sefydliad neu gymdeithas o fewn ffiniau etholaeth Llanfihangel ar Arth mae croeso i chi gysylltu â'r gweinyddydd, Meinir Evans am becyn ymgeisio ar y rhif ffôn 01559 395699 neu drwy e-bost meinir.evans@btinternet.com. Bydd y dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau ar y 13eg o Chwefror 2015 a'r 10fed o Ebrill 2015.

Silian

Actores o fri

Braf yw gweld Elliw Dafydd, Gwarffynnon [neu Anni Dafydd i'r actorion] ar y teledu yn y gyfres 'Lan a Lawr'. Dymuniadau gorau i ti ac edrychwn ymlaen i'th weld eto. Mwy o'i hanes ar dudalen 5.



O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Ddechrau'r flwyddyn newydd, mae'n dda cael newyddion da am drafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion. Fis Medi llynedd, ar ôl diwedd rownd o gymorth-dal Ewropeaidd, daeth gwasanaeth bws y Cardi Bach, oedd yn gwasanaethu yr arfordir rhwng Cei Newydd ac Aberteifi, i ben. Roedd hyn yn ergyd i nifer o bentrefi'r cylch lle nad oes llawer o ddewis arall o drafnidiaeth, ac i gerddwyr ac ymwelwyr – a'r busnesau sy'n ddibynol arnynt. Gwnaeth grŵp ymgyrchu lleol waith diwyd iawn wrth godi proffil y pwnc yma, ac mi godais innau'r mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth. Yn fuan ar ôl gwyliau'r Calan, daeth y newyddion da fod Llywodraeth Cymru am roi cymorth-dal i adfer y Cardi Bach.


Mae manylion i'w datrys, ond dyma newyddion calonogol i'r ardal ac i'r diwydiant twristiaeth sydd mor ddibynol ar lwybr yr arfordir a'r cyfleon cerdded sy'n deillio ohono. Mae'r penderfyniad yma, yn ogystal â'r buddsoddiad diweddar yn y gwasanaethau T1 a T5, a'r penderfyniad i gefnogi'r gwasanaeth Bwcabus tra bod ceisiadau newydd am gyllid yn cael eu hystyried, yn fuddsoddiad gwerth-chweil mewn trafnidiaeth ar adeg o gynni ariannol a thoriadau. Mae angen gwella rhai elfennau o hyd, wrth gwrs, fel y diffyg gwasanaeth T5 ar y Sul, ond at ei gilydd mae'r sefyllfa o ran bysiau yn well yng Ngheredigion nag mewn nifer o ardaloedd.

Rwy'n parhau hefyd i gefnogi'r ymgyrch TrawsLink i adfer cysylltiadau trên rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llanbedd a Chaerfyrddin. Da oedd gweld cynifer o bobl yn y cyfarfod cyhoeddus diweddar, ac edrychaf ymlaen at drafodaethau gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth a Network Rail i weld sut i wthio'r cynllun yma ymlaen.

Cam gwag, fodd bynnag, yw cyhoeddiad diweddar San Steffan bod pob trwydded yrru yn gorfod cario baner jac yr undeb o hyn ymlaen. Gofynnais i'r Prif Weinidog am safbwynt Llywodraeth Cymru, ac mi gytunodd gyda mi y byddai'n well petai pawb yn cael dewis pa faner sy'n ymddangos. Y Ddraig Goch fyddwn i'n ei ddewis bob tro!



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurances.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Gerald Morgan YOUTUBE

Gerald Morgan FY NGALWAD
Gerald Morgan CORON DRIPHYLG
Gerald Morgan yn canu CÂN WYNA

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Sior Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbedd

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

CANOLFAN ADDURNO AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont
Llanbedd Pont Steffan
01570 423156



Da iawn i bawb o Ysgol Bro Pedr a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Cogurdd eleni. Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh am ennill, i Ifan Meredith ar ddod yn ail ac i Sioned Davies, Julia Nagy a Niah Bouvet am ddod yn drydydd. Pob hwyl i ti Jessica yn y rownd nesaf.



Rhai o ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 Ysgol Bro Pedr wedi gwisgo fel Arch-arwyr yn rhan o'u gwaith thema y tymor yma.



Côr Iau Ysgol Bro Pedr yn canu yn agoriad swyddogol y Parlwr Pinco gyda'r canwr Aled Hall a'r perchennog Anthea Jones.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Braf yw cael croesawu Miss N Davies yn ôl yn dilyn ei llawdriniaeth a dymunwn yn dda i Mrs Alice Jones ar ei hymddeoliad ar ôl 24 mlynedd o wasanaeth diflino i'r ysgol. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.

Bu côr yr ysgol yn brysur iawn ym mis Rhagfyr yn diddanu'r henoed, yn canu yn noson siopa hwyr y dref ac yng nghyngerdd Carol, Cerdd a Chân yr Eglwys. Cawsom syrpreis yn Neuadd Fictoria oherwydd wrth i ni ganu daeth camerâu "Pnawn da" i ffilmio Dorothy Williams yn derbyn gwobr Halen y Ddaear a llongyfarchiadau mawr iddi. Cafwyd y pleser hefyd o ganu gyda'r enwog Aled Hall yn agoriad swyddogol Y Parlwr Pinco a phob dymuniad da i Anthea ar y fenter newydd. Diolch yn fawr i holl aelodau côr yr ysgol am eu hymroddiad.

Bu dau ddeg un o ddisgyblion y campws yn coginio salad ffwrwythau yn rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd a gynhaliwyd yn y campws hŷn. Mrs Pugh oedd y beirniad a diolch iddi am ei gwaith. Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh ar ddod yn gyntaf, Ifan Meredith yn ail a Sioned Davies, Julia Nagy a Niah Bouvet yn gydradd drydydd. Pob hwyl i Jessica yn y rownd nesaf.

Derbyniodd rhyw dri deg o ddisgyblion dystysgrifau a medalau am ddarllen llyfrau o'r llyfrgell. Cyflwynwyd y gwobrau yn ystod y gwasanaeth. Da iawn chi.

Llwyddodd Filip Poczatek o flwyddyn 6 ennill pencampwriaeth bechgyn Cymru mewn cystadleuaeth gymnasteg a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafodd yr ail wobwr hefyd yn y gystadleuaeth agored. Cawsom newyddion bendigedig yr wythnos yma bod Filip wedi cael ei ddewis i hyfforddi gyda thîm gymnasteg Prydain – arbennig yn wir. Llongyfarchiadau, Filip, a diolch i Mr Rees am dy hyfforddi. Yng nghystadleuaeth sirol gymnasteg yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar cipiodd Filip y wobwr gyntaf yn unigol a daeth Filip a Faye yn fuddugol yn y parau a'r tîm yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob lwc i Filip a Faye yng nghystadleuaeth Cymru.



Cyflwynwyd siec yn dilyn casgliad ein gwasanaeth Nadolig i Ruby Birch a'i theulu i'w drosglwyddo i Uned y Galon, Ysbyty Plant Birmingham gan fod Ruby wedi derbyn triniaeth yno. Diolch i bawb a gyfrannodd at y swm sylweddol o £586.

Daeth cwmni "Mewn Cymeriad" i gyflwyno sioe i ddisgyblion



Bu Filip a Faye o Ysgol Bro Pedr yn llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth sirol yr Urdd gyda Filip yn ennill yn unigol a Faye yn drydydd a'r ddau yn fuddugol yn y parau. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob lwc yn y gystadleuaeth genedlaethol.



Cafwyd orig fywiog, llawn bwrlwm yng nghwmni Ed Holden a fu'n gwneud sesiynau Beat Boxing gyda'r disgyblion. Roedd pawb wrth eu boddau.



Filip Poczatek, Ysgol Bro Pedr yn ennill Pencampwriaeth bechgyn Cymru mewn cystadleuaeth gymnasteg a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafodd yr ail wobwr hefyd yn y gystadleuaeth agored. Mae Filip wedi cael ei ddewis i hyfforddi gyda sgwad gymnasteg Prydain hefyd. Llongyfarchiadau Filip.

blwyddyn 2 - 6 ar hanes yr Esgob William Morgan. Cyflwynwyd y stori gan yr actor Llion Williams yn fywiog a diddorol ac roedd y plant yn ymateb yn wych ac wedi elwa'n fawr o'r profiad.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3 – 6 gyfle i fynd draw i weithdy Tseineaid yn y Brifysgol a chael gweithgareddau celf.

Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd a diolch i Mrs Meinir Evans am eu hyfforddi ac i Miss Nicola am ei chymorth hefyd. Cafodd y merchd lawer o hwyl wrth gystadlu a chymdeithasu gydag ysgolion eraill y cylch.

Ysgol Bro Pedr – Campws Hŷn

Llongyfarchiadau mawr i enillwyr rownd ysgol Cogurdd eleni. Bu disgyblion o'r ysgol iau a'r ysgol hŷn yn gweithio'n ddiwyd i greu prydiau blasus dros ben. Dymunwn bob lwc i Jessica ac i Niall yn y rownd nesaf. Cafodd disgyblion addysg gorfforol blwyddyn 12 ddiwrnod gwych yng

Cafodd Mathew o flwyddyn 7 anrheg arbennig iawn eleni. Ar ôl danfon llythyr a charden Nadolig at y cogydd enwog Marcus Wareing fel rhan o'i waith Saesneg yn nosbarth Mr Mark Rees, cafodd gopi wedi'i arwyddo o'i lyfr trwy'r post gyda neges hyfryd tu fewn.





Ddydd Gwener, Ionawr 23ain bu aelodau'r clwb Cymraeg yn dosbarthu rhosod i ddisgyblion a staff ar draws yr ysgol gyfan fel anrhegion Santes Dwynwen cynnar. Diolch am yr holl waith caled!



Cynhaliodd Ysgol Bro Pedr ei Noson Wobrwyo yn ddiweddar. Y siaradwr gwadd oedd Mererid Hopwood a gyda hi yn y llun mae'r faeres y Cyng. Elsie Dafis; Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Diwylliannol; David Williams, Prifathro a Rhian Haf Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr gyda Sophie Hall Jones, dirprwy brif ddisgybl; Gethin Morgan, prif ddisgybl; Owain Davies, dirprwy; Sulwen Richards, prif ddisgybl; Sioned Evans a Bradley Lewis, dirprwyon.



Mae Ysgol Bro Pedr wedi derbyn achrediad pellach ac ennill Marc Safon Gyrfa Cymru am ei gwaith yn hyrwyddo addysg gyrfaoedd. Yn y llun mae Jessica Garrett, Cydlynnydd Gyrfa Cymru, yn cyflwyno tystysgrif i Deiniol Williams, Pennaeth Cynorthwyol. Yn y llun hefyd mae'r Pennaeth, David Williams.

Siarad Cyhoeddus

Yn ystod cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I Ceredigion fe ddaeth llwyddiant i ferched y Cwm, sef Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o G.Ff.I. Pontsian yn 1af fel darlennydd dan 14oed, Meinir Davies, Caerwenog yn ennill fel cadeirydd tîm C.Ff.I. Llanwenog dan 16 oed a Sioned Davies, Llys y Wawr yn ennill y cadeirydd gorau dan 21.

Gyrru Car

Yn ystod yr wythnosau diwethaf fe basiodd Meinir Davies, Caerwenog ei phrawf gyrru car – pob hwyl ar y gyrru Meinir a chymer bwyll.

Piano

Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ar basio Gradd 3 Theori gydag anrhydedd. Da iawn a dal ati.

Croeso i'r ardal

Yn ystod diwedd y flwyddyn gwelwyd golau eto ym Mhenlanfawr – croeso cynnes i Lynne Griffiths a'i meibion Owen ac Endaf a gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Cydymdeimlo

Cyn y Nadolig fe gollodd Mrs Betty Jones, Delfan a theulu Talarwen frawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Watt Davies o Landdarog. Derbyniwch gydymdeimlad llwyr a dwysaf yr

ardal gyfan.

Gor-ŵyr bach newydd

Daeth gor-ŵyr bach newydd i Mrs Ella Davies, Waun yn ystod mis Rhagfyr, mab i'w hŵyr Gethin a'i wraig.

Cwrdd Nadolig

Fore dydd Nadolig trodd nifer fawr i'r oedfa flynyddol yng Nghapel y Cwm. Roedd yn braf gweld tua 18 o blant yno. Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan Mrs Nanna Ryder, Tyngrug-ganol. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan blant a ieuencid y Cwm sef Owain, Osian, Beca, Lois, Hafwen, Lisa, Luned, Elan, ac Elis. Braff oedd cael croesawu y Parch. Wyn Thomas atom i'r cwrdd a chafwyd cymun ganddo hefyd. Braff oedd cael ei gwmni y bore hwnnw a dymunwn wellhad buan iawn iddo eto.

Priodas Dda

Diwrnod olaf 2014 unwyd mewn priodas yn Eglwys San Pedr, Llambled Trystan Potter, Rhoslwyn a Gemma Hope o Gwmann. Hir oes a hapusrwydd i chi eich da.

Pen-blwyddi arbennig

Fe ddathlodd Eurwyn Davies, Maesnewydd a Sion Jenkins, Hafan y Cwm ben-blwyddi arbennig yn ystod mis Ionawr. Gobeithio eich bod eich dau wedi mwynhau'r dathlu.



Patagonia

Ddiwedd mis Ionawr fe gafwyd noson sbeshal iawn yn Festri Capel y Cwm pan ddaeth dwy gyn-aelod o G.Ff.I Pontsian atom i ddweud hanes eu taith gyffrous yn ddiweddar i'r Wladfa ym Mhatagonia. Eleri Jenkins, Bryngolau fu yn llywyddu'r noson ac fe groesawodd Einir Ryder, Tyngrug Ganol, ac un o blant y Cwm, ynghyd â Mererid Davies, Fron, Pontsian. Bu'r ddwy wrthi yn dweud wrthym sut y cawsant hwy, ynghyd â deg merch arall, y cyfle unigryw i deithio yn enw C.Ff.I Cymru i Batagonia yn ystod Hydref 2014. Cafwyd tipyn o hwyl wrth iddynt ddweud yr hanes a dangos lluniau amrywiol i gyd fynd â'r hanesion di-ri. Cafwyd hanes croesi'r Paith i ardal yr Andes ac yn ddiddorol iawn bu cyfle i glywed hanes Eisteddfod y Gaiman lle bu'r merched yn cystadlu a chael gwobrau hefyd! Bu'r ddwy yn ymweld ag Ysgol Gymraeg yr Hendre ac Ysgol Gymraeg yr Andes. Roeddent wedi mynychu pedwar asado ac wedi mwynhau'r profiad hwnnw yn fawr iawn!

Cafodd y gynulleidfa siawns i holi ambell i gwestiwn i Einir a Mererid ac fe ddiolchwyd i'r ddwy yn ddiffuant iawn gan Eleri a ddywedodd ein bod wedi cael noson ddifys ac addysgiadol a phawb oedd yn bresennol wedi mwynhau mas draw. Tynnwyd raffl fechan ac fe weinwyd te a phice ar y maen cyn i bawb droi am adre yn dilyn noson gofiadwy iawn. Fe drosglwyddwyd elw'r noson i goffrau Capel y Cwm.



Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells

Grym Gwirfoddolwyr

Wrth wynebu toriadau llym yn y sector cyhoeddus rydym yn dechrau sylwi ar effeithiau mawr ar rai o'r cyfleusterau rydym yn eu cymryd yn ganiataol yn ein cymunedau. Felly, mae'n adeg i geisio edrych ar ffyrdd newydd a rhatach i gwrdd â gofynion trigolion, yn aml drwy ddefnyddio'r sector gwirfoddol. Nid yw hyn yn gam gwael wastad. Rhaid cofio bod yna lu o gyfleoedd yn dod yn sgil y newidiadau yma. Mae gan grwpiau cymunedol yn aml fwy o ryddid na chyrrff cyhoeddus, sy'n gaeth wrth brosesau biwrocrataidd, i arbrofi â dulliau newydd a mwy effeithlon. Ac yn fy ngwaith i yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi gweld nifer o weithgareddau arloesol yn digwydd yn y sector gwirfoddol.

Enghraifft flaengar o hynny yw ddatblygiad Canolfan Pyllau Glyncorrwg yn Nyffryn Afan, ger Port Talbot. Pentref oedd yn ddibynnol ar y diwydiant glo yw Glyncorrwg ond newidiwyd y gymdeithas gyfan pan gaeodd y pyllau glo yn y 1970au. Erbyn 1990 roedd hanner y tai yn y pentref yn wag â'r ysgol a'r feddygfa ar fin cau. Daeth grŵp bach o drigolion at ei gilydd i geisio adfer y gymuned. Penderfynwyd cymryd golwg newydd ar y tirwedd a oedd erbyn hyn yn rhan o Goedwig yr Afan yn lledu dros 8,000 o erwau, a cheisio datblygu syniadau busnes. Sefydlwyd dau lyn pysgota oedd yn arloesi o safbwynt defnydd tir a buont yn llwyddiannus yn sicrhau arian grant i ddefnyddio'r tipiau glo i fyndio'r llynnoedd. Adeiladwyd canolfan ymwelwyr yn y blynyddoedd wedyn a heddiw mae'n gartref i lwybrau beicio mynydd o safon byd-eang. Cwmni Cymunedol Cydweithredol sy'n rhedeg y Ganolfan ac mae dau aelod o staff llawn amser yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol. Mae yna hefyd gaffi ar y safle sy'n cyflogi tua phum aelod arall o staff. Drws nesaf mae yna fusnes hurio beiciau mynydd. Mae ganddynt faes gwersylla ac yn yr haf ac ar benwythnosau mae'n llawn ymwelwyr o Lundain a threfi mawr eraill ar gyrion yr M4. Dyma enghraifft

arbennig o weithred gymunedol sydd wedi sbarduno economi twristiaeth hollol newydd mewn ardal wledig.

Mae Llanbed yn gyfarwydd â gweithgareddau gwirfoddol gyda sefydliadau fel Siop y Smotyn Du, Caffi'r Hedyn Mwstard, Coedwig Gymunedol Longwood a hyd yn oed papur bro Clonc, heb sôn am nifer o neuaddau pentref, caeau chwarae, a hyd yn oed siopau cymunedol yn y pentrefi o amgylch. Mae eu llwyddiant yn ddibynnol ar rym gwirfoddolwyr yn y gymuned.

Mae arbenigwyr yn galw'r gweithgareddau yma yn 'economi graidd,' yr agweddau o deulu a chymuned sy'n tanategu pob peth arall mewn ardal. Ac yn ystod y degawdau diwethaf mae cymdeithas i raddau wedi colli gafael ar ba mor werthfawr yw'r economi graidd yma er mwyn cynnal ein cymunedau. Mae nifer o ddatblygwyr cymunedol sy'n gweithio mewn ardaloedd difreintiedig yn datblygu'r syniad o ddefnyddio amser fel arian cyfredol i geisio ail-sbarduno'r 'economi graidd' a gollwyd mewn sawl ardal. Seiliwyd Banciau Amser (Timebanks) mewn sawl man ar yr egwyddor hon.

'No society has the money to buy, at market prices, what it takes to raise children, make a neighbourhood safe, care for the elderly, make democracy work or address systemic injustices...' yn ôl Edghar Cahn, 19 Rhagfyr 2007 wrth ddiffinio pwysigrwydd Timebanking.

Mae bancio amser yn dod â chymunedau yn nes at ei gilydd ac mewn llefydd lle mae lefelau diweithdra yn uchel, yn rhoi gwerth ar gyfraniad pawb i'r gymdeithas. Oherwydd mae l awr yn cyfateb ag 1 credit amser, beth bynnag yw eich cefndir.

Mae'n tanlinellu'r ffaith, waeth pa gyflwr sydd ar ein heconomi ariannol mai'r cyfraniad mwyaf gwerthfawr y gall unrhyw un ohonom ei wneud i'n cymuned a'n cymdogion yw rhoi'n hamser.

Gohebiaeth

Shwmae!

Tybed os ydych chi wedi clywed am brosiect dwi'n gweithio arno o'r enw Digidol ar Daith? Yn syml, prosiect wedi'i ariannu gan y Llywodraeth ydyw, i wella sgiliau digidol mudiadau a busnesau Cymraeg Cymru - ac mae AM DDIM. Yn Chwefror a Mawrth bydd **Digidol ar Daith** yn mynd ar daith ledled Cymru yn cynnig hyfforddiant **AM DDIM** ar sut i wneud y mwyaf o'r offer digidol sydd ar gael yn y Gymraeg i helpu mudiadau a busnesau Cymraeg i rannu newyddion a hyrwyddo eu hunain yn well dros y we. Mae sgiliau digidol yn sgil hanfodol, a bwriad y prosiect yw sicrhau fod gan fudiadau a busnesau Cymraeg y sgiliau gorau i lwyddo yn eu maes. Mae'r seminar yma yn dysgu sut i wneud y mwyaf o rwydweithiau cymdeithasol poblogaidd, creu gwefan a chreu straeon gafaelgar i'w cyhoeddi yn ddigidol.

Canolfan Newyddiaduraeth Gymdeithasol Prifysgol Caerdydd sydd yn cynnal yr hyfforddiant wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Y prif hyfforddwyr fydd Emma Meese, rheolwr y Ganolfan a hyfforddwr rhwydweithiau cymdeithasol gyda Choleg Newyddiadurol y BBC, a Dylan Iorwerth, Golygydd Gyfarwyddwr Golwg.

Mae'r hyfforddiant yma yn addas i unrhyw un – unigolyn, clwb neu fudiad – sydd â diddordeb mewn creu a rhannu newyddion a gwybodaeth i'w cymuned yn y Gymraeg ac sydd am wella eu sgiliau digidol i allu gwneud hyn.

Bydd Digidol ar Daith yn ymweld â Chlwb Rygbi Llanbed ar y 3ydd o Fawrth o 2.30 i 5.30 y prynhawn. Gallwch fwcio tocynnau AM DDIM ar y linc isod. Dim ond dwy funud bydd yn cymryd, a dim ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael:

<http://www.eventbrite.co.uk/o/digidol-ar-daith-gan-canolfan-newyddiaduraeth-gymunedol-prifysgol-caerdydd-7844052682>

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynnau, cysylltwch â fi ar 07870 171 996 neu ar elidyr@hotmail.co.uk, diolch! Hefyd, os ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw un arall i basio'r neges ymlaen iddynt, gwnewch hynny. Ni'n awyddus i gael pob digwyddiad yn llawn!

Hwyl am y tro.

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw'ch darllenwyr at ddogfen o'r enw 'Dewiniaith' sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer Mudiad Meithrin dros y ddegawd nesaf. Cyhoeddwyd 'Dewiniaith' ar Ionawr 20fed.

Mae cylch meithrin lleol mewn cannoedd o bentrefi, trefi a dinasoedd Cymru ac yn ganolbwynt pwysig i fywyd y gymuned wrth ddarparu gofal ac addysg o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymfalchiwn yn y ffaith mai dyma ddechrau taith ieithyddol i nifer o blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg. Cyn bwysiced yw'r ffaith fod y cylch yn darparu profiadau

hwyllog o chwarae a dysgu i filoedd o blant bach Cymru. Os ydych am ddarganfod ble mae cylch yn eich ardal chi, ewch i 'Chwilio am Ofal Plant' ar ein gwefan (cyfeiriad isod).

Fel mudiad, byddem yn hynod falch o gael clywed barn pobl Cymru am gynnwys 'Dewiniaith'. Mae modd lawrlwytho copi o wefan Mudiad Meithrin (www.meithrin.cymru) neu gael copi caled drwy ffonio 01970 639639. Os yn trydar neu ar Facebook, ewch i @MudiadMeithrin neu www.facebook.com/MudiadMeithrin.

Yn gywir,
Rhiannon Lloyd
Cadeirydd Mudiad Meithrin

Tîm FWAG Cymru yn cael Ymgynghorydd Newydd yn y Canolbarth

Mae Alaw Hughes, ddaw yn wreiddiol o Bentrefoelas yng Nghonwy, yn Ymgynghorydd Cadwraeth Fferm cynorthwyol newydd gyda FWAG Cymru yn y Canolbarth. Mae'n ymuno gyda'r ymgynghorydd presennol, Helen Barnes, yn swyddfa FWAG yn Rhaeadr gan ddarparu cyngor amgylcheddol i ffermwyr ym Mhowys a Cheredigion. Daw Alaw o fferm dda byw ac mae ganddi lawer o brofiad o gadwraeth sy'n gysylltiedig â ffermydd. Hyd yn ddiweddar roedd yn gweithio fel rheolwr contract Glastir Uwch a daw â gwybodaeth fanwl am gynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir gyda hi i'w swydd newydd.

"Rydym wrth ein boddau fod Alaw wedi ymuno â'r tîm" meddai Helen Barnes, Dirprwy Gyfarwyddwr FWAG Cymru, "Rydym yn brysur yn tywys ffermwyr drwy weithrediad eu cytundebau Glastir, yn ogystal â'r ystod eang o waith arall a gawn a bydd cael Alaw gyda ni yn golygu y gallwn helpu llawer mwy o'n haelodau a'n cwsmeriaid".

Mae FWAG Cymru yn gorff annibynnol sy'n gweithio drwy Gymru benbaladr i roi cyngor i ffermwyr a pherchnogion tir ar bob math o faterion rheoli amgylcheddol. Mae galw ar ein hymgynghorwyr i helpu i ddiweddarau gweithgareddau Glastir a'r dyddiaduron stoc ar hyn o bryd, gan hefyd samplu pridd/cynllun rheoli maetholion, dylunio prosiectau cadwraeth a helpu gyda cheisiadau i Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir Organig. Maent hefyd yn hapus i asesu ardaloedd o dir i weld beth yw eu posibilrwydd o ran cynlluniau amgylcheddol. Mae gan dîm FWAG Cymru gefndir amaethyddol cryf ac maent yn hyderus eu bod yn gallu delio gydag unrhyw fater gyda dealltwriaeth dda o safbwynt y ffermwr.

Gellir cysylltu â FWAG Cymru yn y Canolbarth yn swyddfa Rhaeadr ar 01597 810786.

Ysgol Llanllwni

Cyn y Nadolig cafwyd sawl gweithgaredd lle codwyd tipyn o arian. Cynhaliwyd Bore Coffi yn yr ysgol tuag at elusen Barnados a chodwyd £308.10. Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn gyda'r ysgol yn derbyn £867.04, sef hanner yr elw. Buom yn canu carolau o amgylch y pentref gan godi £243.63 tuag at gronfa'r ysgol. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ddiwedd y tymor cawsom barti i ffarwelio â Mrs Nans Davies. Daeth nifer o rieni a chyn aelodau'r staff i ymuno â ni. Cafwyd prynhawn o hel atgofion; cyflwyno anrhegion, blodau a chardiau; darllen penillion a chanu caneuon wedi eu creu'n arbennig.

Croeso cynnes i'r Pennaeth dros dro newydd sef Mr Gareth Jones ac i Miss Charlotte Evans, athrawes newydd Cyfnod Allweddol 2. Bydd Mr Jones yn treulio dau ddiwrnod yn yr ysgol gan ei fod eisoes yn bennaeth dros dro yn Ysgol Llanybydder. Croeso hefyd i dri disgybl newydd i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen sef Mari Jones, Gwennan Owen a Kacper Chojnacki. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn ein plith.

Cawsom wasanaeth arbennig ddechrau'r tymor pan ddaeth Mrs Janet Ingram o Dŷ Ddewi i siarad â ni. Hefyd yn bresennol oedd ein ficer, Susie Bale. Ymwelodd P.C. Kath â dosbarthiadau yr Adran Iau gan roi sesiynau addysgiadol a diddorol i'r plant. Aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen i weld sioe 'Yr Hwyaen Fach Hyll' gan Theatr Genedlaethol Cymru yn Neuadd San Pedr. Mwynhaodd pawb y perfformiad yn fawr.

Thema y Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw 'Archfarchnad' felly aethom ar ymweliad â Sainsbury's yn Llanbed. Aeth Claire â ni o gwmpas a chawsom gyfle i ofyn cwestiynau. Roedd yn brofiad da iawn.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:-

Mis Rhagfyr 2014: 1af - £50 – Anwen Evans, Park Lane. 2ail - £40 – Rena Harrington, Pantdulais Hall. 3ydd - £30 – Ruth Evans, Maes Yr Onnen. 4ydd - £20 - Beryl Vincent, Gwalia. 5ed - £10 – Morfudd Rees, Llys-y-Wawr. 6ed - £5 – Aled Davies, Sŵn-y-Nant, Felinfach.

Mis Ionawr 2015: 1af - 246 – Denise Thomas, Neuadd Deg, Llanllwni. 2ail - 84 – Jonathan Benson. 3ydd - 264 – Chris Owen, Tan y Bryn, Llanllwni.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Olwen a Jason yn y Bontfaen ar enedigaeth Efa Grug yn ystod mis Rhagfyr. Chwaer fach i Tomos Ifan, ac wyres i Dewi ac Eleri, Blaencwmdu.

Diolch

Dymuna Nans Davies ddiolch i

bawb am y cyfarchion caredig a'r rhoddion gwerthfawr a dderbyniodd wrth ymdeol yn bennaeth Ysgol Eglwys Llanllwni.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Undeb y Mamau: Yng nghyfarfod mis Rhagfyr cawsom y pleser o groesawu Mr. David Cooper, sy'n byw ar hyn o bryd ym Mhontweli, ond a fydd yn symud cyn hir i Gysgod y Coed, Cwmann. Mae gwreiddiau David yn ddwfn yn yr ardal ac mae e wedi symud nol o Lundain lle bu'n gweithio ar staff Tŵr Llundain. Hanes y Tŵr oedd testun ei anerchiad ac roedd yn llawn gwybodaeth ddiddorol i gyd fynd â lluniau di-ri. Roedd hon yn orig bleserus iawn. Diolchwyd iddo am ddod atom. Cafodd cyfarfod mis Ionawr ei ohirio achos y tywydd gwael, ond fe fydd y Ficer yn cynnal cwis ym mis Chwefror.

Eglwys Sant Luc

Bu adeg y Nadolig yn un prysur fel ym mhobman. Cafwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar y 7fed a'r plant yn gwneud eu gwaith yn raenus fel arfer. Yn dilyn, roedd Gwasanaeth y Christingle lle'r roedd plant Ysgol Llanllwni yn gwneud eu rhannau hwythau. Roedd y Neuadd yn orlawn a'r golau kannwyll yn creu naws cynnes. Ar yr 21ain cawsom ein gwasanaeth Nadolig o garolau a llithiau a naws yr Ŵyl yn parhau. Roedd gwasanaeth bore'r Nadolig am 9.45.

Mae'r prysurdeb wedi parhau i'r flwyddyn newydd. Gan fod yr adeiladwyr wedi gorffen yn yr Eglwys roedd llawer iawn, iawn o waith glanhau i'w wneud ar yr adeilad. Daeth criw da o selogion ar lawer achlysur i gyd-weithio i sicrhau fod yr Eglwys yn barod ar gyfer Plygain y Ddeoniaeth ar Ionawr 4ydd. Diolch byth, fe ddaeth y trefniadau i ben a phleser oedd croesawu ein cyd eglwys i'r Plygain am ddau o'r gloch. Roedd yr Eglwys yn edrych yn hardd iawn a chafwyd gwasanaeth bendithiol iawn o dan areiniad ein Ficer, Suzy Bale. Cymerodd yr Eglwys gwahanol eu rhan a chafwyd lluniaeth yn y Neuadd i orffen prynhawn pleserus iawn.

Cynhaliwyd y Calan Hen eleni ar Ionawr 10fed yn Eglwys Tregroes oherwydd fod Eglwys Llandysul wedi cael difrod ar ôl ei tharo gan fellt. Roedd y gwasanaeth agoriadol am 10 y bore, ac Eglwys Sant Luc yn gwneud ei gwaith am 10.30. Daeth criw da iawn i gynrychioli'r Eglwys, yn blant ac oedolion. Cawsom ein holi gan Beth Davies a fu'n eitha caredig wrthym! Diolch o galon i aelodau Eglwys Tregroes am eu croeso, y cawl blasus a'r danteithion eraill.

Bydd gwasanaeth i ail-gysegru'r

Eglwys ar Chwefror 22ain am 10.30 y bore dan arweiniad y Gwir Barchedig Esgob Wyn, Tŷ Ddewi. Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr sy wedi gweithio'n ddygn i sicrhau fod yr Eglwys yn barod.

Cylch Meithrin

Croeso cynnes i Oscar Thomas ac Owen Davies i'r Cylch. Gobeithio y byddwch eich dau yn mwynhau eich amser yn y Cylch.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i wneud y Ffair Nadolig yn ddiwrnod llwyddiannus ac mi wnaed elw sylweddol o £1,734.09 a fydd yn cael ei rannu gyda'r Ysgol.

Mi fydd Bingo Pasg yn cael ei gynnal nos Lun 13eg Ebrill yn Nhafarn Talardd, Llanllwni am 8yh. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson a gwobrau ariannol. Bydd elw'r noswaith yn mynd tuag at Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.

Croeso cynnes i bawb

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 10 y.b. hyd 12 y.p. yn Ysgol Llanllwni.

Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i gymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.

C.Ff.I. Llanllwni

Blwyddyn newydd dda i chi gyd! Gobeitho eich bod wedi mwynhau dathliadau'r Nadolig ac wedi setlo mewn yn gyffyrddus i 2015! Ma'r aelodau wedi dal mlan i fod yn fisi dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Ar y 14eg o fis Rhagfyr fe fu criw o'r aelodau draw yng Nghapel Issac yn cymryd rhan yng ngwasanaeth carolau'r sir. Diolch i Marina am ein paratoi. Fe fu'r aelodau allan ar ddwy noson ddigon garw cyn y Nadolig yn canu carolau o amgylch yr ardal. Diolch i bawb a roiodd mor hael i ni ac am y croeso a gawsom ar stepen eich drysau. Daethom at gyfanswm hael iawn o £1077 ac fe fydd hwn yn cael ei gyflwyno i uned gofal y fron yn ysbyty Llanelli. Diolch i dafarnau Llwynann a Talardd am y croeso cynnes a'r bwyd a wnaethant ei baratoi i ni ar ddiwedd y ddwy noson.

Nos Wener y 9fed o Rhagfyr fe gawsom ein parti Nadolig blynyddol yn nhafarn Llwynann, Maesyrugiau. Diolch iddynt am y croeso twymgalon a'r bwyd blasus dros ben a gawsom yno.

Mae'r cystadlu yn 2015 yn bendant wedi dechrau gyda llwyddiant ysgubol i C.Ff.I. Llanllwni. Cynhaliwyd Cystadleuaeth Ddarllen a Siarad Cyhoeddus Cymraeg y sir yn ysgol Nantgaredig ddydd Sadwrn

yr 17eg o Ionawr. Daeth cwpan y gystadleuaeth ddarllen yn ôl i Lanllwni am y bedwaredd flwyddyn yn olynol gyda Sioned Bowen, Sioned Howells a Mared Phillips yn cipio'r wobwr gyntaf. Dewiswyd Sioned Howells i fynd ymlaen yn rhan o dîm y sir ar lefel Cymru, gyda Mared wrth gefn. Daeth tîm y swyddfa a oedd yn cynnwys Siriol Howells a Nerys Jones yn drydydd. Cipiwyd hefyd gwpan yr adran iau am yr ail flwyddyn yn olynol gyda Mared Phillips, Sioned Bowen a Siriol Howells yn dod yn gyntaf fel tîm. Mi fydd Betsan Jones a Mared Phillips yn mynd ymlaen i lefel Cymru, gyda Siriol Howells wrth gefn.



Derbyniodd Mared y cwpan am yr unigolyn gorau yn yr adran hon.

Ymlaen wedyn at ganlyniadau'r adran ganol a chwpan arall i Lanllwni gyda Ffion Rees, Ifor Jones ac Owain Davies yn sicrhau'r wobwr gyntaf yn yr adran hon hefyd. Ma Ifor hefyd wedi cael ei ddewis i fynd ymlaen i lefel Cymru, gyda Ffion ac Owain wrth gefn. Bore llewyrchus dros ben o gystadlu i aelodau'r clwb - doedd hi ddim yn bosib cael dechrau gwell i 2015! Llongyfarchiadau enfawr i chi gyd a phob lwc ddiwedd mis Mawrth yn Llanelwedd ar lefel Cymru. Diolch o galon hefyd i'r tair a fuodd yn rhoi o'u hamser i hyfforddi'r aelodau tuag at y diwrnod, sef Marina Davies gyda'r darllen; Eileen Davies gyda'r adran iau, a Menna Evans gyda'r adran ganol. Llongyfarchiadau i chi eich tair hefyd ar eich llwyddiant – a diolch!



Llongyfarchiadau

Alwena Mair Owen yn ennill y cyntaf ar yr Unawd a'r Llefaru dan 8 oed yn Eisteddfod Pumsaint ac Abergorlech a'r tlws am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Adran Gerdd o dan 21 oed yn Eisteddfod Pumsaint.

C.Ff.I. Ceredigion

Teithiodd clybiau'r sir i bentref Llanddewi Brefi ar gyfer y gystadleuaeth Chwaraeon Dan Do nos Wener yr 21ain o Dachwedd. Braf oedd cael cwrdd i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywiog ar ôl bwrllwm a phrysurdeb yr Eisteddfod. Dyma'r canlyniadau i chi:

Snwcer: Llanddewi Brefi; **Pŵl:** Llangeitho; **Drafftiau:** Felinfach; **Dominos:** Mydroilyn; **Tenis Bwrdd Merched:** Llangeitho; **Dartiau Merched:** Llanwenog; **Tenis Bwrdd Bechgyn:** Troedyrur; **Dartiau Bechgyn:** Penparc; **Tenis Bwrdd Dwbwl:** Troedyrur; **Dartiau Dwbwl:** Llanddewi Brefi; **Tipit:** Penparc

Y clwb buddugol ar ddiwedd y cystadlu oedd clwb Mydroilyn, gyda chlybiau Llanddewi Brefi a Llangeitho'n gydradd ail. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Ddechrau mis Rhagfyr, cafwyd deuddydd oer a Nadoligaidd yn y Ffair Aeaf, a llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gynrychioli'r sir. Rhaid llongyfarch Anwen ac Angharad o glwb Pontsian ar ddod yn 2il yn y gystadleuaeth Addurno Coeden Nadolig; Dyfrig Williams, Llangwryfon am ennill y tlws am roi rhesymau yn Gymraeg ac i Sian Downes, Llangeitho ar ddod yn 'Is-bencampwr y Dosbarth Eidion' yn y gystadleuaeth Magu Llo. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Ymlaen â'r cystadlu eto gyda'r Siarad Cyhoeddus Saesneg. Cynhaliwyd y gystadleuaeth dydd Sul y 7fed o Ragfyr ar gampws Felinfach. Noddwyd y diwrnod gan Yswiriant Greenlands a diolch yn fawr iddynt. Beirniaid y diwrnod oedd, o dan 14: Mrs Elinor Ingham, Aberaeron; o dan 16: Mr Hefin Jones, Llanarthne; o dan 21: Mrs Beth John, Llantrisant ac o dan 26: Mr Aled Jones, Llandeilo. Dyma'r canlyniadau: **Darllen o dan 14:** Cadeirydd: 1af - Alpha Evans, Llanwenog A; 2il - Gwion Ifan, Pontsian B; 3ydd - Glesni Thomas, Pontsian a Dafydd Davies, Penparc. **Darllenwyr:** 1af - Beca Jenkins, Pontsian A; 2il - Hanna Parry, Pontsian B; 3ydd - Hanna Davies, Llanwenog B a Siwan George, Lledrod. **Tîm:** 1af - Pontsian A a Phontsian B; 3ydd - Llanwenog A. **Siarad Cyhoeddus o dan 16:** Cadeirydd: 1af - Meinir Davies, Llanwenog A; 2il - Cadi Jones, Lledrod; 3ydd - Cerys Evans, Mydroilyn a Ffion Evans, Llanwenog B. **Siaradwr:** 1af - Iwan Evans, Llanwenog A; 2il - Rhys Davies, Llanwenog B; 3ydd - Nest Jenkins, Lledrod a Jay Snow, Troedyrur B. **Diolchydd:** 1af - Briallt Williams, Llanwenog A; 2il - Ffion Williams, Lledrod; 3ydd - Dafydd Jones, Pontsian. **Tîm:** 1af - Llanwenog A; 2il - Lledrod; 3ydd - Llanwenog B. **Seiat Holi o dan 21:** Cadeirydd: 1af - Sioned Davies, Llanwenog A; 2il - Meleri Morgan, Llangeitho; 3ydd - Rhiannon Davies, Caerwedros. **Siaradwr:** 1af - Meirian Morgan, Llangeitho; 2il - Cennydd Jones, Pontsian; 3ydd - Sioned Hatcher, Llanwenog A. **Tîm:** 1af - Llanwenog A; 2il - Llanwenog B; 3ydd - Llangeitho. **Siarad ar ôl Cinio o dan 26:** Cadeirydd: 1af - Cennydd Jones, Pontsian C; 2il - Lowri Wilson, Llanwenog B; 3ydd - Carwyn Jones, Mydroilyn. **Siaradwr:** 1af - Enfys Hatcher, Llanwenog B; 2il - Dion Davies, Pontsian; 3ydd - Llyr Jones, Pontsian B. **Tîm:** 1af - Llanwenog B; 2il - Pontsian B; 3ydd - Mydroilyn.

Pencampwyr y diwrnod oedd C.Ff.I. Llanwenog gan ennill Cwpan Emrys Jones, gyda Pontsian yn ail.

Nôl i Landdewi y teithiodd yr aelodau ar nos Sul y 14eg o Ragfyr, ar gyfer Naw Lith a Charol yn Eglwys Dewi Sant. Arweinydd y noson oedd Llinos Griffiths a'r organyddes Mair Griffiths. Cafwyd noson hyfryd o ganu, darllen a pherfformiadau gan Glwb Llanddewi Brefi a Thalybont. I goroni'r noson, derbyniodd pawb ddiod a llond lle o fwyd blasus yn y neuadd i orffen.

Do wir, fe ddaeth hi'n dymor y Nadolig wedyn, a braf oedd mynychu dawnsfeydd a phartïon ar draws y sir a thu hwnt. Teithiodd criw ohonom i Ddawns y Frenhines yn Sir Benfro a Sir Gâr, ond pinael y dathliadau, wrth gwrs, oedd Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc yma yng Ngheredigion. Crynhodd yr aelodau yn y Pier yn Aberystwyth ar gyfer y dathliad, ac roedd pawb yn edrych yn smart iawn yn eu tei-bow, ffrogiau a'r high-heels! Cafwyd noson lwyddiannus iawn, gyda'r lle yn orlawn o bobl ifanc yn dawnsio, chwerthin a chanu. Noson i'w chofio yn wir!

Wedi'r dathliadau a'r joio, daeth hi'n amser i gystadlu ac i glebran unwaith eto, a bant â ni i Felinfach ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion. Cafwyd diwrnod hwylus iawn gydag aelodau o 11 o glybiau'r Sir yn dangos eu doniau wrth siarad, a'r beirniaid i gyd yn canmol y safon.

Y clwb a enillodd y nifer mwyaf o bwyntiau dros y pedair adran, ac yn ennill tarian Brynhogfaen gyda 77 o farciau oedd clwb Llanwenog gyda Llangwryfon yn ail gyda 64 marc ac yn ennill Cwpan Coffa Eric Davies, Prengwyn.

Yn y gystadleuaeth ddarlenn o dan 14eg oed ac iau cafwyd 10 o dimoedd yn cystadlu ac yn beirniadu oedd Mrs Hedydd Thomas. Prism oedd y llyfr, a dyma'r canlyniadau:- **Cadeirydd** - 1af Elin Davies, Llanwenog B; 2il Alpha Evans, Llanwenog A; 3ydd Alaw Mair Jones, Felinfach A a Siôn Jones, Felinfach B. **Darllenydd** 1af Gwion Ifan, Pontsian A; 2il Elin Davies, Llanwenog B; 3ydd Hanna Davies, Llanwenog B. **Tîm** - 1af Llanwenog B; 2il Pontsian A; 3ydd Llanwenog A. Bu 9 o dimau o flaen y beirniad Mr Dai

Baker yn y gystadleuaeth 16eg oed neu iau ac ar ddiwedd y gystadleuaeth yma, cafwyd y canlyniadau canlynol:- **Cadeirydd** - 1af Cadi Jones, Lledrod; 2il Carwyn Hawkins, Felinfach; 3ydd Briallt Williams, Llanwenog A a Ffion Evans, Llanwenog B. **Siaradwr** - 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Iwan Evans, Llanwenog A; 3ydd Meinir Davies, Llanwenog C. **Diolchydd** - 1af Twm Ebbsworth, Llanwenog A, 2il Wiliam Jenkins, Lledrod; 3ydd Ffion Jones, Llangwryfon ac Alpha Evans, Llanwenog B. **Tîm** - 1af Lledrod; 2il Llanwenog A; 3ydd Llanwenog B. Yn y gystadleuaeth 21ain oed neu iau - Siarad ar ôl Cinio - bu 6 o dimau yn cystadlu gyda Mr Aled Griffiths yn beirniadu a dyma'r canlyniadau:- **Cadeirydd** - 1af Meirian Morgan, Llangeitho; 2il Sioned Fflur Evans, Llanwenog A; 3ydd Sophie Jones, Llanwenog B. **Siaradwr** - 1af Cennydd Jones, Pontsian; 2il Meleri Morgan, Llangeitho; 3ydd Elen Davies, Pontsian B. **Tîm** - 1af Llangeitho; 2il Pontsian B; 3ydd Llanwenog B. Bu 11 tîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth Seiat Holi 26ain oed neu iau a Dr. Elin Royles oedd yn cloriannu. Dyma'r canlyniadau:- Cadeirydd - 1af Lowri Davies, Llanwenog B; 2il Lisa Jones, Pontsian A; 3ydd Iwan Davies, Llanddewi Brefi. Siaradwr - 1af Meirian Morgan, Llangeitho; 2il Menna Williams, Llanwenog B a Dafydd Morgan, Pontsian A. Tîm - 1af Llanwenog B; 2il Pontsian A; 3ydd Mydroilyn.

Diolch i noddwr y gystadleuaeth, Cwmni Yswiriant Greenlands, am noddi'r gystadleuaeth.

Bydd enillwyr y Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli C.Ff.I. Ceredigion yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru a fydd yn cymryd lle yn Llanellwedd ar Fawrth 21ain 2015. Pob hwyl i chi gyd.

Clwb 200 - Rhagfyr - C.Ff.I. Felinfach; Geraint a Caroline Davies, Fron, Pontsian; Dewi Jones, Blaenhirbant Uchaf, Cwmsychpant. **Ionawr** - Gareth a Nanna Ryder, Tyngrug-ganol, Cwmsychpant; Gareth Lloyd, Hafancletwr, Talgarreg; Eirlys Lloyd, Dolfarian, Llanfarian

I Ddod... Wythnos o Adloniant - Pantomeim 17eg - 20fed o Chwefror 2014 (Tocynnau'n mynd ar werth ddydd Mercher y 4ydd o Chwefror. Ar gael trwy ffonio'r Theatr.) Nos Fawrth yr 17eg: Tregaron, Felinfach, Troedyrur. Nos Fercher y 18fed: Llangeitho, Llanddewi Brefi, Llangwryfon. Nos Iau y 19eg: Penparc, Pontsian, Llanwenog. Nos Wener yr 20fed: Lledrod, Trisant, Talybont. Cyngerdd Pantomeim (Y perfformiadau buddugol.) - Nos Lun y 23ain o Chwefror - Dawns Dewis Swyddogion - 27ain o Chwefror yn Llanina. Gwledd o Adloniant C.Ff.I. Cymru - 7fed o Fawrth. Cystadleuaeth Call My Bluff - Nos Wener y 13eg o Fawrth. Pwyllgorau'r Sir - Nos Fercher y 18fed o Fawrth.

bod

R.A.B.I.

Elusen amaethyddol yw R.A.B.I (Royal Agricultural Benevolent Institution) sy'n cefnogi teuluoedd yng Nghymru a Lloegr sydd naill ai'n ffermio, neu wedi ymddeol o'r byd amaeth, Rydym yn gallu helpu pan fo'r esgid fach yn gwasgu am nifer o resymau. Sefydlwyd yr elusen yn 1860, a medrwn gynorthwyo ffermwyr a gweithwyr amaeth, dros dymor byr: er enghraifft yn dilyn salwch, damwain, profedigaeth, teulu'n chwalu, neu glefydau ar anifeiliaid. Gallwn, yn ogystal, gynnig cymorth hir dymor i bobl hŷn, pobl sydd wedi ymddeol o'r diwydiant amaeth, a phobl anabl o bob oed.

Mae'r elusen yn medru trefnu grantiau'n gyfrinachol i deuluoedd neu unigolion sy'n gysylltiedig â'r byd amaeth os ydy hi'n fain arnyn nhw. Rhaid i bob darpar ymgeisydd fod wedi ffermio am o leiaf 10 mlynedd, a heb gynilion dros £10,000. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cyngor ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, grantiau rheolaidd, neu daliadau brys. Gallwn helpu gyda biliau cyfleustodau, gan gynnwys olew gwresogi yn y gaeaf, a nifer o gostau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r cartref. Gallwn hefyd dalu am offer arbenigol, nwyddau hanfodol cartref, a chostau teithio i'r ysbyty. Rydym yn asesu pob cais a dderbynnir gennym yn drylwyr. Os yw'r ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cymorth, byddwn yn teilwra'r cymorth yn unol â'r angen. Rydym weithiau'n gallu cynorthwyo gyda ffioedd cartrefi gofal, a chostau cymorth-cartref pan fo angen. Nid yw R.A.B.I. ar unrhyw gyfrif yn talu biliau busnes y fferm, ond gallwn dalu am staff: er enghraifft, pan fydd rhywun yn methu â gweithio oherwydd salwch neu ddamwain. Rydym yma i gefnogi pobl, nid busnesau aflwyddiannus.

Mae Cynllun y Porth (Gateway) yn gallu talu am hyfforddiant i alluogi pobl i ddatblygu sgiliau i gael gwaith oddi ar y fferm, er mwyn ychwanegu at incwm y fferm. Mae gwasanaeth R.A.B.I. yn gwbl gyfrinachol. Am resymau amlwg, mae'r bobl rydym yn eu helpu yn annhebygol o ddweud wrth eraill am y cymorth a gânt. Os ydych yn credu y gallwn ni eich cynorthwyo chi, cysylltwch drwy radffôn cyfrinachol 0300 3037373, neu e-bostiwch grants@rabi.org.uk Am ragor o wybodaeth ynghylch gwaith R.A.B.I. mae croeso i chi gysylltu â Linda Jones ar 01559 364850 neu 07557 363016.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi wysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigryn
Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi *duvets*.



Llanfair

Llongyfarchiadau

Newyddion braf a ddaeth i'n clyw rai diwrnodau cyn y Nadolig pan anwyd merch fach, Beca Mari, i Laura a Dafydd, Llanfair House. Llongyfarchiadau cynnes iawn a phob bendith arnoch. Mae Deborah a Dai, Llanfair Fach yn hapus iawn i fod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf.

Gwasanaeth Carolau

Eleni, tro Capel Mair oedd hi i gynnal gwasanaeth carolau y pentref. Y Parchedig Bill Fillery oedd yng ngofal y gwasanaeth gyda Alan Leech, Deborah Jones, Paula Barker a Dan Griffiths yn darllen stori'r geni. Daeth nifer dda o bobol ynghyd i ganu ein carolau traddodiadol gydag Eleri Davies ac Aerwen Griffiths wrth yr organ. Pleser oedd cael cwmni Llinos ac Elonwy i ganu mewn ffordd mor swynol i ni yng nghanol y gwasanaeth. Diolch iddynt am fod mor barod. Ian Evans wnaeth y croesawu a'r diolchiadau a threfnwyd y gwasanaeth gan Eleri ac Aerwen.

Nos Lun Rhagfyr 15fed a nos Iau Rhagfyr 18fed mi aeth tua phymtheg o bobol y pentref o amgylch i ganu carolau er mwyn codi arian. Ar y nos Lun aethant i ran fynyddig y pentref ac ar y nos Iau rownd y pentref a lawr Heol Llanfair ac yn ôl i'r Neuadd erbyn naw i gael cawl blasus i'w twymo wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones, Nouadd a phawb wedi dod â mins peis. Diolch i bawb am eu caredigrwydd wrth fynd o dŷ i dŷ ac am eu rhoddion hael. Eleni casglwyd dros £600 rhwng y ddwy noson allan yn canu o amgylch yr ardal ac yn y gwasanaeth carolau. Anfonwyd yr arian at Apêl Ebola. Diolch i bawb a wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd.

Gerwyn

Er nad oedd Gerwyn (Trebannau, Cellan gynt) yn byw yn ein pentref ni, roedd yn ffrind da i ni i gyd ac yn enwedig i Gapel Mair lle y byddai yn pregethu yn rheolaidd. Roedd pawb yn drist o glywed am ei farwolaeth sydyn. Cafodd angladd parchus iawn nôl yn ardal ei febyd yn Llanymddyfri.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd ein cinio Nadolig eleni yn y Talbot yn Nhregaron nos Sadwrn Ionawr 24ain. Daeth un ar hugain ynghyd i gael noson bleserus gyda bwyd blasus iawn a phawb wedi mwynhau y cymdeithasu.

Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Odwyn Davies, ein cynghorwr lleol ar gyrraedd oed yr addewid. Pen-blwydd hapus iawn i ti a llawer ohonynt.

Mis y Papur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Je suis Clonc?

A ddylai golygydd Clonc gyhoeddi cartŵn yn gwneud hwyl am ben y Proffwyd Mohamed ... neu ar ben Iesu Grist?

Roedd rhaid i fi wynebu cwestiwn tebyg i hwnna yn ystod yr wythnosau diwetha'. Mae Llanbed yn bell o Paris, ac yn agos iawn.

Yn union ar ôl yr ymosodiadau ofnadwy ar swyddfeydd y cylchgrawn Charlie Hebdo yn Ffrainc, fe ddaeth yna gais i swyddfa Golwg gan rywun amlwg yng Nghymru, yn gofyn i ninnau gyhoeddi'r cartwnau o Mohamed, er mwyn dangos bod gan bawb yr hawl i ddweud eu barn.

Roedd rhaid i fi a Golygydd Golwg feddwl yn ddwys ... ond meddylwch am yr un cais yn dod i olygydd Clonc? Tybed beth fyddai'r penderfyniad?

Mi fyddai yna gwestiynau hollol ymarferol i ddechrau. Am fod rhai'n ystyried bod cyhoeddi lluniau o Mohamed yn bechod - a chartwnau ffaidd ohono'n waeth byth - fe fyddai cyhoeddi'n weithred beryglus.

A fyddai gan olygydd Clonc yr hawl i wneud y penderfyniad er mwyn dangos ei fod yn ddewr a mentrus ... er y gallai hynny fygwth eraill. Iawn, o ran ei fywyd ei hun, ond beth am fywydau pobol eraill sy'n helpu gyda'r papur bro?

A beth am yr egwyddor ei hun? Oes yna'r fath beth â rhyddid barn llwyr? Beth fyddai penderfyniad y golygydd petai yna gartŵn yn dod i Clonc yn gwneud hwyl am ben yr Holocost neu, efallai, am ryw ddigwyddiad trasig lleol?

Mae llawer yn cofio'r ffys oedd yna am y ffilm Life of Brian. Mae pobol yn dal i gredu bod y ffilm wedi ei gwahardd o Aberystwyth am flynyddoedd maith, er mai chwedl oedd hynny fwy na thebyg. I fi, nonsens oedd gwrthwynebu'r ffilm, ond mae'r stori'n dangos pa mor sensitif ydi rhai Cristnogion hefyd.

Wrth gwrs, mae yna fyd o wahaniaeth rhwng cwyno am ffilm a thorri i mewn i swyddfeydd a saethu 12 o bobol. Does dim modd cyfiawnhau hynny, beth bynnag ydi'r amgylchiadau, ond dyna sut y mae ofn, dicter, gwleidyddiaeth a phob math o ffactorau eraill yn gallu troi ffundamentalïaeth grefyddol yn drais.

Efallai na fyddai neb yn lladd tros gartŵn o Grist ond fe fyddai llawer iawn o bobol yn teimlo'n wirioneddol grac petai'n cael ei ddangos mewn ffordd ych-a-fi fel yr oedd y cartwnau o Mohamed a phetaen nhw'n teimlo o dan bwysau, mewn gwlad ddieithr, pwy a wŷr?

A dyna lle mae sefyllfa yn dod i mewn iddi. Petai Clonc yn cyhoeddi cartŵn yn gwawdio siaradwyr Cymraeg croenwyn yr ardal yma, beth fydddech chi'n ei ddweud? Bod y golygydd bach yn wirion ond sdim eisie poeni - mae darllenwyr y papur bro'n gwybod yn well?

Ond tybed beth petai rhywun eisie cyhoeddi cartŵn yn gwawdio Saeson mewn ffordd wirioneddol gas? Fydddech chi'n dweud, gwell peidio rhag creu drwgdeimlad neu a fydddech chi am gyhoeddi doed a ddêl?

A fyddai hi'n gwneud gwahaniaeth eich bod chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r cartŵn? Efallai eich bod chi'n meddwl bod y cartŵn yn annheg at bobol o Loegr ... a ddylech chi gyhoeddi beth bynnag, er mwyn rhyddid barn?

Ond dowch yn ôl at y Mwslemiaid. Beth fyddai ystyr cartŵn yn Clonc yn ymosod ar Fwslemiaid? Gan mai Cristnogaeth - yn swyddogol beth bynnag - ydi crefydd yr ardaloedd yma, allech chi ddim dweud bod cartŵn o'r fath yn herio'r drefn. Yn hytrach, fe fyddai'n pigo ar leiafrif.

A beth fyddai effaith cartŵn o'r fath ... ei gwneud hi'n haws i bobol fod yn gas, nid at gymeriad cartŵn, ond at bobol o gig a gwaed?

O fewn dyddiau i'r ymosodiad ym Mharis, roedd yna straeon yn yr ardal fod goleuadau wedi cael eu gweld unwaith eto yn y ganolfan Fwslemaidd yn Highmead. Yr awgrym oedd fod rhywbeth rhyfedd yn digwydd.

Dwn i ddim a oedd y goleuadau'n newydd ai peidio ond mi drawodd fi fod esboniad arall yn llawer mwy tebygol - fod y perchnogion, oherwydd teimladau'r cyfnod, yn ofni y byddai rhywun yn ymosod ar y lle pe bai mewn tywyllwch llwyr. Ofn, nid casineb.

Felly, dyma'r cwestiwn: beth fasech chi'n ei wneud petaech chi'n olygydd Clonc?

Seion

Yr oedd hi'n ddiwrnod hanesyddol ddydd Sadwrn olaf mis Tachwedd 2014 yng Nghapel Seion gan fod yr arwerthiant yn dathlu ei 60 oed.

Croesawyd pawb i'r festri gan y gweinidog sef y Parch. Jill Tomos a darllenwyd penillion hyfryd gan Brenda Jones a oedd yn sôn sut yr oedd yr arwerthiant wedi dechrau chwedeg mlynedd yn ôl:

Dathlu "SALE OF WORK" Seion yn 60 oed

Mae heddiw'n ddydd i ddathlu
Pen-blwydd arbennig iawn
A hyfryd yw cael gweled
Y festri'n weddol llawn
Aeth trigain o flynyddoedd
Ers dechrau'r fenter hon
A phob un fu'n llwyddiannus
Yr holl flynyddoedd bron.

Roedd eisiau ail doi'r capel
A'r arian oedd yn brin
A phedair mil oedd angen
I wneud y gwelliant hyn.
Nid oedd dim sôn am grantiau
Na help da'r Undeb chwaith
Ond diolch i bum teulu
Rodd arian at y gwaith.

Mi roesant fenthyg arian
Heb dâl am ddegawd llawn
A heddiw talu teyrnged
Am eu haelioni wnawn.
Dechreuwyd y gwelliannau
Yn weddol bach o glou
A braf oedd gweld y capel
Yn ddiddos wedi'i doi

Roedd dosbarth y chwiorydd
Yn cwrdd bob wythnos bron
A nhw a gafodd syniad
I ddechrau'r arwerthiant hon
Ar Sadwrn ola Tachwedd
Gynhaliwyd hi bob tro
A chafwyd holl gefnogaeth
Y bobol yn y fro.

Ymhen pum mlynedd wedyn
Daeth newydd da i'n rhan
Mi gliriwyd y benthyciad
Cyn bod yr amser lan.
Ond penderfynwyd wedyn
I gario mlaen â'r gwaith
A Chronfa Adeiladu
A ffurfiwyd ar unwaith.

Y Parch Wyn Vittle heddiw
Sy'n anrhydeddu ni
Drwy agor yr arwerthiant
A dathlu'i phen-blwydd hi.
Bu ef yn dra gefnogol
I'r arwerthiannau fu
Pan oedd yn fugail parchus
Ar ein heglwysi ni.

Dechreuwyd drwy godi arian i ail doi'r capel yn y pumdegau. Dosbarth y chwiorydd a gafodd y syniad i sefydlu'r arwerthiant sy'n cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn olaf mis Tachwedd bob blwyddyn.

Y gŵr gwadd eleni oedd ein cyn weinidog, y Parch Wynn Vittle, ac ef fu yn agor yr arwerthiant ac yn torri'r gacen gydag un o'r llywyddion cyntaf, sef Mrs Mair Davies, Cribyn. Roedd y gacen flasus yn rhoddedig gan Mrs Kate Davies, Tynfron. Daeth tyrfa fawr ynghyd i'r arwerthiant a braf oedd gweld llawer o'r cyn-lywyddion yn bresennol.

Ni fu'r byrddau yn hir cyn cael eu clirio ac i ddilyn fe gafodd pawb baned o de, bara menyn, caws a bynen yn ôl y traddodiad chwedeg mlynedd yn ôl.

Tynnwyd y raffl a diolchodd y Parch. Jill Tomos am yr holl gefnogaeth dros y blynyddoedd gan mai hwn oedd yr arwerthiant olaf yn hanes Capel Seion.

Roedd bwrdd ar ben y llwyfan
A phawb yn brysur iawn
Yn torri bara yn ddi stop
A llenwi'r platiau'n llawn
Roedd gwledd o fara menyn
A chaws a sgons a the
A chacen blaen neu ffrwythau
Y gorau yn y lle.

Roedd nifer o stondinau
Yn gwerthu popeth bron
A chynnyrch y class gwinio
Yn llanw stondin gron.
Roedd raffl dda bob blwyddyn
A gwobrau weddol hael
Ac unwaith pâr o fantams
A thwrci werth ei gael.

Mrs. Jenkins Blaenwaunganol
Agorodd y gyntaf un
A hithau'n falch o'r cyfle
Gael gwneud y gwaith ei hun.
Ein gweinidog Iorwerth Davies
Wnaeth ei chyflwyno hi
A hithau wnaeth ddymunio
Lwc dda a hwyl i ni.

Cynhaliwyd ambell gyngerdd
I chwyddo'r coffrau lan
Daeth Bois y Blacbord unwaith
A hwythau Côr Cwman.
A Bois Stags Head ddaeth wedyn
I'n swyno gyda'u cân
A phob un eitem arall
Berfformiwyd gyda gran.

A phen-blwydd hapus eto
I'n Sale Of Work fach ni
Edrychwn nôl da balchder
Ar yr amser da a fu.
Pob lwc i'r diwrnod heddiw
Gobeithio gwnewch fwynhau
A bydded i'r cydweithio
Eto i barhau.

80 oed

Yn ystod mis Ionawr, dathlodd Mrs Kate Davies, Tynfron ei phen-blwydd yn 80 oed.

Ysgol Cwrtnewydd

Braf yw croesawu pedwar disgybl newydd i'r ysgol y tymor yma. Mae Mari Rees, Ela Rees, Esyllt Jones a Sapphira Gibbons wedi dechrau yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio y byddwch yn hapus gyda ni.

Aeth tîm pêl rwyd o'r ysgol i gystadlu mewn cystadleuaeth gyda'r Urdd yn y Ganolfan Hamdden yn Llambled. Cafwyd prynhawn da a phawb wedi mwynhau cymryd rhan.



Gan mai ffermio yw thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor hwn, daeth Mr Lyn Rees, Fferm Tanrhos i siarad gyda nhw am hen arferion ffermio gan gymharu ddod â heddiw. Cafwyd prynhawn buddiol tu hwnt ac roedd y plant yn awchus iawn gyda'u cwestiynau. Daeth â hadau porfa gydag ef er mwyn cynorthwyo'r plant gydag ymholiad gwyddonol. Diolch yn fawr iawn iddo am roi o'i amser i ddod i'r ysgol ac am rannu ei brofiadau â ni.

Mae blwyddyn yn hedfan ac fe ddaeth yr amser i gystadleuaeth Cogurdd yr Urdd unwaith yn rhagor. Roedd dwsin o blant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y rownd gyntaf yn yr ysgol ac roedd pawb wedi mynd ati o ddifri! Salad ffrwythau oedd angen iddynt ei baratoi ac roedd hi'n werth gweld gwaith pob cystadleuydd. Nia Morgans ddaeth i'r brig eleni, gyda Carwyn Davies a Lois Jones yn rhannu'r ail safle a Lisa Jenkins yn cipio'r drydedd wob. Llongyfarchiadau calonnog i'r pedwar ohonoch a phob lwc i Nia yn yr ail rownd.

Mae'r Cylch Ti a Fi wedi newid eu hamser. Bellach maen nhw'n cwrdd ar fore dydd Mawrth. Felly, croeso cynnes i bawb sydd am ymuno â ni.

Cafwyd Gwasanaeth Carolau llwyddiannus iawn gyda'r neuadd yn orlawn. Braf oedd gweld Rhian Jones o Banc Barclays yn bresennol ac yn ein cynorthwyo gan gyfrannu punt am bunt i goffrau'r Ysgol. Diolch iddi am bopeth.

Croeso

Croeso i Sophie, Robert a'r merched i Rif 3, Yr Hen Ysgol o Bencader. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

90 oed

Ddechrau mis Chwefror dathlodd Walter Harries, Clarence House ei ben-blwydd yn 90 oed. Iechyd da i chi Walter ac ymlaen am y 100 nawr.



Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Cefn Hafod Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen

Croeso cynnes i bawb!

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwŷinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llanbed.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHIWR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbed**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cwmann

Cofio Gerwyn Morgan

Yn Gerwyn Morgan collwyd un o gymeriadau cefn gwlad. Yn anffodus daeth dyddiau daearol Gerwyn i ben yn sydyn noswyl Nadolig 2014. Yn werinwr diwylliedig, roedd e'n ŵr hynaws, caredig a hael ac yn barod ei gymwynas i bawb oedd yn ei adnabod.

Fe'i ganwyd yn 1937 a threuliodd ei fachgendod ar aelwyd Gristnogol Fferm Trebannau, Porthyrhyd, yn unig fab Eleanor a Tom Morgan. Pan fu ei fam farw yn 1967, symudodd ef a'i dad i Fferm Trebannau, Cellan. Yno y buont yn ffermio gan fynychu Capel Soar, Llanbed. Yn 1971 daeth efengylwr i Geredigion a chafodd wahoddiad i bregethu yn Soar. Y noson honno achubwyd 39, a Gerwyn yn eu plith.

Trwy gydol ei fywyd bu'n ffermwr cymeradwy. Yn 1972 bu farw ei dad. Wrth ffermio ar ei ben ei hun derbyniodd garedigrwydd oddi wrth gymdogion. Ystyriai ei lafur yn fodd i ariannu ei weinidogaeth a bu'n helpu ar ffermydd yn ddi-dâl, hyd yn oed wedi iddo ymddeol i Heol Hathren ddegawd yn ôl. Yn gyn aelod o Glwb Ffermwyr Cymru Cil-y-cwm, roedd yn hoff o dwmpath dawns, ac yn cyfrannu at eisteddfodau a sioeau drwy bennill neu englyn. Yn ogystal, roedd e'n mwynhau cerdded gyda Chymdeithas Edward Llwyd ar ddydd Sadwrn.

Pleser pennaf ei fywyd fu dweud am yr Arglwydd a cherdded gydag e. Fe fuodd yn gymwynaswr da i gapeli siroedd gorllewin Cymru, ac roedd yn hoff o siarad a chymdeithasu gyda phobol. Yn anterth ei ddyddiau fel pregethwr, gwasanaethodd mewn 70 o gapeli a llawer o'r gwaith eto'n ddi-dâl.

Yn dilyn ei farwolaeth noswyl Nadolig daeth tyrfaf enfawr ynghyd i'r angladd ar 6 Ionawr 2015 yng nghapel Tabernacl, Llanymddyfri. Y Parchg. David Patterson oedd yng ngofal y gwasanaeth, cymerwyd at y rhannau arweiniol gan John Jones, Gareth Jones a Clyde Briggs a chyflwynwyd teyrnged gan Aled Lewis. Wedi'r oedfa gosodwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Crofft Llanymddyfri.

Mae'r adnod a'r daflen goffa yn dweud y cyfan "Oherwydd dewisiais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist ac yntau wedi ei groeshoelio".

Boed i'r atgofion amdano fod yn felys.

**Teyrnged i'r Pregethwr
Cynorthwyol, Gerwyn Morgan,
Cwmann.**

Ddechrau mis Ionawr, hunodd Gerwyn Morgan, Cwmann, un a fu'n gwasanaethu'r Arglwydd mewn naw deg a mwy o gapeli ac eglwysi, gan gynnwys nifer yn y parthau yma.

Diolch am ei ffyddlondeb a'i gariad. Trebannau, Cellan, oedd ei gartref lle bu ef a'i rieni'n ffermio cyn ymddeol i Gwmann. Er cof annwyl amdano, wele emyn:

TREBANNAU

O, bu dagrau, O, bu llewyrch,
Drwy y goeden fythwydd hon;
Fe adawodd etifeddiaeth:
Crist i Gymru dan y fron.

Dim ond nepell o Dregaron
Lle bu'r sant yn plannu ffydd;
Cellan ac ardaloedd Llanbed,
Credant hwy yn fawr un dydd.

Diolch Arglwydd am wasanaeth
Un fu'n dilyn Crist Ein Pen;
Yn ei wên dangosodd gariad
Ddaeth i'w ganlyn ef i'r nen.

Gerald Morgan, Tregaron
2ail Ionawr, 2015

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ennill gradd Meistr (MA) yn Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched

Nos Lun Rhagfyr 1af cynhaliwyd noson agored yn y Ganolfan pan ddaeth aelodau o ganghennau Cellan, Llanbed, Llanfair, Llanybydder a Phumsaint atom. Croesawodd y Llywydd, Noeleen Davies, bawb i'r noson. Ein siaradwraig oedd Pat Llewelyn o Trap, Llandeilo sy'n arbenigo mewn trefnu blodau ac yn feirniad proffesiynol. Dangosodd nifer o drefniadau Nadoligaidd gan gynnwys un arbennig iawn o'r tri gŵr doeth. Diolchodd Gwynfil iddi am roi noson mor bleserus a diddorol i bawb. Dymunodd Noeleen wellhad buan i Avril Williams a diolchodd i'r rhai oedd wedi paratoi'r lluniaeth. Enillwyd y Raffl gan Ann Astington (Pumsaint), Mair Caradog (Llanbed), Rene Jones (Llanybydder), a Mary Davies a Gwynfil Griffiths (Cwmann). Nos Lun y 5ed o Ionawr croesawodd y Llywydd, Noeleen Davies, bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn gan ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb. Gŵr gwadd y noson oedd Richard Jones, cigydd yn Dunbia, Llanybydder. Daeth ag oen cyfan gydag e i ddangos y grefft o dorri cig. Eglurodd sut mae pobl heddiw eisiau cig heb fraster sy'n coginio yn hawdd. Estynnodd Bethan ddiolch i Richard am noson ddiddorol iawn. Diolch i Morfudd a Bethan am weini'r te. Enillydd y raffl oedd Gwyneth Mogan.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jones, Araul am basio Gradd 3 ar y piano

gydag anrhydedd dan nawdd y London College of Music. Cafodd Elan farciau llawn yn un o'r darnau. Camp yn wir. Da iawn ti.

Cydymdeimlo

Tristwch mawr oedd clywed nos Nadolig am farwolaeth Lynda Douglas, Pencader ym mlodau ei dyddiau. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i meibion a'i mam, Mrs Margaret Jones, Delia, Geoff a'u teuluoedd a Kay Douglas, Heol Hathren a'r teulu ar golli merch yng nghyfraith, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl - colled enfawr.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Rhys Jones, Tanybryn ar farwolaeth ei frawd, David Jones yng nghartref Blaendyffryn yn ystod mis Rhagfyr ac ag unrhyw deulu arall sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Da deall fod Avril Williams, Y Fedw yn gwella yn dilyn anffawd a gafodd a thorri ei braich. Dymunwn wellhad buan hefyd i bawb sydd wedi bod yn anhwylyd dros yr wythnosau diwethaf.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Bethan a Gwyn Lewis, Heol Hathren ar enedigaeth eu hwyres fach Lowri, merch i Louise a Dylan a chwaer fach i Betsan. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Priodas Dda

Nos Galan priododd Gemma Hope, Post Gwyn a Trystan Potter o Gwmsychpant. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cylch Meithrin Coedmor



Thema tymor y Gwanwyn yw Tylwyth Teg. Dyma rai o'r plant yn mwynhau yn y dosbarth sydd wedi ei addurno fel gwlad hud a lledrith y Tylwyth Teg.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Helena Gregson, Werna ben-blwydd arbennig yn ystod y

dyddiau diwethaf. Gobeithio i ti fyw'n iau y diwrnod.

Ffliwt

Llongyfarchiadau i Undeg Medi Jones, Ysgol Carreg Hirfaen sydd wedi pasio Gradd 2 ar y ffliwt gydag anrhydedd. Da iawn ti a dal ati.

Diolch

Dymuna Helena Gregson, Werna ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

Eglwys Sant Iago

Roedd Eglwys Sant Iago yn orlawn nos Sul, 7fed Rhagfyr pryd y cynhaliwyd y cyngerdd Nadolig blynyddol. Croesawodd yr Hybarch Ddr. William Strange bawb i'r eglwys a'r cyngerdd. Eleni ein hartistiaid oedd 'Côr Seingar' o ardal Caerfyrddin dan arweiniad dawnus Mrs Nicky Roderick. Cawsom noson fendigedig yn eu cwmni gydag eitemau o safon uchel a graenus gan y côr ac unawdwy'r côr yn cymryd rhan. Roedd pawb wedi cael eu gwefreiddio gan yr eitemau i gyd.

Heulyn Roderick fu yn cyflwyno eitemau'r côr.

Cafwyd datganiad swynol a medrus iawn gan Helen Williams ar y ffidil; roedd yn cyfleu naws bendithiol a Nadoligaidd. Yn cyfeilio iddi roedd Mrs Ceinwen Evans.

Ein hunawdydd oedd Elan Jones. Cafwyd ganddi ddatganiadau hyfryd ynghyd ag adroddiad. Mae Elan yn llwyddiannus iawn yn yr eisteddfodau lleol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn cyfeilio iddi roedd Miss Eirian Jones.

Rhoddodd Mrs Mair Richards adroddiad teimladwy, ystyrlon iawn o'r darn 'Yr Hen Bobl' a gwnaed adroddiad Saesneg pwrpasol iawn gan Mrs Dinny Hardy. Yn ystod y cyngerdd bu'r gynulleidfa yn ymuno i ganu ambell garol. Wrth yr organ roedd Mrs Ceinwen Evans.

Croesawodd y ficer lywydd y noson sef y Parchedig Ganon William Richards o Beniel. Cafwyd neges bwrpasol, feddylgar yn llawn hiwmor ganddo am ei atgofion yn yr eglwys fach a'r ardal sy'n agos iawn i'w galon.

Diolchodd y ficer iddo yn gynnes iawn am eiriau pwrpasol ac am ei rodd hael at yr achos. Yna, cyflwynwyd basged o nwyddau Nadoligaidd iddo.

Diolchodd y ficer i'r artistiaid i gyd ac i bawb am eu presenoldeb yn cefnogi'r noson ac i'r gwagedd fu yn addurno'r eglwys mor dymhorol.

Bu cymdeithasu hyfryd ar ôl y cyngerdd. Roedd yn noson hwylus a llwyddiannus dros ben a gwnaed elw sylweddol tuag at yr eglwys ac Adran Oncoleg, Ysbyty Glangwili.

Diolch eto i bawb a fu yn paratoi ac a gyfrannodd mewn unrhyw

ffordd tuag at lwyddiant y noson.

Y Plygain

Aeth parti o Eglwys Sant Iago i ganu yng ngwasanaeth Plygain y Ddeoniaeth yn Eglwys Llanllwni brynhawn Sul, Rhagfyr 4ydd dan arweiniad y Parchedig Suzie Bale.

Roedd yr Eglwys yn llawn a bu pedwar côr yn canu yr hen garolau ar ôl gwasanaeth yr hwyrol weddi.

Yna, bu yr eglwys i gyd yn cymdeithasu a mwynhau'r wledd oedd wedi ei pharatoi ar ein cyfer.

C.Ff.I. Cwmann

Mae wedi bod yn ddau fis prysur ers i chi glywed wrthon ni ddiwethaf. Dechrau mis Rhagfyr aeth llond bws ohonom i sgelfrio ia yn Abertawe. Cawsom hwyl a sbri wrth ganolbwyntio er mwyn aros ar ein traed.

Canu carolau oedd y digwyddiad nesaf â'r aelodau'n wynebu'r gwynt a'r glaw wrth gasglu £422.77 at ymchwil Motor Neuron. Diolchwn i Meleri Jones, llywydd y clwb, a'i theulu am gynnig lluniaeth i ni i gyd yn Y Pantri.

Fe aeth aelodau hŷn y clwb i Ddawns Nadolig y sir yn Abertawe; fi'n siŵr bod sawl pen tost y bore wedyn.

Parti Nadolig y clwb oedd 'mllan rhwng Nadolig a'r flwyddyn newydd yng Nghefn Hafod - cyfle i bawb ymlacio gyda bwyd blasus a chwies gan ferched hŷn y clwb. Diolch i Geraint ac Eiddwen Hatcher am y croeso cynnes.

Nosweth yn y ganolfan hamdden gawsom yng nghlwb cynta'r flwyddyn a siawns da i bawb losgi'r holl galoriau a'r gorwneud dros yr ŵyl.

Ein llywydd oedd yng ngofal y clwb ar nosweth y seiat holi gyda'r aelodau'n holi cwestiynau a oedd yn hala'r panel i bendroni am atebion.

Yr wythnos ganlynol fe ddaeth Kevin Douch atom i roi gwers ar grefft ymladd i ni. Noson gorfforol oedd hon gyda phawb yn fyr eu hanadl erbyn y diwedd.

Clwb 225 - Mis Tachwedd

1. Aled Evans, Hafod-y-Gân, Cwmann, 129. 2. Eirian James, Mark Lane, Llambled, 5. 3. Mair Williams, 1 Railway Terrace, Cwmann 216. 4. Ceinwen Russell, Coedeiddig Fawr, Cwmann, 24. 5. Eirian Jones, Hollis, Llambled, 174. 6. Emyr Jones, Hollis, Llambled, 147. 7. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Llambled, 1. 8. Meinir a Dyfed Evans, d/o Ffosyffin, Cellan. 9. Edwin Harries, 8 Nantglyn, Cwmann, 27. 10. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann.

Clwb 225 - Mis Rhagfyr

1. Eirios Jones, Felindre, 212. 2. Ryan a Gabriel Davies, Delfan, 107. 3. Bryn Gregson, Werna, Cwmann,



Mewn cyfarfod yn ddiweddar derbyniodd Pwyllgor Pentref Cwmann ddiffibrilwr gan Gangen Llanybydder a Llambled o Sefydliad Prydeinig y Galon.

Yn y llun mae: Eirwyn Williams, Dilys Godfrey, Ronnie Roberts, Eifion Davies, Eric Williams, Danny Davies, Eiddig Jones, Dave Smith, Ann Davies, John Harries Jones a Jennie Bracher o Sefydliad Prydeinig y Galon.



Rhesi o aelodau Côr Corisma yn mwynhau ychydig o Gelf a Chreffit ar eu taith ddigrl flynyddol yn ddiweddar. Aethpwyd i Peapod Junction Synod Inn, Gwinllan Llaethliw a'r Hive yn Aberaeron.

115. 4. Muriel Davies, 2 Nantglyn, Cwmann, 86. 5. Sian Jones, Bryndolau, Cwmann 16. 6. Helen Randell, Maes Hendre, Cwmann, 149. 7. Myfanwy Davies, Ty Capel, Parc-y-rhos, Cwmann, 130. 8. Helena Gregson, Werna, Cwmann, 76. 9. Eurig Davies, Manglas, Parc-y-rhos, Cwmann, 81. 10. Simon Jones, d/o 18 Heol Hathren, Cwmann, 106.

Clwb 225 - Mis Ionawr

1. Eifion Davies, Four Winds, Cwmann, 35. 2. Mr & Mrs Templeton, Bryngolau, Cwmann, 223. 3. John Davies, Y Ddôl, Cwmann, 99. 4. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Llambled, 1. 5. Meinir a Dyfed Evans, d/o Ffosyffin, Cellan, 97. 6. Dylan a Carys Davies, 8 Cysgod y Coed, Cwmann, 39. 7. Margaret Davies Jones, Glanhelen, Llambled, 102. 8. Mr & Mrs D. Jones, Cherry Pines, Cwmann, 122. 9. Alan Morgan, Haulfryn, Cwmann, 19. 10. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 61.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Mis Rhagfyr

1. Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 126. 2. Christopher Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 88. 3. Mr Edwin Harries, Nantglyn, Cwmann, 23. 4. H. Reikert, 2 Cysgod y Coed, Cwmann, 78. 5. Graham Evans, Felinfach, Cwmann, 36. 6. Steven Palmer, Gables, Cwmann, 124. 7. Elizabeth Warmington, Falkland, Llambled, 85. 8. Mr & Mrs Brenand, Pantunos, Cellan, 101. 9. Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42.

Mis Ionawr

1. Mattie Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70. 2. Emyr Jones, Teify Forge, Cwmann, 40. 3. Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 45. 4. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79. 5. Rhian Harries, Llaindelyn, Cellan, 117. 6. Audrey Bonnet, Heol-y-Bont, Llambled, 6. 7. Eleanor Davies, Pleasant View, Heol Llanfair, Llambled, 12. 8. Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 123. 9. Muriel Davies, 2 Nantglyn, Cwmann, 93.

Llanybydder

Diolch

Dymuna Mair, Tawelan ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri Thomas, Llys Neuadd ar ennill gradd anrhydeddus Cymdeithas y Gofaint yn ddiweddar. Pob lwc gyda'r gwaith a dymuniadau gorau i'r dyfodol a gyda'r gwaith yn y Trallwng.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar drothwy'r Nadolig, bu'r côr yn cymryd rhan mewn gwasanaeth yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder i ddathlu'r Wyl. Canwyd nifer o garolau traddodiadol a chyfoes a chafwyd darlenniadau yn sôn am Wyl y Geni gan ddwy o aelodau'r côr. Hefyd, cafwyd eitemau gan blant ysgol gynradd Llanllwni, ysgol Sul yr Eglwys ac ysgol Sul Rhydybont. Roedd yr eglwys yn gyfforddus lawn a chafwyd gwasanaeth yn llawn naws y Nadolig. Aeth elw'r noson tuag at achos teilwng iawn sef Cronfa Nyrsys Macmillan. Yna, noswyl y Nadolig, bu rhai o aelodau'r côr yn diddanu gwesteion Gwesty'r Falcondale drwy canu carolau o amgylch y piano. Disgwyliwn ymlaen at flwyddyn arall o ganu! Blwyddyn Newydd Dda.

Apêl Bandi

Dydd Sadwrn 7ed Mawrth am 2 yp yn Ffestri Aberduar, Llanybydder bydd Te Prynhawn a Ffair i godi arian a lledu gwybodaeth am Apêl Bandi i godi canolfan newydd i blant yn Ysbyty Glangwili. Rhoddion wrth y drws. Bydd anrhegion ar werth ar gyfer Sul y Mamau. Hefyd, te, coffi a chacennau.

Capel Aberduar

Cynhaliwyd oedfa hyfryd yng nghapel Aberduar ar gyfer y Nadolig ar yr 21ain o Ragfyr. Yn cymryd rhan roedd nifer o fobl ifanc yr eglwys. Cyflwynwyd y croeso a'r weddi agoriadol gan Cerys Lloyd. Bu Lowri Wilson yn cyflwyno'r hanes yn yr hen Destament sy'n sôn am ddyfodiad y baban Iesu. Cyflwynwyd yr emynau gan Gareth Williams, Rhydian Davies, Bleddyn Jones a Llyr Davies. Cafwyd darlenniadau a chyflwyniadau gan Rhydian, Bleddyn, Llyr ynghyd ag Arwel Jenkins a Hedydd Wilson yn sôn am y Nadolig cyntaf. Bu Elin Evans yn adrodd stori am y bocsgidie gwag ac am gariad merch at ei thad, a soniwyd am gyfraniad yr asyn at stori'r Nadolig gan Lowri Wilson. Yn cyfeilio roedd Brenda Jones, Cwrtnewydd. Yn ystod y gwasanaeth canwyd carol hyfryd gan Emlyn Davies. Yn dilyn cafwyd anerchiad gan ein gweinidog, y

Parch. Jill Tomos a wnaeth hefyd ddiolch i bawb. Diweddwyd yr oedfa gyda gweddi gan Cerys Lloyd; hi hefyd wnaeth gyflwyno'r emyn olaf. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies, Glynteg. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi am y festri am baned a sgwrs wedi eu paratoi gan y chwiorydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig cafwyd oedfa hyfryd iawn dan arweiniad ein gweinidog, y Parch. Jill Tomos. Cyhoeddwyd yr emynau gan Alan Jacob ac Arwel Jenkins gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd neges arbennig gan y Parch. Jill Tomos. Carwn ddmuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

Eglwys San Pedr

Gwasanaethau'r Nadolig
Nos Sul, 14eg o Ragfyr: Cyngerdd Côr y Merched, gyda'u harweinydd Mrs Elonwy Davies. Codwyd arian er lles Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i'r Côr am gyngerdd o safon uchel.

Dydd Sul, 21ain Rhagfyr:
Disgyblion yr Ysgol Sul wedi perfformio Stori'r Geni. Roedd yn bleser gwrandao arnynt. Diolch i Kay ac eraill am eu hyfforddi.

Noswyl y Nadolig, 24ain: Roedd 18 o bobl yn bresennol i nodi'r achlysur.

Llongyfarchiadau i Lyn ac Avril Jones ar enedigaeth eu hwyres yn ddiweddar, sef merch fach i'w mab Clive a'i wraig.

Gwasanaeth y Gair
Cynhaliwyd Gwasanaeth y Gair ddydd Sul 18fed o Ionawr a'r thema'n cwmpasu Gwneud Addunedau gan ein bod wedi dechrau blwyddyn newydd. Yn eu plith roedd:

Eleni byddaf yn bwyta'n iach.
Eleni byddaf yn gwneud ymdrech i ymarfer yn gyson.
Eleni rwy'n bwriadu darllen y

Beibl o glawr i glawr.

Cyfeiriwyd at arferion da a drwg a soniwyd ein bod yn datblygu arferion drwy ail adrodd gweithgaredd. Yn ôl yr arbenigwyr, mae angen cyfnod o 21 diwrnod i ddatblygu arfer da neu i dorri arfer gwael.

Anogwyd y gynulleidfa i geisio datblygu un arfer da yr un.

Trafodwyd nifer o bethe, er enghraifft, torri'r arfer o ysmegu; colli pwysau; ymarfer corff; peidio â siarad yn ddrwg am eraill; cnoi ewinedd; gwylio gormod o'r teledu; treulio gormod o amser yn tecstio; bod yn hwyr yn cyrraedd digwyddiadau.

Un arfer da y soniwyd amdano oedd y sialens 30/30, sef treulio 30 munud y dydd am 30 diwrnod yng nghwmni Ein Harglwydd a darllen Y Beibl, gweddio neu wrando ar emynau. Os hoffech gymryd rhan yn y sialens, gellir ei lawr-lwytho o'r safle joycemeyer.org/biblestudy.

I gloi, dywedwyd bod bob dydd yn gyfle newydd i ail-ddechrau ac i beidio byth â rhoi'r ffidil yn y to!

Yn ôl y Salmydd 118: 24

Dyma'r dydd y gweithredodd yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenhawn ynddo.

Cynhelir Gwasanaeth y Gair nesaf ddydd Sul 15fed Chwefror am 11am Croeso cynnes i bawb.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n teimlo'n anhwylyd ac sy'n aelod o'r Eglwys.

Cerdd

Llongyfarchiadau i'r merched canlynol am lwyddo yn eu harholiadau piano dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Gradd 1 gyda theilyngdod – Carys Davies, Coed y Llyn, Pencarreg.
Gradd 6 – Elin Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychbant a Gradd 6 gyda theilyngdod Betsan Jones, High View, Llanllwni. Da iawn chi.



Diadell orau

Llongyfarchiadau i Huw a Bronwen Evans, Glantrenfach, Llanybydder am dderbyn y cwpan am y ddiadell orau yng Nghymru gyda'u defaid pur Charolais am yr ail flwyddyn yn olynol.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanbedr Pont Steffan

Brondeifi



Wel, fe ddaeth ac fe aeth Sul olaf 2014 ond yn sicr ni fydd pethau yr un fath byth eto ym Mrondeifi i ni yr aelodau cyfredol, boed yn ieuencid, yn ganol oed neu'n hŷn ers clywed gan y Parch. Goronwy Evans yn gynharach yn y flwyddyn am ei fwriad i ymddeol. Ac fe ddaeth y diwrnod tyngedfennol.

Gyda'r fflam wedi ei chynnu, y goeden Nadolig yn disgleirio a nodau peraid ym yr organ yn gefndir, trodd y teulu, yr aelodau, y cyfeillion a chydnabod fewn i'r capel i ddangos parch ac i ddiolch am 50 mlynedd o wasanaeth clodwiw a diflino.

Hywel Roderick a gafodd yr anrhydedd o lywio'r gwasanaeth ac yn urddasol a graenus croesawodd bawb o bell ac agos i ddangos gwerthfawrogiad am wasanaeth triw a ffyddlon. Soniodd am rai o rinweddau Mr Evans, ei ddawn i gyfathrebu â phlant a'r ifanc; ei hiwmor mewn priodasau a'r diffuantrwydd mewn angladdau a chyfeiriodd ato fel craig ymhob achlysur. Aeth ymlaen i sôn am ei ddylanwadau a'i wasanaeth tu allan i'r weinidogaeth fel cyd-sylfaenydd ac Ysgrifennydd Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen; Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1984 ac Eisteddfod yr Urdd yn 1999. Sefydlodd Clwb Cinio Llanbedr ac mae'n awdur toreithiog, eisoes wedi cyhoeddi naw o gyfrolau.

Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Lleol Ymchwil y Cancr a fu'n gyfrwng i godi dros £2,000,000 ac ef a Beti ei briod fu'n gweithio fel tîm ar hyd y blynyddoedd, ac yn dal wrthi, gan godi dros £1,000,000 at Apêl Plant mewn Angen. Hwy hefyd sefydlodd Siop y Smotyn Du a chyda eu tîm o wirfoddolwyr mae'r siop yn dal yn llewyrchus heddiw.

Darllenwyd y darn 'Amser Sydd i Bopeth' gan Tanya Morgans ac offrymwyd y weddi gan Meinir Evans,

Dechreuodd y gweinidog ei anerchiad drwy ddarllen y darn

'Tŷ Heddwch yw Hwn.' Soniodd mor bwysig iddo oedd cael gorffen ei weinidogaeth yn union fel y dechreuodd, sef gyda gwasanaeth y cymun. Dywedodd am y llu ymddiheuriadau, rhy niferus i'w rhestru, a dderbyniodd ac roedd am ymddiheuro ar ran ei fab Rhidian a'i briod Louise am eu habsenoldeb anorod ac am eu dymuniadau da i'r gwasanaeth.

Wrth fynd ymlaen, cyffelybodd yr achlysur y prynhawn Sul hanesyddol yma ag Eluseus yn trosglwyddo'r fantell i Elias. Ninnau yn sefyll ar lan y ffin yn cofio am ddyddiau da'r gorffennol a'r ansicrwydd sydd o'n blaenau. Bu'n hel atgofion am gymeriadau; yn diolch am iechyd a chefnogaeth ac roedd yn ymfalchïo am yr anrhydedd o gael gwisgo'r fantell am 50 mlynedd.

Wrth fwrdd y cymun cofiodd am bawb, beth bynnag eu sefyllfa, ac yn enwedig y rhai a oedd mewn galar. Roedd colli ffrind agos arall iddo, sef Tom Davies Jones, Glanhelen, yn siom enfawr. Disgrifiodd ef fel bachgen ffein, annwyl a di-elynn a welai'r gorau ym mhawb. Cydymdeimlodd yn fawr â'i briod Margaret, ac â Sian, Heini, Phillip a Breian, y merched a'r meibion yng nghyfraith, a'r wyrion – Llywelyn, Mali, Gruffydd a Martha â'u tad-cu yn gymaint o eilun iddynt. A bore Nadolig torrodd y newyddion torcalonnus am farwolaeth Linda Douglas, mam ifanc gariadus i dri o fechgyn yn eu harddegau a merch annwyl i Margaret Jones, Penbryn. Mynegodd Mr Evans ei gydymdeimlad diffuant â'r teulu i gyd. Gorffennodd drwy ddiolch am bopeth a fu pawb iddo ef ac i Beti a'r teulu a chafodd bleser mawr wrth weld fod y gwydrau cymun wedi gorfod cael eu hail-lenwi, rhywbeth na ddigwyddodd ers llawer blwyddyn.

Ar ôl y cymundeb cymerodd y gweinidog ei sedd gyda'r teulu i fwynhau gweddill y gwasanaeth. Gyda Hywel yn dal i lywyddu'n hwylus gofynnodd i blant yr

Ysgol Sul ddod ymlaen a chafwyd cyflwyniad bywiog a chyfoes o ddiolch ganddynt – sgript o waith Gareth Morgans a'r hyfforddi gan Meinir Evans a Heini Thomas. Gorffennodd y plant drwy ddarllen darn o farddoniaeth ar y gair 'Diolch' cyn iddynt forio canu 'Diolch Mr Evans yw ein Cân.'

Talwyd teyrnged hyfryd iddo hefyd gan Aneurin Jones ac ar ran David Morgans, a fethodd â bod yn bresennol ar fyr rybudd, cyflwynodd Gareth Morgans rodd o englyn i Mr Evans o waith y Prifardd Idris Reynolds a fframiwyd gan Dan Griffiths a chyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Beti Evans gan Meinir Douglas.

Cyn troi tua'r festri am de a chymdeithasu gwahoddwyd Hefin Jones; Helen Thomas; Trefina Jones; Sioned Russell; Heini Thomas, Deffrobani gydag ymddiheuriad wrth Emily Jones, ymlaen i roi munud neu ddwy o'u hatgofion cynnar.

Roedd pob un ohonynt yn ddifyr tu hwnt a llawer o'u hatgofion ar yr un trywydd, megis triapiau Ysgol Sul, ymweliad Sion Corn, haelioni aelodau adeg Nadolig a gwyliau'r haf a diolch i'r athrawon. Ond eto roedd yna nodyn bach gwahanol yn atgofion pob un ohonynt a'r peth mwyaf cyson oedd fod pob un yn sylweddoli cymaint roedd yr Ysgol Sul a gweithgareddau'r capel wedi dylanwadu ar eu bywydau a'u gwneud yr hyn ydynt heddiw. A pha well teyrnged. A pha ffordd well i orffen y gwasanaeth cofiadwy hwn na thrwy weld Goronwy a Beti yn cyfarfod a siglo llaw â phawb wrth fynd allan o'r capel.

Diolchodd Gareth Morgans i bawb fu'n gyfrwng i wneud y gwasanaeth yn un mor arbennig, i'r organyddion – Margaret Davies a Meinir Jones; i Hywel am gydlynw'r cyfan mor fendigedig, i Heulyn am baratoi lluniau ar 'PowerPoint' ac i Delyth a'r tîm ac i bawb a gyfrannodd i sicrhau fod gwledd i bawb ar y byrddau.

80 oed

Yn ystod yr wythnosau diwethaf fe ddathlodd Alan Morgan, Llwydfedw ei ben-blwydd yn 80 oed. Gobeithio eich bod wedi joio'r diwrnod a iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

Shiloh a Soar

Ar brynghawn ddigon gaeafol, fe ddaeth tyrfa ddigon teilwng ynghyd i Festri Shiloh i fwynhau a gwerthfawrogi darlith gan yr Athro Densil Morgan ar Thomas Charles o'r Bala. Yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd y Llywydd Huw Jenkins ato fel ysgolhaig o fri. Graddiodd gyda gradd D.Phil ym Mhrifysgol Rhydychen ac y mae hefyd yn awdur nifer o gyfrolau yn ymwneud â

Diwinyddiaeth.

Brodor o Lanfihangel Abercwin ger San Clêr oedd Thomas Charles ac fe'i ganed yn 1765 i deulu amaethyddol a chafodd fagwraeth ddigon cysurus a chyfforddus. Roedd yn arweinydd naturiol ac mi benderfynodd ddilyn cwrs diwinyddol a threulio cyfnod yng Ngholeg y Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin. Cafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu yn Rhydychen ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu dylanwad Howell Harris a Daniel Rowland yn fawr ar ei fywyd. Heb os, yr Eglwys Wladol yn hytrach na'r Capel oedd bwysicaf yn ystod ei gyfnod yn Rhydychen (1775-1778).

Ar ôl bod yn guraid yn y Cotswolds mi gyfarfu â Simon Llwyd o'r Bala a thra ar ymweliad â'r dref ym Meirion cyfarfu â'i ddarpar briod, Sally Jones. Roedd y llythyron caru rhwng y ddau yn ôl pob hanes yn werth eu cofnodi! Methodist oedd Sally ac mi lwyddodd i ddylanwadu ar Thomas Charles i droi at yr Eglwys Bresbyteriaid er iddo gael cyfnod fel curad yn y Bala ac yn Llanymawddwy. Gweithiodd yn ddiwyd dros sefydlu ysgolion Sul a chydweithio yn agos gyda phobl flaengar a diwylliedig fel yr emynydd Thomas Jones Dinbych, awdur yr emyn mawr "Mi wn fod fy Mhrynwr yn Fyw" Yn 1800, sefydlodd y Feibl Gymdeithas gyda'r bwriad y byddai'r Beibl ar gael i'r genedl Gymreig. Gwyddom am yr hanes rhyfeddol am Mari Jones, y ferch ifanc o Lanfihangel-y - Pennant yn cerdded bob cam i'r Bala er mwyn cael Beibl gan Thomas Charles.

Braf oedd clywed darlith yn olrhain hanes ein hetifeddiaeth Gristnogol a hynny wedi ei gyflwyno mewn ffordd mor fywiog a diddorol. Dyna oedd byrdwn Philip Lodwig, yr Is Lywydd, wrth iddo ddiolch yn ddeheuig iawn ar ein rhan.

Fe ddaeth y cyfan i ben wrth i bawb fwynhau te Nadoligaidd a diolch eto i wragedd y ddwy Eglwys am eu haelioni arferol ac am weini wrth y byrddau.

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod Plygeiniol Nadolig Cylch Cinio Llanbedr yng Ngwesty'r Glynhebog, nos iau Rhagfyr 4ydd.

Wedi'r defodau arferol, cyflwynodd ein llywydd Y Parch John Emrys Jones ein siaradwr gwadd am y noswaith. Cyfarwydd oedd ei enw a chynnes y croeso i'r Bonheddw'r Ifor Lloyd.

Ei destun oedd "Taith Bywyd" ac olrheiniodd ei daith personol drwy gyfrwng yr hyn a ddylanwadodd fwyaf arno - CEIR, CANU, CEFFYLAU. Eithriadol ddiddorol

Llanbedr Pont Steffan

oedd yr hanes a hynod effeithiol ei arddull. Clywsom am ambell herc cyn cyrraedd llwyfan a phleser llwyddiant yn fwy fyth wedi gorchfygu'r anawsterau. A beth am hynt sefydlu'r VOLVO yn Aberaeron? Do, fe fu gofyn mentro'n ofalus cyn sicrhau llwyddiant yma hefyd. Gafaelgar iawn oedd clywed sut roedd un o'i gyndeidiau wedi defnyddio ei allu cynhenid a'i weledigaeth eithriadol trwy brynu ceffyl a oedd wedi ei ystyried yn ddi-werth gan bawb arall. Dyma ddechrau'r fridfa fyd-enwog.

Diolchwyd i'r siaradwr yn gynnes iawn gan y Bnr. Andrew Jones am ei araith a'i wasanaeth yn gyffredinol yn y gymuned Gymraeg a Chymreig.

Dyma noswaith arall hynod o hwylus yn hanes Cylch Cinio Llanbed.

Nos Iau Ionawr 8 fed, bu Ben yn Bont rhwng aelodau Cylch Cinio Llanbed a chyfrinachau Coleg y Drindod yn Rhydychen. Ie, ein siaradwr gwadd oedd y gŵr ifanc Ben Lake a chafwyd anerchiad hynod o hwylus ganddo. Fe'i cyflwynwyd gan ein llywydd fel bachgen o'r ardal sy'n mwynhau llwyddiant eithriadol a chwbl haeddiannol yn y byd academiaidd.

Clywsom araith afaelgar gan un a oedd yn agos atom ac yn amlwg yn gartrefol yn ein mysg tra'n wirioneddol alluog. Ei bwnc oedd bywyd myfyriwr yn Rhydychen a chlywsom hanesion difyr iawn. Mor wahanol i'r drefn arferol yw bywyd yn y colegau hyn. O'r cychwyn, sef y cyfweiliad cyntaf, disgwylir i'r darpar fyfyrwr ddangos medr i feddwl. Os llwyddwch i fod yn un o'r ychydig sy'n cael eu derbyn, yna disgwylir i chi ymroi'n llwyr i drefn a thraddodiadau'r Coleg, Coleg y Drindod yn yr achos yma. Nid perthyn i'r Brifysgol yr ydych ond i'ch coleg dewisol.

Clywsom gyda chryn syndod a mawr ddiddordeb am arferion a defodau arbennig y coleg hwn. O'r cychwyn, cewch eich "priodi" ag aelod arall er mwyn creu teimlad teuluol, teyrngar. Yn eich ail flwyddyn, cewch fod yn "rhieni" i'r myfyrwyr newydd. Disgwylir i chi dderbyn a dilyn defodau eich coleg heb amau a gofyn pam. Golyga hyn bod angen gwisgo'r ŵn addas ar bob achlysur, er enghraifft. Wrth gwrs mae yna was bach i edrych ar eich ôl.

Mae cystadlu brwd rhwng y gwahanol golegau - cystadlu a all fod yn elyniaethus weithiau. Dim ond ar ddau achlysur y daw'r holl golegau ynghyd - adeg y Boat Race a'r gêm rygbi yn erbyn Caergrawnt.

Pleser enfawr i ni oedd clywed y gŵr ifanc hwn yn pwysleisio ei Gymreictod. Prin yw'r cyfle i gymysgu â Chymry eraill yn y coleg ond gall gwrdd yn hawdd â Chymry yn y dref a chael canu a

chymdeithasu wrth ei fodd. Cawsom gwmni un sydd wedi ennill a haeddu ei le breintiedig trwy ymdrech a gallu cynhenid ac nid trwy fraint dylanwad nac etifeddiaeth.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Ben gan y Bnr. John Phillips gan ei fod, trwy ei fab Geraint, yn gyfarwydd â bywyd coleg yn Rhydychen.

Fel arfer, cafwyd croeso cynnes gan berchnogion y Grannell. Mwynhawyd pryd blasus iawn mewn awyrgylch croesawgar a chyfforddus. Diolch iddynt. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf yn eu cwmni. Mae bob amser yn bleser.

Yr unig dristwch oedd gorfod cofnodi marwolaeth un o'n haelodau, y cyn lywydd, Tom Davies Jones. Arhosodd yr aelodau ar eu traed mewn coffadwriaeth ac mi ddilynwyd hynny â gweddi ddwys gan y llywydd.

Plygain cynta'r flwyddyn

Nos Lun, 1 Rhagfyr, cynhaliwyd ein gwasanaeth Plygain blynyddol yng Nghapel Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar Gampws Llambled. Gellir cynnal plygeiniau, yn ôl y traddodiad, rhwng dechrau'r Adfent a Gŵyl Fair y Canhwylau, sef o 1 Rhagfyr hyd 2 Chwefror. Gan mai ar nos Lun gyntaf mis Rhagfyr y cynhelir Plygain Llambled, a bod y nos Lun honno'n disgyn ar ddiwrnod cynta'r mis, hon oedd y Blygain gyntaf eleni drwy Gymru gyfan.

Daeth tyrfa gref ynghyd, fel sy'n arferol bellach ers rhai blynyddoedd, i wrando'r Blygain ac i gymryd rhan. Cafwyd cyfarfod bendithiol a dechrau gweddus iawn i'r tymor Plygeiniau. Arweiniwyd darn o'r Hwylol Weddi gan y Parchedig Ainsley Griffiths, Caplan Campws Caerfyrddin, a'r organyddes oedd Mrs Glynis Morris. Cymerwyd rhan gan Barti Plygain Coleg Llambled, Corisma, Delyth Morgans Phillips, Twynog Davies, Rhiannon Ifans a Trefor Pugh, Parti Cymysg Llandeilo, Parti Meibion Llandeilo, Parti'r Penrhyn, a Rhian Morgan a Heledd Cynwal. Wedi i'r dynion a fu'n cymryd rhan ganu 'Carol y Swper' croesawyd pawb i'r Hen Neuadd i fwynhau gwin cynnes a mins peis cynta'r flwyddyn.

Darlledwyd eitem am Blygain Llambled ar y Post Cyntaf, BBC Radio Cymru, y bore canlynol pan holwyd nifer o'r gynulleidfa gan Sara Gibson.

Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans o Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd a noddwyd y noson gan yr Ysgol honno a Chyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol. Yr oedd yn dda gweld Llywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones a Mrs Stephanie Jones, yn bresennol yn y Blygain yn ôl eu harfer.



Corisma yn canu yn y Plygain.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhiannon a Jenkin Jones, Fronowen ar golli brawd, Idwal Jones o Rydowen.

Cydymdeimlir yn ddwys â Rhys a Shan Bebb-Jones, Glynrhosyn ar golli efaill, sef Aled ym Mangor.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Urdd y Benywod Brondeifi

Mererid Jones, merch y siop a swyddfa'r post, Felinfach, oedd y wraig wadd ar 8fed o Ionawr. Mynychodd Mererid Ysgol Gynradd Felinfach ac Ysgol Uwchradd Aberaeron cyn mynd ymlaen i Brifysgol Aberystwyth gan ennill gradd mewn Daearyddiaeth. Mae'n gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion yn yr Adran Ailgylchu. Testun Mererid, yn syml iawn, oedd Ailgylchu.

Daeth Mererid â llawer iawn o adnoddau i ni gael eu gweld. Rydym i gyd yn adnabod y bag mawr clir ar gyfer gwastraff papur, plastig, polystyrene, PVC a llawer mwy. Ond yn anffodus roedd y rhan fwyaf ohonom yn rhoi rhai pethau anghywir yn y bag fel bagiau creision, papur wal a phapur tywod!

Ar ôl cael eu casglu gan y lori, mae'r bagiau hyn yn cael eu cludo i'r gorsafoedd yn Aberystwyth, Caerfyrddin a LAS yma yn Llanbed. Yno, holltir y bagiau ar un waith a chyda help peiriannau, magnet a thrydan mae modd gwahanu dur, alwminiwm a phlastig wrth ei gilydd gan adael yr hyn sydd ar ôl i gael ei wahanu gan ddwylo prysur y gweithwyr.

Yna, aeth Mererid ymlaen i ddangos y blychau gwyrdd, un bach i'r tŷ ac un mawr. Ar eu cyfer, gellir prynu bagiau bach gwyrdd wedi eu gwneud o 'cornstarch.' Gellir rhoi papur, papur cegin a phapur newydd yn y blychau hyn yn ogystal â gwastraff bwyd. Ar ôl casglu cynhwysion y blychau yma

cânt eu cludo i ganolfan fawr yn Rhydychen i'w prosesu. Yn ôl y llun a ddangosodd Mererid i ni, mae'r hyn sy'n cael ei greu wedyn yn edrych yn erchyll, fel rhyw fath o slwtsh ych y fi! Ond mae'n gwneud llawer o les i'w roi nôl yn y ddaear i'w ffrwythloni. Hefyd, cynhyrchir nwy a thrydan ohono.

Roeddem wedi gweld Mererid yn cario Tedi Bêr i mewn ac roedd pawb yn ceisio dyfalu beth oedd pwrpas y boi bach. Y ffaith yw fod y Cyngor yn ceisio cymell mamau i ddefnyddio cewynnau go iawn ar gyfer eu babanod gan eu bod yn well i'r baban ac i'r amgylchedd. Darperir pecyn gwerth £40 am ddim i bob mam sydd am eu defnyddio. Nid cewynnau o ddefnydd tywel yw'r rhain ond rhai meddal, cyfforddus wedi eu gwneud o fambŵ a defnyddiau eraill tebyg. O ie, beth am y Tedi Bêr? Chi wedi dyfalu'n gywir! Fe oedd y model bach fu'n gwisgo'r cewynnau!

Darperir gwasanaethu eraill gan y Cyngor hefyd. Cesglir gwastraff gardd, ond rhaid i'r unigolyn brynu sachau gwyrdd am £1.40 gan y Cyngor. Gwelir mwy am hyn ym mis Mawrth yn y papur. Darperir gwasanaeth gwaredu dodrefn, offer trydanol mawr a bach a llawer mwy am dâl rhesymol, dim ond i ni gysylltu â'r Cyngor Sir.

Rhaid cyfaddef i ni ddysgu llawer iawn am ailgylchu yng nghwmni Mererid. Diolchwyd iddi gan Jennie.

Ym mis Ionawr hefyd bu aelodau'r Urdd yn cynnal eu Cinio Blynyddol. Roedd pawb wedi mwynhau noson yng nghwmni y Parch. Goronwy Evans, ein gŵr gwadd. Ar ôl pryd o fwyd arbennig yn Y Pantri, rhoddodd ragflas o'i lyfr newydd sy'n trafod y cymeriadau diddorol oedd yn arfer crwydro'r ardal, sef y 'tramps'. Hanes doniol a theimladwy, gyda llawer o ymchwil, am y tramps ac am gymdeithas yr ardal 'ma yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Byddwn yn cwrdd nesaf ar 12fed o Chwefror. Dewch bawb i glywed ein gŵr gwadd, sef Geraint Lloyd.

Cofio Tom Davies Jones

Pan fyddai hanesyn i'w adrodd byddai Tom yn troi at Gapel Llwynrhadowen ac at brofiad Gwilym Marles a'r gynulleidfa yno, yn cael eu troi allan, am iddynt bleidleisio yn erbyn y meistr tir yn etholiad 1868. Plannwyd yr hanes ynddo oherwydd roedd ei hen dad-cu yn un o'r gynulleidfa honno. Yr un tad-cu hefyd adeiladodd y capel newydd yn Llwynrhadowen. Geiriau Gwilym Marles ar achlysur y Troad Allan oedd "Hwy allant ddwyn y ganhwylbren, ond ni allant ddiffodd y fflam, oherwydd fflam Duw yw hi." Goleuodd y fflam yma yng nghymeriad a phersonoliaeth Tom ar hyd ei oes.

Bu ei dad y Parch Evan Gruffudd Jones yn weinidog Undodaidd Capel y Bryn a Cribyn o 1936-41. Gŵr gwylaidd, ymroddgar, didwyll. Bu farw yn 38 oed a Tom ond yn flwydd a hanner. Penderfynodd Mali Jones, Dewi Villa, ei fam fynd i'r coleg i baratoi i fod yn athrawes er mwyn i Tom gael pob cyfle mewn bywyd.

Mynychodd Tom Ysgol Capel Dewi, Ysgol Talgarreg, Ysgol Ramadeg Llandysul a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Oddi yno aeth i ddysgu yn Ysgol Uwchradd Castell Newydd Emlyn, yna i'r East End yn Llundain, ac yna nôl i Langadog. Wedyn fe'i apwyntiwyd yn Bennaeth Ysgol y Dderi, Llangybi, yr ysgol ardal gyntaf yng Nghymru. Bu'n Ymgynghorydd Addysg yn Llanelli ac Aberystwyth ac yna'n arolygydd Estyn.

Mynych y byddai Tom yn ein hannog gan ddefnyddio geiriau Dylan Thomas "...be the first to see our best side, not our worst." Dyn yn gweld y gorau ym mhawb oedd Tom. Roedd yn dwlu ar y Nadolig gyda Glanhelen yn ddrws agored i ffrindiau o bob oed. Medrai uniaethu gyda phob oedran. Fe fyddai'n arwain y carioci gyda'r gân Afonwen.

"Ar y trê'n i Afonwen, fe gollais i

fy mhen, mi roes fy nghalon iddi hi," gan bwyntio at Margaret ei briod a fu'n gefn iddo ar bob achlysur.

Yng ngeiriau Tom ei hun "Bu'r pettycoat government" sef Margaret, Siân a Heini yn dda iddo, ynghyd â'r wyrion Llewelyn, Mali, Gruffydd a Martha ac yn ei eiriau eto, "Dyma'r moddion gorau gefais." Roedd yr un peth yn wir am Phil a Brian, y ddau fab yng nghyfraith gofalus. Yn ychwanegol, bu gofalcwyr Cerecare, Nyrsys Marie Curie a'r meddygon yn arbennig yn eu gofal ohono.

"Gwyn eu byd y rhai sydd beunydd yn creu llawenydd" – un o'r rheiny oedd Tom. Dyna oedd diben ffurfio grŵp y Cwiltiaid.

Bu'n foesgar i bawb, yn wasanaethgar i'r lliaws, yn gyfaill cywir, ac yn elyn i neb. Prin iawn a gwerthfawr yw'r bobl yma mewn cymdeithas.

Y Parch Goronwy Evans

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd cyfle i glywed yr ail raglen yn y gyfres Dechrau Canu Dechrau Canmol ar nos Sul, Chwefror 15. Bydd Delyth Morgans Phillips yn cael ei chyfweld a bydd cyfle i fwynhau seiniau hyfryd Côr Merched Corisma. Twynog Davies yw arweinydd y canu gyda Eurwen Davies wrth yr organ. Bu yna ganmol mawr i lwyddiant y rhaglen gyntaf ac mae yna edrych ymlaen at y ddwy raglen sy'n dilyn ym mis Chwefror a mis Mai.

Y Gymdeithas Gerdd

Cynhelir cyngerdd gan Shelley Fairplay, y delynores enwog, yn Hen Neuadd Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbedd ddydd Sul 22ain Chwefror am 2.30yp. Bydd Shelley yn chwarae darnau gan Tchaikovsky, Beethoven, Gershwin, Flamenco a cherddoriaeth fodern. Tocynnau yn £10 a £8.50, myfyrwyr am ddim gyda cherdyn prifysgol, dau blentyn yn ddi-dâl gydag un oedolyn. Mwy o fanylion 01570 422436

cockburndavid@gmail.com

Merched y Wawr

Croesawodd Mary Davies, ein Llywydd, aelodau i'n plith o ganghennau Merched y Wawr Llanybydder a'r Dderi ynghyd ag aelodau o gymdeithasau'r dref. Yna cyflwynodd ein gâr gwadd am y noson sef Y Prifardd Tudur Dylan Jones sydd yn athro yn Ysgol Y Strade, Llanelli. Ef yw'r Meuryn ar y Talwrn yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae hefyd wedi bod yn fardd plant Cymru. Cawsom sgwrs ddifyr iawn ganddo am y llyfr pwysig sef Llyfr Du Caerfyrddin. Dywedodd mai hwn yw 'llyfr rhif un' Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Soniodd am hanesion fel Clychau Cantre'r Gwaelod, Y Brenin Arthur a straeon y Mabinogi. Cyfeiriodd hefyd at hanes Pryderi a'r cysylltiad â Rhuddlan Teifi, sef Highmead erbyn hyn. Diolchwyd i'r Prifardd gan Aerwen Griffiths a dywedodd ein bod wedi cael noson ddiddorol tu hwnt ac mai braf oedd cael dysgu a chwerthin yr un pryd.

Paratowyd lluniaeth gan rai o aelodau'r pwyllgor. Cyn i'r cwmni ymadael diolchwyd ar ran Cangen Llanybydder am y croeso gan Linda Thomas, a Mair Spate a ddiolchodd ar ran Cangen Y Dderi. Enillwyr y raffl oedd Eirwen Davies, Dorothy James ac Ann Davies. Cytunodd Gwyneth Morgan a Veronica James i ymweld â chartref preswyl Hafandeg y mis yma. Cydymdeimlodd Mary â Rhiannon Jones ar golli ei brawd. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Chwefror yn Festri Shiloh pan bydd Marye Wyville yn ein dysgu am ymarferion Yoga.

Diolch

Hoffai Gareth Morgan-Isaac (Bysiau G&M) ddiolch o galon i bawb am bob cyfarchiad a rhodd a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18!

Hefyd, hoffai Roy a Linda Heath, Pontfaen Cottage a'r teulu ddiolch o galon i bob un am eu cydymdeimlad wedi marwolaeth sydyn Mr Adrian Heath yn ddiweddar.

Dymuna Margaret, Siân a Heini, Glanhelen a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob gofal dderbyniodd Tom yn ystod ei salwch, yn benodol i Feddygfa Pedr, y gofalcwyr ffyddlon o Cerecare, staff Marie Curie, ac i Mr a Mrs Cenfyl Reeves y trefnwyr angladdau am eu gwasanaeth urddasol. Diolch i'r ffrindiau a'r teulu am bob cefnogaeth a phob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth. Gwerthfawrogi'r fawr y cyfraniadau a ddaeth i law tuag at elusen Marie Curie.

Dartiau

Mae Cynghrair Dartiau Llambled trwy ei hadnw hybu newydd 'Bishop

of Bedlam Promotions' wedi trefnu dwy nosweth yn 2015 gyda rhai o enwau mawr y gêm.

28ain o Fawrth yn Neuadd Fictoria - Cymru (Warren a Lewis) yn erbyn Lloegr (Winstanley a Bunting); 24ain o Fedi yn Neuadd Fictoria - Meistri'r Dartiau yng nghwmni Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton.

Tocynnau ar werth nawr trwy law Bedwyr Davies ar 07580 128039 neu 01570 423683.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulleidfa dda o'r aelodau i gyfarfod cyntaf 2015 gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn iddo gyflwyno siaradwr gwadd y noson, sef yr Is-Gadfridog Jonathon Riley, gynt o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Braint oedd cael cwmni ei wraig hefyd, sef Sara Edwards a fu'n cyflwyno rhaglenni a darllen y newyddion ar BBC Cymru ac mae'n Ddirprwy-Raglaw Dyfed ar hyn o bryd.

Yn ystod ei yrfa hir yn y fyddin, bu'r Is-gadfridog yn rheoli'r bataliwn ar ddyletswydd yn Bosnia, Sierra Leone, Irac ac Afghanistan, ac mae wedi derbyn medallau di-ri am ei waith a'i ddewrder yn y maes, yn cynnwys y D.S.O.

Mae wedi ysgrifennu 19 o lyfrau hanes yn ymwneud â'r fyddin ac yn darlithio yng Ngholeg Birmingham.

Testun ei ddarlith oedd Y Cadoediad dros Nadolig 1914. Ond cafwyd cefndir yr hanes a arweiniodd at ddechrau'r Rhyfel Mawr, gan gyfeirio at yr holl bethau y bu'n rhaid eu symud i'r cyfandir pan gyhoeddwyd bod Prydain yn rhan ohono: yr arfau, yr offer, ysbytai'r maes, dynion, ceffylau a.y.y.b. Cafwyd hanes torri'r ffosydd elfennol a hanes colli cenhedlaeth o wŷr ifainc.

Noswyl Nadolig 1914 yn y ffosydd ger Freilinghein roedd pob dim yn dawel. Paentiwyd sgrin â'r geiriau 'Nadolig Llawn' arno a bore'r Nadolig gwelwyd milwr Almaenig yn dod o'u ffos, gan weiddi bod pawb i beidio â saethu – doedden nhw ddim am ymladd y diwrnod hwnnw.

Er i'r gorchymyn gael ei roi nad oedd milwyr Prydain i adael y ffos, diystyrwyd hynny ac allan y daethant, gan ysgwyd llaw a chyfnwied anrhegion megis sigarennau a siocled. Bu'r milwyr yn cymharu eu teimladau a phawb wedi cael digon ar y brwydro a'r amgylchiadau o'u cwmpas a'r colli gwaed.

Chwaraewyd gêm bel-droed gyda thua 50 bob ochr a'r sgôr yn 3-2 i'r Almaenwyr. Ond buan bu'n rhaid dychwelyd i'r ffosydd pan ddaeth y cadoediad i ben a hanner nos. Digwyddodd rhywbeth tebyg adeg Nadolig 1915 ond dyna'r tro diwethaf.

Can mlynedd yn hwyrach ail-grewyd y sefyllfa yn yr union fan yn



Yn ystod Te Parti'r Maer yn Neuadd Fictoria Llambled cyrhaeddodd Alwyn Hymphreys, cyflwynydd Halen y Ddaear ar y teledu, â phlât arall a'i gyflwyno i'r Cynghorydd Dorothy Williams gan ddweud ei bod yn bleser cyflwyno Plât Halen y Ddaear i un sydd mor weithgar yn ei chymuned.

Llanbedr Pont Steffan

Freilinghein a beth oedd yn dir neb erbyn hyn yn faes pêl-droed go iawn a dau o wŷrion y milwyr oedd yno yn 1914 yn cwrdd i ysgwyd llaw. Roedd clywed yr hanes teimladwy yma yn cyffwrdd â phawb a bu cryn holi ddiwedd y noson. Diolchwyd yn gynnes i Jonathon Riley am noson arbennig iawn gan Selwyn Walters.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, Chwefror 17 yn Yr Hen Neuadd am 7.30 y.h., pan fydd Rhys Bebb Jones yn rhoi hanes ei waith yn y Llyfrgell Genedlaethol. Traddodir y ddarlith yma yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg. Croeso cynnes i bawb.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh, Amakhaya, Heol Maestir am basio Gradd 1 ar y piano gyda chlod dan nawdd y London College of Music. Cafodd Jessica farciau llawn yn y profion clust a'r theori. Da iawn ti.

Shiloh a Soar

Er gwaetha'r problemau mawr yn y diwydiant llaeth, braf oedd cael troi y cloc yn ôl a chlywed gan arbenigwr yn ei faes, sef Michael Morgan o Felinfach a oedd yn siarad am hanes y diwydiant llaeth yng Ngheredigion. Cyflwynodd Huw Jenkins, y Llywydd, ef fel person sydd wedi cyfrannu yn helaeth i'w gymuned a soniodd am ei ddiddordeb mewn gwaith Cymorth Cyntaf. Mae Michael wedi rhannu ei arbenigedd gyda nifer fawr

o fudiadau dros y blynyddoedd.

Yn un o bedwar o blant, mi ddechreuodd yn y ffatri yn Felinfach ar ôl gadael ysgol a bu yn gyfrifol am nifer o swyddi tan i'r ffatri gau yn 1988. Cyflogwyd tua 135 o bobl yn ei anterth ac yn naturiol bu yna brotestio mawr pan ddaeth y gwaith i ben yn dilyn y cwtâu llaeth. Llwyddodd Michael i gael swydd yn ffatri Llangadog lle roedd y pwyslais ar wneud pwddin reis - tua 135,000 o duniau bob dydd.

Diddorol oedd gweld drwy gyfrwng sleidiau yr hen offer a ddefnyddiwyd yn y diwydiant gan gynnwys y churns, y bwcedi llaeth a'r peiriannau gwneud caws a menyn. Diddorol hefyd oedd clywed sut roedd cynnyrch y ddwy ffatri yn cael ei ddosbarthu i wahanol rannau o'r wlad. Wrth ddiolch, cyfeiriodd John Davies Bryncastell at frwdfrydded a diddordeb arbennig ein siaradwr ac am gyflwyniad mor ddiddorol ac addysgiadol. Mae yna newid rhyfeddol wedi cymryd lle dros y blynyddoedd a thrist yw cofnodi ansicrwydd y sefyllfa bresennol.

Cinio'r Trydydd Byd.

Bydd aelodau Cymorth Cristnogol yn paratoui cinio er budd y Trydydd Byd yn Neuadd Eglwys San Pedr ddydd Gwener 6 Chwefror am 12 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ddod ynghyd i fwynhau pryd o fwyd blasus a chodi arian at achos da yr un pryd. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.



Merched Llambled yn mynd ag Olaf i gwrdd â'r plant yn Ysbyty Glangwili.



Aeth hyfforddwyr a chwaraewyr tîm rygbi Merched Llambled â llond sach o anrhegion, ac Olaf i'w dilyn, i Ward y Plant a'r Adran Ddamweiniau yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin dros wyliau'r Nadolig.



Mewn seminar yng Nghaerfyrddin ar 18 Hydref cafodd aelodau Sefydliad Prydeinig y Galon, Adran Llanybydder a Llambled eu hanrhydeddu am eu gwaith dros y mudiad. Chwith i'r dde - Aneurin Jones, 30 mlynedd; Sallie Jones, 30 mlynedd; Dave Smith, 16 mlynedd, Lucy Smith, 16 mlynedd; Ann Davies, 16 mlynedd, Jennie Bracher, 15 mlynedd a Ceinwen Evans, 16 mlynedd. (Meg Smith, 16 mlynedd - yn absennol o'r llun).



Parti piano

Cynhaliwyd parti piano llwyddiannus iawn gan ddisgyblion piano Ann Bowen Morgan yn y Gilfach ddydd Sadwrn Ionawr 10. Cafwyd datganiad o ddau ddarn gan bob disgybl a gwnaeth pawb eu gwaith yn ardderchog. Maent i'w canmol am eu datblygiad yn gerddorol o'r fenga hyd yr hynaf. Mwynhawyd danteithion gan bawb a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Rhes gefn: Lois, Lisa, Undeg a Lleucu. Rhes flaen: Eluned, Sara, Ifan, Efan a Gwenllian

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

8		6		5	
	4	2		8	
		5	3	8	4
3			1	7	
		1		9	
	7		5		2
2	3		9	5	
		8		3	9
	8		3		7

Atebion Swdocw mis Rhagfyr:

Llongyfarchiadau

i Eirlys

Thomas, Awelfa Llanybydder.

Mae Eirlys yn cystadlu'n gyson ar Swdocw

Clonc. Beth

am ymuno â

hi'r mis hwn? Rhowch gynnig arni.

7	4	3	5	2	6	1	9	8
8	9	2	7	4	1	3	5	6
1	6	5	9	8	3	7	2	4
2	3	8	1	7	4	9	6	5
9	7	1	2	6	5	4	8	3
6	5	4	8	3	9	2	7	1
4	2	6	3	9	8	5	1	7
3	1	9	6	5	7	8	4	2
5	8	7	4	1	2	6	3	9

Llanbedr Pont Steffan

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn llwyddiannus ac amrywiol yn hanes Ysgol Sul Noddfa a'r plant yn ffyddlon iawn bob nos Wener. Cymerodd yr aelodau ran mewn nifer o oedfaon yr ifanc gan dderbyn canmoliaeth uchel am eu gwaith. Cafwyd llawer o hwyl mewn oedfa bicnic yn Ysgol Bro Pedr ar brynhawn hyfryd o haf.

Pleser oedd eu clywed yn cyhoeddi'r emynau ac yn canu yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Salem Caio. Hefyd bu'r plant yn cyflwyno adloniant yn Neuadd Fictoria i aelodau'r 'Ifanc o Galon' ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arnynt.

Yn dilyn cyfnod prysur o baratoi gan yr aelodau, braf oedd gweld cynulleidfau luosog wedi dod ynghyd i Noddfa i ddathlu'r Nadolig mewn oedfa arbennig. Cafwyd cyfuniad o'r traddodiadol a'r cyfoes a'r gwisgoedd yn ychwanegu at fwynhad y gynulleidfau. Cyflwynwyd drama'r geni gan y plant ieuengaf ac ychwanegwyd at orfoledd y Nadolig trwy gyfrwng unawdau, adroddiadau, partïon canu, darlenniadau o'r Beibl a gweddiâu. Pleser oedd gweld 20 o blant a ieuencid yn cymryd rhan ynghyd â'r mamau a phawb yn gwneud eu gwaith yn rhagorol.

Pwy alwodd heibio ar ddiwedd yr oedfa ond Sion Corn gan ddosbarthu anrhegion i bawb. Hefyd, derbyniodd y plant roddion o ffrwythau gan Alun ac Eifion Williams - diolch iddynt am eu haelioni ar hyd y blynyddoedd. Daeth prynhawn bendithiol a phleserus iawn i ben gyda the parti ardderchog wedi ei drefnu a'i baratoi gan Llinos a'r mamau.

Nos Wener 9 Ionawr bu plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno adloniant i breswylwyr Cartref Hafandeg. Cafwyd amrywiaeth o eitemau safonol a roddodd bleser mawr i'r henoed. Diolchodd Cynthia

Adams i'r plant am roi o'u hamser a'u doniau arbennig i'w diddori yn Hafandeg. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu ac i fwynhau lluniaeth ysgafn.

Yn ystod y flwyddyn mae'r plant a'u teuluoedd wedi cyfrannu tuniau tuag at Fanc Bwyd Llambled.

Derbyniodd Janet anrhegion gan Osian a Sion ar ran yr Ysgol Sul i ddangos gwerthfawrogiad am ei gwaith diflino ar hyd y flwyddyn. Ymatebodd hithau gyda geiriau pwrpasol gan ddiolch yn gynnes i'r rhieni sydd mor barod i gymryd eu tro i gynorthwyo yn wythnosol ac am eu cefnogaeth bob amser a hefyd i'r plant a'r bobl ifanc am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r Ysgol Sul.

Dydd Sadwrn 17 Ionawr bu criw

o'r plant, eu rhieni ac ambell i fam-gu ar ymweliad â'r Panto yn Theatr Y Werin Aberystwyth. Yn flynyddol mae'r Panto yn derbyn adolygiadau gwyach ac nid oedd eleni yn eithriad. Bu'n brynhawn o ymlacio braf a chwerthin iach mewn cynhyrchiad bywiog, hynod o liwgar, llawn hwyl ac mor broffesiynol.

Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau yn dilyn y gwyliau ac mae'n braf croesawu aelodau newydd sef Grace a Darcey Lambert. Mae'r paratodau wedi dechrau ar gyfer gwasanaeth arbennig a gynhelir ar Sul y Mamau, sef 15 Mawrth am 5 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at gyd -weithio hapus eto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Diolch

Dymuna Alan Morgan, Llwynbedw, Rhodfa Glynhebog ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr anrhegion, y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd, dymuna Gerwyn Jones, Landre ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr am ddiwrnod i'w gofio.

Cymorth Cristnogol

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i noson arbennig o Garol, Cerdd a Chân yn Eglwys San Pedr wedi ei drefnu gan bwyllgor lleol Cymorth Cristnogol. Roedd yn noson ardderchog fel arfer, a'r cantorion a'r llefarwyr i gyd ar eu gorau gan greu naws hyfryd Nadoligaidd.

Ar hyd y blynyddoedd mae'r noson hon wedi codi dros £20,000 ac eleni ychwanegwyd y swm sylweddol o £760 tuag at yr achos.

Ar ddiwedd y noson cyflwynodd Twynog Davies rodd bersonol i Mair Richards, cyn gadeirydd, sef copi o emyn Tudor Davies 'Cofia'r newynog nefol Dad' yn werthfawrogiad am ei gwasanaeth amhrisiadwy i Gymorth Cristnogol am dros 20 mlynedd. Diolchodd hithau i bawb am eu cefnogaeth arbennig i'r achos ar hyd y blynyddoedd.

Talodd Twynog deyrnged uchel i'r artistiaid i gyd am eu cyfraniadau cyfoethog wrth ein harwain at y preseb ym Methlehem ac i Elonwy Pugh Huysmans am ei gwasanaeth clodwiw wrth yr organ a hynny ers y cychwyn cyntaf nôl ar ddiwedd y chwedegau. Diolchodd hefyd i swyddogion San Pedr am eu cydweithrediad, i Llinos am ei chymorth gyda'r cyhoeddusrwydd, i bawb am eu presenoldeb ac i Janet am drefnu'r noson.



Twynog Davies, Cadeirydd presennol Cymorth Cristnogol cangen Llambled yn cyflwyno tusw o flodau i Mrs Mair Richards, cyn gadeirydd am ei gwasanaeth di-flino dros flynyddoedd lawer i'r elusen Cymorth Cristnogol.



Twynog Davies yn cyflwyno tusw o flodau ar ran Capel Shiloh i Mrs Peggy Evans ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ddiweddar.



Mrs Eurwen Davies Gernat Heol Pontfaen Llambled yn derbyn tystysgrif oddiwrth Tenovus am ugain mlynedd o wasanaeth gwirfoddol yn siop y stryd fawr. Llongyfarchiadau calonnog iawn.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd aelodau Aelwyd yr Urdd wedi cynnal cyfarfod agoriadol y tymor i baratoi rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Am fanylion pellach cysylltwch â Geinor Medi neu Janet.

NEGES BWYSIG IAWN i'r aelodau: Os ydych am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni mae angen i'r enwau gyrraedd Janet erbyn 6 Chwefror os gwelwch yn dda. Ni fydd modd derbyn enwau hwyr.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder SA40 9RL



CELFY CEGIN A 'STAFELL WELY, ATELOGION CEGIN WEDI EU FFITIO, TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER, SGWAR Y FARCHNAD, LLANYBYDDER

01570 480257

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau (5 diwrnod)
Mae Jones Login wedi danfon taith i'r Eisteddfod Genedlaethol ers sawl blwyddyn bellach. Eleni gyda'r Eisteddfod yn Meifod, fydd y bws yn teithio trwy Chaerfyrddin, Llanbed, Dyffryn Aeron, Aberaeron, Aberystwyth a Machynlleth ar ei ffordd i Meifod.

Yn gynwysedig
Teithio mewn bws moethus, 4 Noswaith o swper, gwely a brecwast yng Ngwely Ramada Wrecsam, Teithiau dyddiol i'r Eisteddfod (Dydd Mawrth i Ddydd Gwener), Yswiriant teithio - Rhad ac am ddim.

Dyddiad	Pris
Mawrth 4 i Sadwrn 9 Awst 2015	£349.00
Atodiad ystafell sengl	£80.00

Am fwy o fanylion, neu archebiad cysylltwch â ni.
Jones Login, Hendygywyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0UX
Ffôn: 01437563277 / www.joneslogin.co.uk



"Pryd i'r pâr"

Hyfryd bod nôl yma yng ngwres 'Cegin Clonc' lle rwy'n barod i rannu blwyddyn gron o rysetiau ac ambell i 'dip' hefyd, ac mae'r achlysuron i ddathlu gyda bwyd yn parhau y mis yma.

Eleni, beth am baratoi pryd rhamantus i chwi'ch dau gartref â'r ddau ohonoch yn gweithio gyda'ch gilydd yn y gegin.

Mae'n 'Felys', yn 'Gyfoethog' ac yn 'Foethus' – hyfryd. Mwynhewch y pryd perffaith i'r pâr.

Hwyl o'r gegin.
Gareth

Gorgimwch (Prawns) gyda sinsir a leim.

Cynhwysion.

250gm o gorgimwch
Llond un llwy fwrdd o olew
Un gewyn o arlleg
Ychydig o sinsir wedi'i gratio
Croen a sudd un leim

Dull

1. Cynheswch olew mewn padell ffrio a ffriwch y garlleg a'r sinsir am tua munud.
2. I mewn â'r gorgimwch nes iddynt droi yn 'binc', yna sudd a chroen y leim a'u coginio am tua dwy funud.
3. Gweinwch gyda bara a darnau o leim.

Tartenni Asparagus

Cynhwysion.

375 gm o 'Puff Pastry'
1 wy
100 gm o asparagus wedi eu haneru
6 llond llwy fwrdd o 'creme fraiche'.
100 gm o gaws 'Perl Wen'
3 tafell o ham Caerfyrddin neu 'Parma'.

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C
2. Defnyddiwch dorwr i greu 6 chylch tua 4½ modfedd.
3. Gosodwch ar hambwrdd pobi a defnyddiwch gyllell i greu fframwaith o amgylch y cylchoedd.
4. Brwsiwch ag wy a phobwch am tua 8 munud. Gwasgwch y canol i greu gofod.
5. Coginiwch yr asparagus am tua 2 funud. Rhannwch y creme fraiche, asparagus, ham a'r caws rhyngddynt. Pobwch am 6 i 8 munud. Gweinwch gyda thato a llysiau.

Pwdin syml a blasus i'w rannu

Fondue Siocled

50 gm o siocled plaen
Llond 3 llwy fwrdd o hufen
Llond 1 llwy fwrdd o "Tia Maria".

Dull

1. Torrwch y siocled a'i roi mewn powlen gyda'r hufen a'r Tia Maria. Gosodwch dros sosban o ddŵr cynnes. Toddwch i greu y fondue.
2. Gweinwch gyda mefus a bisgedi bysedd siocled.

Gobeithio bod nifer fawr ohonoch wedi cael cyfle i weld y panto. Roedd yn sioe wych, llawn hiwmor ac yn ddechreuad arbennig i ddathliadau canmlwyddiant geni T. Llew Jones. Llongyfarchiadau enfawr i bawb oedd ynghlwm â hi – llawer gormod i'w henwi. Braf yw cael adrodd fod bron iawn, iawn i 2,000 o bobl wedi dod trwy'r drysau yn ystod y 9 perfformiad.

Mae Rhaglen Dawns yn y Gymuned Theatr Felinfach wedi bod yn brysur iawn dros fis cyntaf y flwyddyn. Mae'r sesiynau wythnosol wedi ail-ddechrau ac yn cynnig rhywbeth i bawb. Bob Dydd Gwener am 10.00 mae plant bach yr ardal a'u rhieni yn ymuno â ni yn y Gwndwn am sesiwn stori, dawns a chân yn Gymraeg. Mae'r sesiwn yn boblogaidd iawn gyda dros 20 o blant yn mynychu pob wythnos. Unwaith y mis, bydd Twf Ceredigion yn ymuno â ni i gynnal sesiwn stori a chreffft.

Mae Clwb Gwindinis i blant 4-6 oed a'u rhieni yn cwrdd yn y Gwndwn pob Dydd Mawrth am 4.00. Mae'r sesiwn yn cynnwys dawnsio creadigol, celf a storïau i blant 7-11 oed. Cynhelir Clwb Cloccio pob nos Fercher am 6.30 ac mae'n agored i bob profiad a gallu. Does dim angen dod â chlocs gyda chi a does dim gorfodaeth i ymarfer am unrhyw gystadleuaeth! Pwrpas y sesiwn yw dysgu sgiliau cloccio a chael hwyl. Cynhelir sesiynau Ioga pob nos Fawrth yn y Gwndwn am 5.30. Mae'n agored i bawb o 14+ oed. Does dim angen profiad ac mae'r sesiynau yn addas i bawb o bob gallu. Mae Ioga yn ffordd dda i gadw'n heini ac i ymlacio ac mae'n bosib gwneud y sesiwn yn eistedd ar y llawr neu mewn cadair. Bob Nos Lun, cynhelir sesiynau dawns i bobl 50+ yn Llanbadarn, Aberystwyth am 7.00. Mae'r sesiynau yn gyfle da i gadw'n heini, i ddysgu sgiliau newydd a chymdeithasu.

Ddydd Mawrth, 13eg o Ionawr cafwyd ymweliad gan Theatr Genedlaethol Cymru â'r cynhyrchiad sydd ar daith ar hyn o bryd – Yr Hwysaden Fach Hyll. Roedd hi'n sioe hyfryd i blant bach o dan 7 oed a'u teuluoedd. Roedd hi'n braf croesawu Elli Dafydd yn ôl yma atom – yn un o gyn-aelodau'r Clwb Drama a'r Panto!

Ffilm y Mis mis Ionawr oedd Twin Town. Ffilm gomedi dywyll o 1997 yw Twin Town wedi ei lleoli yn Abertawe. Rhai o'r sêr a ymddangosodd yn y ffilm oedd Rhys Ifans, Llŷr Evans, Dougray Scott, Keith Allen, Brian Hibbard, Huw Ceredig, Dorien Thomas a Ronnie Williams. Mae Rhys Ifans yn chwarae cymeriad Jeremy Lewis a'i frawd Llŷr Evans yn actio rhan ei frawd, Julian Lewis. Roedd hon wedi taro tant a chafwyd cynulleidfa deilwng i'w gwyllo.

Yn dilyn ennill y wobr fonws yng Nghystadleuaeth Miliynau'r Bobl ym mis Tachwedd, rydym nawr yn dechrau'r gwaith a fydd yn ei gwneud hi'n bosib i ni wella'r Gwndwn a gwario'r £49,000. Ein bwriad yw rhoi toiled yn yr adeilad yn ogystal â chegin fach, sicrhau cyswllt diwifr a gwella'r gwres a'r golau. Edrychwn ymlaen at weld pethau'n datblygu dros y misoedd nesaf.

Mae Cyfeillion Theatr Felinfach wedi cofrestru a datgan diddordeb yng nghystadleuaeth Arian i Gymunedau / 'Cash for Communities' sy'n cael ei rhedeg gan bapur y Carmarthen Journal ar y cyd â Western Power Distribution. Mae modd i'r Cyfeillion gael cyfran o'r cyfanswm sydd ar gael, sef £25,000. Y cyfan sydd angen ei wneud yw casglu talebau a fydd yn ymddangos yn y Journal yn ystod yr wythnosau nesaf. Y mwyaf o dalebau sydd gennych fel mudiad yna'r mwyaf o arian y gellir ei hawlio. Os ydych yn awyddus i helpu a chasglu talebau, gallwch eu trosglwyddo i ysgrifennydd y Cyfeillion sef Huw Davies, Cilhaul, Ystrad Aeron.

Yn dilyn noson lwyddiannus nôl ym mis Hydref yn dathlu pen-blwydd y gyfres Ralio yn 10 oed, pleser mawr yw medru cyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru sicc am £650 a godwyd yn ystod y noson drwy gynnal ocsiwn. Gwerthwyd gwobrau unigryw a gyfrannwyd tuag at y noson, megis 2

docyn i benwythnos cyfan Rali Cymru GB a chotiau arbennig y gyfres Ralio. Pleser oedd cael presenoldeb Ros Jones yn Theatr Felinfach yn ddiweddar ynghyd â Linda Carlisle, Cadeirydd Cyfeillion Theatr Felinfach, i ni gael cyflwyno'r sicc at yr elusen haeddiannol yma.

Beth sy' Mlaen yn y Theatr? 5 Chwefror – Ffilm y Mis – Ryan a Ronnie. 16-20 Chwefror –

Cystadleuaeth Pantomeim Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. 23 Chwefror – Noson y Goreuon a chanlyniad Aelod Hŷn ac Iau'r Sir. 27 Chwefror – Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog. 6 Mawrth – Ffilm y Mis – Grand Slam 15+. 7 Mawrth – Sioe Tudur Owen – Pechu. 13 Mawrth – Grav, Theatr y Torch (Cynhyrchiad Saesneg). 16 Mawrth – Clwb Ffermwyr Ifanc Llanddewi Brefi. 20 Mawrth – The Harri-Parris – The Big Day. 28 Mawrth – Theatr Pena – The Royal Bed (addasiad Saesneg Sion Eirian o ddrama Siwan gan Saunders Lewis. 7 Ebrill – Theatr Bara Caws – Pum Cynnig i Gymro.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon



Aelodau CFFI Bro'r Dderi yn eu cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Llanbed. Yn eistedd mae swyddogion 2014 (o'r chwith): Dewi Uridge, Is-gadeirydd; Aron Dafydd, Cadeirydd; Kelly Jones, Trysorydd; Huw Jones, Llywydd; Mared Jones, Swyddog Datblygu'r Sir; Gethin Morgan a Carys Jones, Ysgrifenyddion.



Aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i Gastell Henllys yn rhan o'u thema 'Breuddwyd i Dderwydd.' Bu'r plant yn coginio, yn adeiladu tŷ crwn, yn brwydro a llawer mwy! Diwrnod i'r brenin yn wir. Yna, ddaeth Buddug ei hun i'r ysgol! Cafwyd cyflwyniad rhyngweithiol campus ohoni gan gwmni Mewn Cymeriad.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'r plant newydd sydd wedi dechrau yn y meithrin; gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Caryl ar enedigaeth Hari Jac ac i Mrs Kate ar enedigaeth Anni Grace. Croeso i Miss Donna a Miss Ruth dros gyfnod mamolaeth y ddwy.

Mae Mrs Evanna, o adran Diogelwch y Ffyrdd, yn ymweld ag Ysgol Y Dderi dros y tymor i gynnal gwersi diogelwch gyda disgyblion blwyddyn 1.

Cynhaliwyd disgo i ddathlu Santes Dwynwen yn yr ysgol. Y noson honno gwelwyd premiere fideo bop 'Calon' a gynhyrchwyd gan flwyddyn 5. Cafwyd llawer iawn o hwyl.

Bu tîm pêl rwyd yr ysgol yn cystadlu'n frwd yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Ennill tair a cholli un fu'r hanes, gyda chanmoliaeth uchel am chwarae fel tîm. Da iawn

chi.

Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i'r ysgol i ddiddanu disgyblion y Cyfnod Sylfaen gyda'i sioe 'Oes rhaid i mi ddeffro?' . Perfformiad gwyb, fel yr arfer.



Cynhaliwyd Diwrnod Dyfeisiadau ym mlwyddyn 5 a 6 yn rhan o'u thema 'Technowych.' Roedd hi fel y rhaglen Gadget Show yma, gyda phawb yn siarad yn ddeallus am eu dyfeisiadau.

Gweler hunlun blwyddyn 6.

Hoffai'r ysgol ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Mr Odwyn yn 70 oed. Mae Mr Odwyn yn gymwynaswr mawr i'r ysgol ac mae pawb yn falch iawn i'w weld yn dod. Mwynhewch y dathlu!

Hamdden

I ddathlu dyfodiad y flwyddyn newydd cafwyd cinio bendigedig, croeso cynnes a chwmni aeth hyfryd yn yr Hedyn Mwstard. Talwyd pleidlais o ddiolch cynnes i bawb a oedd wedi gweithio i wneud y prynhawn yn llwyddiannus gan Rowena Williams. Enillwyd y raffl gan Gwen Lewis, Mair Morgan, Glenys Lloyd, Glenys Davies a Maisie Morgan. Cyfnewidiwyd presantau. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi am 2.00 prynhawn dydd Gwener, Chwefror 6ed pan fydd Beca Hulme yn traddodi hanes y 'Wiwer fach.'

Merched y Wawr

Yn y Castle Green cawsom ein cinio Nadolig ac fe gawsom wled yno a chwmni hyfryd a phawb wedi mwynhau eu hunain a'r bwyd blasus.

Ar wahoddiad cangen Merched y Wawr Llambled ymunwyd â nhw ac eraill i dreulio noson yng nghwmni y Bon. Tudur Dylan Jones. Bu i bawb fwynhau eu hunain a phob un yn gwrando yn astud arno yn traddodi hanes cynnwys Llyfr Du Caerfyrddin.

Cafwyd gwahoddiad i ymweld â chartref Mr & Mrs Lyn Jones ar Ionawr 21ain. Cafwyd noson fendigedig gyda gwaith llaw ardderchog ac unigryw. Roedd yna amrywiaeth eang a hyfryd o grefftwaith o bob math ac o safon uchel iawn yn yr arddangosfa a stori fechan, ddiddorol ynghlwm â

phob eitem.

Rhodddwyd pleidlais o ddiolch gwresog am y croeso twym galon, yr arddangosfa a'r ymborth blasus gan Ann Davies. Rhodddwyd gwobrau'r raffl gan Glenys Lloyd ac fe'u henillwyd gan Mary Jones a Gwyneth Evans.

Llongyfarchwyd Deborah Jones ar ddod yn fam-gu. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 11eg yn Ysgol Y Dderi am 7.00y.h. pan fydd y Fon. Eirwen James yn sôn am 'Ferched y Gerddi'.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mr Huw Evans, Godre'r Coed ar ôl iddo gael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais ond mae gartref yn awr ac yn gwella.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Yvonne Jones, Penybank, hithau hefyd wedi bod yn yr ysbyty ac i bawb arall sydd wedi bod yn sâl neu yn yr ysbyty. Brysiwch wella, bawb a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er
mwyn rhoi
neges o ddiolch
ym Mhapur
Bro Clonc os
gwelwch yn dda.

Drefach a Llanwenog

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Mair Davies, Dolwerdd a theulu Maesglas ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr nôl ar ddechrau mis Rhagfyr.

Yn ystod mis Ionawr colodd Mrs Margaret Griffiths, Maes y Felin Isaf ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Betty Owen o Dregaron. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Gyrru Car

Rhai diwrnodau cyn y Dolig fe basiodd Rhodri Hatcher, Abernant ei brawf gyrru car. Llongyfarchiadau a chymer ofal ar yr hewl fawr!

Ymddeoliad Hapus

Erbyn hyn mae Mrs Nans Davies, Bryndolau, Brynteg yn mwynhau ei hamser gartref yn dilyn ei hymddeoliad o fod yn Bennaeth Ysgol Gynradd Llanllwni. Gobeithio y cewch flynyddoedd lawer a iechyd da i goroni'r cyfan.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Ieuan Jones, Pwllbylwg a gafodd driniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Priodas Ruddem

Yn ystod mis Rhagfyr fe ddathlodd Emyr a Gillian Jones, Meysydd eu Priodas Ruddem. Gobeithio eich bod wedi cael amser da yn dathlu'r 40 mlynedd. Iechyd da eto i'r dyfodol.

Eglwys Santes Gwenog

Dechreuwyd y flwyddyn newydd yn hwylus pan ymunodd eglwysy'r ddeoniaeth i ddathlu 'Gŵyl y Plygain' yn eglwys hynafol Llanllwni. Derbyniwyd croeso cynnes gan y ficer, Parch. Suzy Bale. Roedd yn hyfryd gweld fod y gwaith o adnewyddu'r tŵr a phaentio'r muriau tu mewn wedi ei gwblhau, a'r cyfan yn edrych mor daclus. Roedd y gosodiadau Nadoligaidd yn creu awyrgylch tymhorol a'r cyfan yn sicrhau prynhawn pleserus iawn wrth ganu yr hen garolau. Diolch i wragedd yr eglwys am baratoi a gweini lluniaeth i bawb. Bu'r prynhawn yn un cofiadwy ac arbennig i Mrs Elsa Shaun, Gorsgoch, aelod o eglwys Cwmann gan ei bod yn dathlu ei phen-blwydd yn 91 oed.

Cynhaliwyd cyfarfod yn eglwys Llanwenog gyda'r pwrpas o greu llyfryn newydd fydd yn olrhain hanes yr eglwys. Cytunwyd i barhau gyda'r cynllun a chasglu gwybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

Cydymdeimlwn gyda theulu y diweddar Mrs Daniels, Parc y Clochyd gynt. Bu ei diweddar briod yn drysorydd yr eglwys am nifer o flynyddoedd. Bu'r angladd yn yr eglwys ar Ionawr y 26ain. Hefyd

cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr. Malcolm Evans. Quarry Villa, Gorsgoch. Yr oedd Malcolm yn hanu o hen deulu Romani a ymsefydlodd yn y pentre.

Cofiw'n am bawb sy'n anhwylys, ac rydym yn falch o glywed fod Wyn Davies, Tyngrug Uchaf ar wellhad wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad parhaol i Mrs Bronwen Jones, Greenhill sydd ar hyn o bryd yng nghartref Hafan Deg.

Diolch

Dymuna Andrew a Rhian Abertegan, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas yng Nghapel Brynteg. Diolch o galon i chi gyd.

Y Gymdeithas Hŷn

Yn ystod mis Rhagfyr, aeth dros 40 o aelodau a rhai ffrindiau i Dafarn Bach, Pontsian am ein cinio Nadolig. Cafwyd pryd arbennig a phawb yn mwynhau'r gwmnïaeth.

Roedd nifer fawr o wobrwyr wedi dod i law ar gyfer y raffl, a chaed tipyn o hwyl wrth weld y rhifau'n dod allan o'r het fel petai. Diolchwyd i bawb am lwyddiant y diwrnod gan Dilwen George, y Cadeirydd.

Roedd cyfarfod mis Ionawr i fod i gael ei gynnal ym Methel, Drefach ond oherwydd y rhew a'r cesair bu'n rhaid gohirio rhag ofn i rywun gwmpo.

Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mercher, Chwefror yr 11eg yn Eglwys Llanwenog am 1.30 y.p., pan fydd Hazel Thomas yn dod i siarad am ei gwaith yn casglu a chofnodi lluniau a dogfennau ar gyfer Casgliad y Werin. A wnaiff aelodau ddod â hen luniau neu rywbeth o ddiddordeb, er enghraifft, llythyron neu benillion a gyfansoddwyd adeg y rhyfel gyda nhw i'r cyfarfod?

Croeso

Croeso cynnes i'r teulu newydd sydd wedi symud i Derlwyn yn ddiweddar.

Pen-blwydd hapus

Yn ystod y diwrnodau nesaf bydd Eifion Davies, Afallon yn dathlu pen-blwydd arbennig. Mwynhewch y dathlu.

C.Ff.I. Llanwenog

Er tywydd garw'r gaeaf, mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi parhau i gwrdd gan gael llawer o sbort er mwyn gwneud iawn am absenoldeb yr haul. Ar yr 21ain o Dachwedd, fe deithiodd criw o aelodau'r clwb i Landdewi Brefi i gystadlu mewn cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do llwyddiannus tu hwnt. Enillodd Enfys Hatcher y dartiau merched sengl, Gethin



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar. Tîm Llanwenog - Elin Davies, Gethin Morgans a Hanna Davies yn ennill y gystadleuaeth dan 14 oed ac Elin yn ennill tarian y cadeirydd gorau.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar. Lowri Davies, Gwawr Jones, Gethin Hatcher a Menna Williams o Glwb Llanwenog yn fuddugol o dan 26 oed gyda Lowri hefyd yn ennill cwpan y cadeirydd gorau.



Cylch Meithrin Gwenog

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig cyntaf Cylch Meithrin Gwenog ar y 18fed o Ragfyr yn Ysgol Gynradd Llanwenog. Roedd llond neuadd o rieni, ffrindiau a chyfeillion yno i wrando ar y plant yn canu ac i weld eu gwaith celf lliwgar. Serennodd y plant ar y llwyfan a chafwyd gwledd o ganu Nadoligaidd o dan arweiniad gofalus staff y Cylch. Roedd paned, mins pei a chlonc i bawb yn dilyn y perfformiad. Dyma ddechrau traddodiad newydd, cyffrous yn hanes y Cylch! Mae Cylch Meithrin Gwenog yn cynnal sesiwn bob bore i blant 3-4 oed a phob prynhawn i blant 2-3 oed. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar cylchmeithringwenog@googlemail.com neu ffoniwch 01570 480 382.

Hatcher yn 2il yn y dartiau bechgyn sengl, Rhys Davies yn cyrraedd y 3ydd safle yn y gystadleuaeth ddrafftiau a Sioned-Fflur Evans, Briallt Williams a Sara Davies yn 3ydd yn y Tip-it. Noson llawn chwerthin a joio oedd ar y 24ain gyda'r clwb yn cynnal Twmpath Dawns yng nghwmni Erwyd Howells yn Nhafarn y Black Lion, Llanybydder. I wella sgiliau coginio nifer o'r aelodau erbyn y Nadolig cynhaliwyd noson o Goginio 'Dolig ar y 1af o Ragfyr yn Ysgol

Gynradd Cwrtnewydd ac fe gafodd ambell aelod y cyfle i ddisgleirio fel cogyddion ac eraill yn cael llai o lwyddiant. Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg oedd ar y 7fed o Ragfyr; bu yn gystadleuaeth lwyddiannus unwaith yn rhagor gyda'r clwb yn dod yn fuddugol ac yn ennill cwpan Emrys Jones. Yn yr Adran Ddarllen 14 ac yn iau, cafodd Alpha Evans 1af fel cadeirydd, Hanna Davies 3ydd fel darlennydd a thîm Llanwenog A yn gyntaf, sef Alpha Evans, Hanna Davies a Ffion

Drefach a Llanwenog

Evans. Yn yr Adran Iau 16 ac yn iau, cafodd Meinir Davies 1af fel cadeirydd a Ffion Evans 3ydd, Iwan Evans yn 1af fel siaradwr a Rhys Davies yn 2il, a Briallt Williams yn 1af fel diolchyydd. Yn yr adran yma daeth Llanwenog A yn 1af fel tîm gyda Meinir Davies, Iwan Evans a Briallt Williams ac fe ddaeth Llanwenog B yn 3ydd gyda Ffion Evans, Rhys Davies a Sara Davies. O dan 21, cafodd Sioned Davies 1af fel cadeirydd a Sioned Hatcher 3ydd fel siaradwr gyda Llanwenog A yn dod i'r brig gyda Sioned Davies, Sioned Hatcher, Sioned-Fflur Evans a Gwawr Hatcher. Daeth Llanwenog B yn 2il gyda Carwyn Davies, Meleri Davies, Lauren Jones a Sophie Jones. Yn yr Adran Hŷn 26 ac yn iau, cafodd Lowri Wilson 2il fel cadeirydd ac Enfys Hatcher 1af fel siaradwr gyda Llanwenog B sef Lowri Wilson, Enfys Hatcher a Luned Mair yn ennill. Pob lwc i Alpha Evans, Meinir Davies, Iwan Evans, Briallt Williams, Sioned Davies, Sioned Hatcher, Enfys Hatcher a Luned Mair fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth. Cafwyd gwledd ar yr 8fed o o Ragfyr gyda'r clwb yn mynd i Banto Nadolig Felinfach a oedd yn gyfle i ymlacio ac i fwynhau ymysg ffrindiau. Dartiau Twrci oedd ar yr 11eg lle enillodd Guto Jones y wobwr 1af, yn ogystal â'r wobwr am yr aelod a oedd wedi cyrraedd y safle uchaf. Daeth Geraint Hatcher i'r ail safle ac Elin Davies yn ennill gwobr y ferch orau yn y gystadleuaeth. Noson yng Nghegin Gareth oedd ar y 15fed ac ar yr 22ain cynhaliwyd noson o Ganu Carolau lle codwyd £1,300 a

fydd yn cael ei rannu rhwng elusen RoSPA a'r Clwb. Diolch i bawb am eu cyfraniad. Nid oedd clwb ar y 29ain am fod nifer o'r aelodau i ffwrdd yn mwynhau yn Nawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc yn Aberystwyth. Ar y 5ed o Ionawr cafwyd sgwrs am Deithiau Tramorgan Siwan a Gwennan yn Ysgol Llanwenog, a noson ddiddorol tu hwnt yn Nghaerwenog yn dysgu am waith pren a metel ar y 12fed. Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Ceredigion ar y 18fed o Ionawr - diwrnod llwyddiannus arall gyda'r clwb yn dod i'r brig gan ennill Tarian Brynhogfaen. Yn yr adran ddarlenn, cafodd Elin Davies 1af fel cadeirydd ac Alpha Evans 2il fel darlennydd a chafodd Elin Davies 1af a Hanna Davies 3ydd a thîm Llanwenog B yn 1af gyda Elin Davies, Hanna Davies a Gethin Morgans.

Fe ddaeth Llanwenog A yn 3ydd fel tîm gyda Alpha Evans, Ffion Evans a Briallt Williams. Yn yr Adran Iau cafodd Ffion Evans a Briallt Williams gydradd 3ydd fel cadeiryddion, Iwan Evans 2il fel siaradwr, Meinir Davies yn 3ydd fel siaradwr a Twm Ebbsworth 1af fel diolchyydd. Cafodd Alpha Evans 3ydd a Llanwenog A yn 2il fel tîm gyda Briallt Williams, Iwan Evans a Twm Ebbsworth a Llanwenog B yn 3ydd gyda Ffion Evans, Rhys Davies ac Alpha Evans. O dan 21, cafodd Sioned-Fflur Evans 2il fel cadeirydd a Sophie Jones 3ydd a Llanwenog B yn 3ydd gyda Sophie Jones, Lauren Jones a Gwawr Hatcher. O dan 26 cafodd Lowri Davies 1af fel cadeirydd, Menna Williams 2il fel siaradwr a Gwawr

Jones 3ydd a Llanwenog A sef Lowri Davies, Gethin Hatcher, Gwawr Jones a Menna Williams yn ennill. Pob lwc i Elin Davies, Twm Ebbsworth, Lowri Davies, Menna Williams a Sioned-Fflur Evans fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth. Noson i aelodau o dan 16 oedd ar y 19eg ac ar y 26ain cafwyd noson o straeon yr ardal. Cofiwch hefyd am Gino Blynnyddol y Clwb ar yr 31ain o Ionawr yng Ngwesty'r Marine; croeso cynnes i bawb!

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am y clwb, ewch i'n gwefan sef: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Llanwenog

Bu'r plant yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Nadolig hyfryd yn Eglwys Llanwenog fel rhan o ddathliadau'r ŵyl. Cafodd y disgyblion i gyd gyfle i ganu ac i lefaru ar y llwyfan a chafwyd noson fendigedig. Hoffai'r ysgol ddiolch yn ddiffuant i Mrs Helen Williams, athrawes deithiol cerdd, am ymuno gyda ni ar y noson i ganu'r ffidil. Fe ychwanegodd hynny yn fawr iawn at naws cartrefol a Nadoligaidd y noson. Diolch arbennig hefyd i Luke Thomas, disgybl blwyddyn chwech, a wnaeth gamu i'r adwy ar y funud olaf ar y noson yn absenoldeb cyd ddisgybl. Fe wnaeth ei waith yn rhyfeddol, heb rybudd ymlaen llaw. Da iawn, wir. Diolch hefyd i Mrs Eirlys Jones a Mr Roderick am drefnu'r gwasanaeth.

Aeth y plant i gyd i'r cinema yn Aberystwyth i weld ffilm Lego the Movie ac yna cafwyd pryd bwyd blasus iawn ar y Pier mewn safle bendigedig yn edrych i lawr ar y môr. Diolch i Mrs

Enfys Morgan am drefnu.

Daeth Siôn Corn ar ei ymweliad blynnyddol a derbyniodd y plant anrhegion amrywiol o lyfrau darllen lliwgar. Diolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am eu cefnogaeth unwaith eto. Cafwyd cinio Nadolig hynod o flasus yn ôl yr arfer yn yr ysgol ac mae ein diolch yn fawr iawn i Eleri Davies, ein cogyddes ddawnus am greu gwledd i ni bob blwyddyn.

Mae clwb yr Urdd yn cwrdd yn wythnosol ac mae'r plant wedi mwynhau gweithgareddau gwahanol. Byddwn nawr yn dechrau meddwl am gystadlaethau'r eisteddfod ysgol a'r cylch yn ystod nosweithiau'r Urdd.

Mae'r plant wedi bod yn mynychu ysgolion Llanwnnen a Chwrtnewydd bob yn ail wythnos ar gyfer y Cynllun Tair Ysgol. Er hynny, bu'n rhaid gorffen ynghynt na'r disgwyl bythefnos yn ôl pan ddaeth yr eira yn sydyn. Cafwyd taith ddiddorol drwy orchudd o eira ar y ffôrdd nol i Lanwenog.

Mae dau ddisgybl newydd wedi dechrau yn yr ysgol, sef Ethan Rees a Gethin Thomas Jones. Croeso cynnes i'r ddau ohonynt.

Mae disgyblion blwyddyn 2 ysgolion Cwrtnewydd a Llanwnnen wedi bod yn ein hysgol yn barod y tymor yma yn creu darn o waith ffeltio gan ddefnyddio gwlan. Buont yn cydweithio ac yn cynllunio gyda'r defnydd yma gan mai Ffermio yw'r thema rydyn ni'n ei dilyn yn ystod y tymor.

Mae'r disgyblion ar hyn o bryd yn ymarfer ac yn creu darnau Celf a Chrefft ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod yr Ysgol.

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Glenys a John Jones, Penpompren a'r teulu oll ar golli brawd - Jack a oedd yn byw ym Mhontsian.

Hefyd cofiwn am Mandy, Gwyn a'r teulu, Bro Grannell yn eu profedigaeth o golli mam a mam-gu annwyl, sef Mrs Eirlys Jones, Waun Uchaf, Cribyn.

Ar wellhad

Braf yw gweld Mrs Ceinwen Roach, Maes yr ŵyn ar wellhad yn dilyn ei llaw driniaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hefyd mae Hyw Davies, Ornant wedi cael llaw driniaeth ar ei lygad yn ystod y mis.

Hefyd dymunwn yn dda i John Jones, Troed y Bryn a fu yn yr ysbyty yng Nglangwili am noson adeg y Nadolig.

Babi newydd

Noswyl Nadolig fe anwyd merch

fach i Dai a Rhian, Cwrt y Brodyr sef Lisa Mair - wyres fach newydd i Dilwyn ac Elizabeth Thomas, Pantffynnon.

Pen-blwyddi arbennig

Yn ystod mis Ionawr dathlodd Rhiannon James, Bro Llan ei phen-blwydd yn 50 oed.

Hefyd dathlodd John Jones, Troed y Bryn ben-blwyddi arbennig ddechrau mis Ionawr. Iechyd da i chwi am sawl blwyddyn eto.

Yn ystod mis Ionawr dathlodd Ffion Jones, 4 Bro Llan ei phen-blwydd yn 18oed. Pob dymuniad da eto i ti i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched

Ym mis Ionawr cyfarfu'r Sefydliad yng Ngwesty'r Grannell gyda Mrs Ceinwen Roach, yr Is-lywydd yn y gadair. Estynnodd groeso cynnes i bawb. Noson i'r aelodau oedd hon felly daeth pawb â syniadau ar gyfer rhaglen

y flwyddyn a thrafodwyd Papur Newyddion y Sefydliad hefyd. Enillydd y gystadleuaeth fisol am 'stop drws' oedd Mrs Jean Jones, yn ail Mrs Ceinwen Roach ac yn drydydd Mrs Gwen Davies. Enillydd y raffl, a oedd yn rhoddedig gan Mrs Mary Davies, oedd Mrs Ceinwen Roach.

Nos Wener, 16eg Ionawr cawsom ein cinio blynnyddol yng Ngwesty'r Grannell. Yn ystod y cinio cyhoeddwyd enillydd y cystadlaethau misol dros y flwyddyn, sef Mrs Ceinwen Roach. Ar ôl y wledd cafwyd Gyrfa Chwist dan arweiniad Mrs Gwen Davies. Enillwyr y merched oedd 1af Mrs Joyce Flexman, 2il Mrs Ann Hughes a'r Garden Miniature - Mrs Doris Jones. Enillwyr y dynion oedd 1af Mrs Gwen Davies, 2il Mr Roy Roach a'r Garden Miniature - Mr John Jones. Diolchodd Mrs Avril Jones i Westy'r Grannell am fwyd blasus

ac am gael cynnal ein cyfarfodydd yno dros y flwyddyn. Hefyd diolchodd i Mrs Ann Hughes am drefnu'r noson ac i Mrs Gwen Davies am drefnu'r Yrfa Chwist. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson a hyfryd oedd cael cwmni ein gwŷr a ffrindiau.

CAWL A CHÂN

yng
Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen
Nos Wener Chwefror 27ain
am 7.00y.h.
Artistiaid: Plant yr Ysgol Leol
ac Aelodau C.Ff.I. Llanwenog
Llywyddion: Huw a Joy Williams,
Ffenestri DERWEN,
Pentrebach, Llanwnnen
Mynediad £7.00
Tocynnau wrth: Mrs Gwen Davies
- 01570 481152; Mr Aeron
Hughes - 01570 422654.
Yr elw tuag at yr Ysgol Leol a
Phwyllgor Lles Llanwnnen.

Taith i Batagonia

Roedd hi wastad wedi bod yn ddymuniad gennyf i ymweld â'r Wladfa ond nid oeddwn yn meddwl y byddai'r cyfle wedi dod mor gynnar yn fy mywyd. Felly penderfynu gyda'm chwaer, Siwan i fynd amdani! Do'n i heb sylweddoli pellter y Wladfa o Gymru. Taith i Heathrow yn gyntaf, yna hedfan i Rufain, cyn taith 13 awr mewn awyren i Buenos Aires a 19 awr wedyn mewn bws i Borth Madryn! Roedd fy argraffiadau cyntaf o Batagonia yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddwn wedi ei ddychmygu. Sbaeneg oedd y brif iaith o bell ffordd gyda ychydig iawn o Saesneg. Roedd y trefi wedi eu hadeiladu'n gyflym yr olwg, heb lawer o steil nac urddas. Rhaid cofio mai talaith hynod o ifanc yw talaith Chubut yn yr Ariannin yn dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed eleni. Ie, yn 1865 glaniodd y Mimosa gyda 153 o Gymry Cymraeg yn troedio diffeithwch llwyr. Mae'r diffeithwch i'w weld yn glir hyd heddiw gyda milltiroedd o dir gwastad, tywodlyd ac ychydig iawn o dyfiant yn y Dyffryn. Ond diolch i'n tywyswyr fe gawson ni flas o'r diwylliant Cymraeg a chyfle i siarad Cymraeg gyda'r lleiafrif sy'n siarad yr iaith. Teimlais ei bod yn brofiad swreal mynd i wasanaeth yr Orsedd, yr Eisteddfod a the'r Gymanfa.



Roedd y ffordd Gymreig o fyw yn amlwg ond gyda newidiadau mân, megis ponchos glas yn lle'r gwisgoedd hir gwyn, glas a gwyrdd; bagiau o losin a thystysgrifau uniaith Sbaeneg yn yr Eisteddfod a jam llaeth yn morio dros fara a chacs yn y te parti.

Roedd ymweld â'r capeli a'r mynwentydd yn brofiad na wnaf i fyth ei anghofio - y Cymry cyntaf yn cael eu claddu mor bell o adref ond eu cyfeiriad yng Nghymru yn amlwg ar y cerrig beddi. Rodd bywyd yn galed sdim dwt i'r rhai a ymfudodd yn 1865 a dim man gwyn man draw i'w ddarganfod yn unman. Fe weithion nhw'n galed i greu system ddyfrio drwy gloddio ffosydd ar hyd yr afon Camwy er mwyn creu tir amaethyddol, ffrwythlon. Gwartheg Henffordd a defaid Merino oedd y prif anifeiliaid, a cheffylau yn cael eu marchogaeth gan y gauchos. Roedd croesi'r paith o 400 milltir yn daith hir ond roedd cyrraedd yr Andes yn agoriad llygad a thir ffrwythlon, gwyrdd a mynyddoedd yr Andes yn bictiwr o eira ac yn gefnlen i bentrefi Esquel a Threvelin, heb anghofio Cwm Hyfryd. Roedd bywyd yn haws yma mae'n debyg i'r Cymry cyntaf gyda ffermydd llawer mwy o faint.




Mwynheais yr asados yn fawr, sef cig oen neu gig eidion wedi ei goginio am ddwy awr a mwy o flaen tân agored, tebyg iawn i farbeciwr.

Cawsom ymweld ag Ysgol yr Hendre ac Ysgol yr Andes, yr unig ddwy ysgol Gymraeg yn yr Ariannin a sylweddoli'r frwydr ddyddiol wrth drio cadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Ond mae gobaith yn y tir ac ysgol amlieithog yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd yn yr Andes. Roedd hi'n hynod o braf cael profi diwylliant y Wladfa a chlywed yr iaith Gymraeg bur yn cael ei siarad ar dafodau'r Archentwyr. Roedd eu croeso'n gynnes a mor browd oeddent o'u gwreiddiau. Gobeithiaf yn fawr y bydd y Gymraeg yn dal ei thir yno am y 150 mlynedd nesaf ac y bydd pobl yn dal i ymweld â'r Wladfa am ei hanes arbennig ac i werthfawrogi gwaith a dyfalbarhad y Cymry cyntaf. Diolch i CFfI Cymru am y profiad a'r cyfle ac i bawb wnaeth ein noddi.

Gwennan Jenkins a lluniau gan Einir Ryder

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



BEDWELLTE BEDLINOG (70)

Enwau mae cyfeillion wedi gofyn imi eu trafod sy'n cael sylw y mis hwn.

BEDWELLTE

Ystyr yr enw yw 'trigfan Mellteu'. Roedd 'Bodfelltau' yn hen enw ar y pentref. Yr elfennau yn yr enw yw 'bod' sef tŷ, cartref a'r enw personol 'Mellte(u)'. Mae 'bed-' yn amrywiad ar 'bod-' ac yn elfen, o bosibl, mewn enwau lleoedd eraill yn ne Cymru megis Bedlinog (ym mhlwyf Gelli-gaer) a Bedwenarth (ym mhlwyf Eglwysilan).

Nodwedd lafar a welir yn '-wellte' sef amrywio rhwng '-f-' ac '-w-' a geir, yn ogystal, mewn ffurfiau megis 'cafod/cawod' a 'tyfod/tywod'.

Mae Mellte yn enw ar afon yn Sir Frycheiniog; mae'n digwydd yn yr enw Ystradfellte. Yn ôl traddodiad roedd Mellte yn enw ar un o ferched Brychan Brycheiniog, llywodraethwr Brycheiniog yn y Sed ganrif a thad i nifer luosog o blant.

BEDLINOG

'Bodlwynog' yw'r ffurf ar yr enw sy'n digwydd yn yr 17 ganrif. Mae 'Llwynog' yn enw ar nant fechan yn y pentref a'r afonig yn perthyn felly i ddosbarth o enwau afonydd megis Twrch, Ceiliog a March sydd wedi'u henwu ar ôl creadur. Gallai Bedlinog olygu 'trigfan gerllaw (nant) Llwynog'.

Bydd darllenwyr y golofn hon yn falch iawn i ddeall bod trydydd argraffiad cyfrol yr Athro Hywel Wyn Owen ar enwau lleoedd Cymru newydd ddod o'r wasg. Gwasg Prifysgol Cymru yw'r cyhoeddwr. Mae'r gyfrol newydd yn ychwanegu gwybodaeth am ryw 30 o enwau lleoedd na fu cyfle i'w trafod gan Hywel yn y cyfrolau cynt. Mae yma, yn ogystal, gyflwyniad pwrpasol sy'n trafod pwysigrwydd enwau lleoedd yn eu cyd-destun lleol a chenedlaethol. Mae'n waith darllenadwy gan awdur ag iddo enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd mynd ar y llyfr ac mae ar werth erbyn hyn yn Siop y Smotyn Du.

O ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr CLONC yw'r drafodaeth a geir yn y gyfrol ar yr enw 'Llanybydder'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org
enwaulleoedd@gmail.com


Cylch Trafod Amaethyddol Llambed

Bu Cinio Blynnyddol Cylch Trafod Amaethyddol Llambed eleni yn y Clwb Rygbi ar 9 Ionawr 2015. Daeth nifer fawr ynghyd a chroesawyd pawb yn gynnes gan y Cadeirydd, Euros Davies, Ffos y Gaseg. Offrymwyd gras gan Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Wedi pryd bwyd blasus iawn cafwyd araith bwrpasol a hwyliog iawn gan ein gŵr gwadd, sef Aled R Jones, Prif Weithredwr Cynorthwyol y Sioe Frenhinol yn sôn am ei deithiau amrywiol, ei swydd a'i fwriad i deithio ymhellach dan nawdd Ysgoloriaeth Nuffield. Cynigiwyd y diolchiadau gan yr Is-Gadeirydd, Eurig Jenkins, Erwlas. Yna cyhoeddwyd canlyniadau y cystadlaethau gan Gareth Jones yr Ysgrifennydd. Roedd 54 o geisiadau o safon uchel eithriadol yn ôl y beirniad, Heather Mucklman o IBERS. Dyma'r canlyniadau:

Gwair – 1af Glyn Davies, Lloyd Jack; 2ail Dai Thomas, Maesfforest; 3ydd Eirios Jones, Garthlwyd.

Silwair Clamp – 1af Craig Evans, Cilwyn; 2ail Iwan Jenkins, Tyllwyd, 3ydd Teulu Williams, Bayliu.

Byrnau Mawr – 1af Emrys Thomas, Glanrhyd; 2ail Jonathan Jones, Derigoch; 3 Carwyn Davies, Penlan. Enillwyd Cwpan Coedparc gan



Grŵp Trafod Llambed yn cyflwyno sic i Mrs Caryl Davies o Ymchwil Canser Cymru. Dyma'r elusen ddewisodd y Cadeirydd Rhodri Evans yn ystod ei flwyddyn yn y gadair.

Craig Evans ac enillydd y tair cystadleuaeth oedd Emrys Thomas a chyflwynwyd Cwpan Albert Evans iddo. Enillydd y Gystadleuaeth Ffotograffiaeth oedd Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge.

Cafwyd noson lwyddiannus arall yn ôl yr arfer ar 13 Ionawr gyda Chwmni W D Lewis, Melin Mark Lane. Roedd nifer o'u cyflenwyr yn bresennol a chafwyd annerchiad gan ddau ohonynt, sef David Thornton o Gwmni Rumenco a Howard Harries o Gwmni Volac ar gynhaliath i'r fuches Laeth a biff cyn lloia. Noddwyd gwobrau raffl arbennig gan y cyflenwyr oedd yn bresennol a llongyfarchiadau i'r holl enillwyr. Mwynhawyd diod a phryd o fwyd blasus iawn a noddwyd gan W D Lewis. Diolchwyd i Gwynfor a Dafydd a'r cwmnïau gan Rhys Williams, Bayliu.

Ar 20 Ionawr roedd y cyfarfod yng ngofal yr Is-Gadeirydd a chafwyd cwmni Catherine Nakielny o 'KN Consultancy' a roddodd gyflwyniad proffesiynol ar ofal y ddiadell ddefaid drwy'r cyfnod wyna er mwyn lleihau colledion. Diolch i Cyswllt Ffermio am eu cefnogaeth. Cynigiwyd y diolchiadau gan Aled Williams, Plas.

Mae cyfarfod 3 Chwefror yng ngofal Shaun Jones a fydd yn cyflwyno hanes ei daith dan nawdd Ysgoloriaeth Hybu Cig Cymru i Seland Newydd.

Bydd cyfarfod ola'r tymor yng ngofal y ddau frawd David a John Dalton ar y testun, 'Polaris – y beic i'r dyfodol'

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor. Bydd mwy o wybodaeth yn y dyfodol am y tripiâu Gwanwyn a'r Hydref.



Swyddogion, gŵr gwadd ac enillwyr y cystadlaethau gwair, silwair a ffotograffiaeth yn derbyn eu gwobrau yng nghinio blynnyddol Grŵp Trafod Llambed a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llambed ar y 9fed o Ionawr.

Rhes Flaen (chwith i'r dde): Emrys Thomas, Glanrhyd; Euros Davies, Ffosygaseg (Cadeirydd); Aled R Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr y Sioe Frenhinol (Siaradwr Gwadd); Eurig Jenkins, Erwlas, (Is-Gadeirydd); Rhodri Evans, Llanio Fawr (Llywydd), Craig Evans, Cilgwyn

Rhes Gefn (chwith i'r dde): Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge; David Thomas, Maesfforest; Eirios Jones, Garthlwyd; Jonathan Jones, Derigoch; Carwyn Davies, Penlan; Iwan Jenkins, Tyllwyd a Bleddyn Williams, Bayliu.

Coedwig Cymunedol Long Wood

Gwnaeth cynllun VINE sydd yn cael ei ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr gynnig gweithgareddau i 344 o unigolion o bob oedran rhwng mis Mawrth a Rhagfyr 2014 yng Nghoedwig Gymunedol Long Wood. Bu'r unigolion yma yn hael gyda'u hamser wrth gyfrannu cyfanswm o 3,423 awr.

Cyfanswm y buddiolwyr

Gwryw	170
Benyw	174
Cyfanswm	344
O dan 16 oed	154
Dros 16 oed	190
Cyfanswm	344

Bu'r gwirfoddolwyr ym cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau, yn cynnwys teithiau bywyd gwyllt a sesiynau dysgu cerffio pren a chreu ietau.

Dengys y wybodaeth isod sut y gwnaeth unigolion werthuso eu profiad gyda chynllun Tir Coed VINE, (10 = gwych a 1 = ddim yn dda).

Nododd 82 eu profiad fel 10	60%
Nododd 23 eu profiad fel 9	15%
Nododd 6 eu profiad fel 9.5	5%
Nododd 1 ei brofiad fel 9.75	1%

Nododd 10 eu profiad fel 8	8%
Nododd 2 eu profiad fel 8.5	1%
Nododd 6 eu profiad fel 7	4%
Nododd 1 ei brofiad fel 7.5	1%
Nododd 3 eu profiad fel 6	2%
Nododd 1 ei brofiad fel 5	1%
Nododd 1 ei brofiad fel 4	1%
Nododd 1 ei brofiad fel 3	1%
	100%

Mae ein diolch yn fawr i'r unigolion sydd wedi rhoi o'u hamser er lles Coedwig Gymunedol Long Wood yn ystod 2014.

Efallai bod dysgu sgiliau newydd neu fod allan yn yr awyr iach yn un o'ch addunedau ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Os felly, cysylltwch â ni gan ein bod yn trefnu rhaglen o waith ar gyfer 2015, yn cynnwys 20 diwrnod o weithgareddau amrywiol, cyrsiau Rheoli Coetiroedd a 3 Diwrnod Agored.

Os hoffech i ni drefnu gweithgareddau ar eich rhan, neu os hoffech ragor o wybodaeth am y cyrsiau yr ydym yn eu trefnu, cysylltwch â'r Swyddog Prosiect, Meinir Evans ar e-bost lampeter@tircoed.org.uk neu ffoniwch 07476 880 699.




Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel mae 2015 wedi cyrraedd o'r diwedd ac nid yw'n rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Wel sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd!

Wel llongyfarchiadau i bawb a wnaeth liwio llun yr Hosan Nadolig yn rhifyn mis Rhagfyr, mi fuodd y postmon yn brysur iawn yn eu cario nhw i'r tŷ. Llongyfarchiadau i Dwynwen Mai Williams o Bencarreg, Rhys Jones o Lanarth, Lili Peyto o Gaint ac Alwena Mair Owen o Lanllwni am luniau lliwgar a thaclus iawn. Ond am liwio llun bendigedig ac yn ennill y mis hwn mae Callie Davies, 203 Cefn Road, Bonymaen, Abertawe. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Mae'r tymor rygbi wedi dechrau ac mi fyddaf i yn teithio ar y trê'n i lawr i Gaerdydd er mwyn gwyllo'r chwaraewyr yn chwarae yn Stadiwm Mileniwm. Beth am liwio llun o'r trê'n y byddaf yn teithio ynddo a'i ddychwelyd i mi erbyn dydd Llun, Chwefror 23ain.

Hwyl am y tro,



**Enillydd
y mis!**

**Callie
Davies**

**Beth am
roi cynnig ar y
croesair?
Pecyn Stwnsh
i'r enillydd.**

Danfonwch eich croesair i
Maesglas, Drefach, Llanybydder,
Ceredigion. SA40 9YB.

Enw:	Oed:
Cyfeiriad:	

YSBYTY HOSPITAL



Th	E	M	N	A	T	U	D	U	R	W	G
O	R	O	H	L	A	N	J	O	G	W	B
W	C	Dd	T	Th	T	L	S	E	W	O	W
A	L	I	I	LI	O	N	A	I	E	I	R
I	E	O	D	S	O	F	L	U	L	D	Dd
N	F	N	U	L	R	E	Y	G	Y	A	Y
F	Y	S	J	O	S	D	Ch	N	Y	R	S
A	D	O	T	I	Ch	W	Th	F	D	L	B
T	Ch	C	N	S	L	G	I	I	F	E	Y
S	O	E	D	A	I	L	N	Rh	A	N	T
D	L	G	S	L	O	N	N	E	T	W	Y
G	N	E	A	M	Y	R	A	E	C	I	P

ysbyty-	doctor
Glenise	Owain
Tudur	nyrs
radio	Anni
DJ Sal	clefyd
piec ar y maengwely	salwch
Lois	Judith
moddion	

Ysbyty Hospital

6.05

Iau Thurs

s4c.co.uk/stwnsh

**STW
NSH**

Cyflwyno sicciau i achosion da....



Ychydig cyn y Nadolig bu aelodau CFfi Bro'r Dderi yn canu carolau yn Llangybi a'r ardal a chodwyd £600.00. Rhannwyd yr arian rhwng Canolfan y Bont ac Amser Justin Time. Derbyniodd Gethin Morgan, prif ddisgybl a Bradley Lewis a Sophie Jones, dirprwy prif ddisgyblion Ysgol Bro Pedr sicc am £300 ar gyfer Canolfan y Bont gan Dewi Uridge, Is-gadeirydd, a chyflwynodd Carys Jones, Aron Dafydd, Cadeirydd, a Kelly Jones sicc arall am £300 i Nia Gwyther, cynrychiolydd Amser Justin Time.



Yn cyflwyno sicc ar y cyd o £2,824 i Daryl Benjamin, ar ran Ymchwil Leukaemia a Lymphoma, mae Cyril Davies ac aelodau Côr Cwmann a'r Cylch â £1,200 a godwyd yn eu Cymanfa Ganu ym mis Hydref a Hywel Roderick â chyfraniad o £1,374 er cof am y diweddar J Arthur Roderick, gyda Gerwyn Jones, Mrs Phyllis Smith MBE ac Eric Williams â chyfraniad o £250 gan gyn-ddynion tân Llanbed.



Jackie Davies, cynorthwydd dysgu a Clare Taylor, pennaeth Canolfan y Bont, Ysgol Bro Pedr gyda Eifion Owen a Gruffydd Morris yn derbyn sicc am £1,500 gan Gymdeithas Cobiau Cymreig Ceredigion - Bethan Jones, Trysorydd; Catrin Reed, Ysgrifennydd; Cyng. Euros Davies, Trefnydd; Richard Morgan, Cadeirydd; Geraint Jones, Llywydd a David Williams, Prifathro. Codwyd yr arian mewn noson rasy ceiliogod yn y Clwb Rygbi.



Nôl yn yr Hydref gwnaeth John McDonagh o Llanbed sialens y Dyn Haearn yn Ninbych y Pysgod. Dymuniad John oedd bod yr arian yn cael ei roi i Sefydliad Prydeinig y Galon, Adran Llanybydder a Llanbed. Fe gasglodd £585.00. Diolch yn fawr iddo. Chwith i'r dde: John Harries Jones, Llywydd; Jennie Bracher, Ysgrifennyddes; Ann Davies, Trysorydd; John McDonagh a Dave Smith, Cadeirydd.



/Bwcabus



@Bwcabus

A ydych chi'n chwilio am y ffordd orau i deithio o amgylch cefn gwlad Sir Gaerfyrddin a Cheredigion?

- Eisiau cyrraedd y gwaith a llefydd hyfforddiant?
- Angen cael gofal iechyd?
- Eisiau ymweld â theulu a ffrindiau?
- Chwant mynd ar daith am y diwrnod?

Bwcabus yw'r ateb!



Dydd Llun – Dydd Sadwrn 7am – 7pm

Mae Bwcabus yn galluogi pobl o unrhyw oed i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol

Mae Bwcabus yn cysylltu â gwasanaethau bysiau T1, T5 a 460



University of South Wales
Prifysgol De Cymru



Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg y C.Ff.I.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Felinfach - Sioned Davies, C.Ff.I. Llanwenog enillodd gwpan y Cadeirydd gorau dan 21 oed.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Felinfach - C.Ff.I. Llanwenog enillodd y cwpan dan 26 oed. O'r chwith Lowri Wilson, Luned Mair ac Enfys Hacher. Enfys hefyd enillodd gwpan y siaradwr gorau dan 26 oed.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Felinfach. Y darllenydd gorau dan 14 oed oedd Beca Jenkins, C.Ff.I. Pontsian.



Mared Phillips, Sioned Howells a Sioned Bowen, C.Ff.I. Llanllwni yn fuddugol yng nghystadleuaeth y darllen 14 oed neu iau yn Siarad Cyhoeddus Cymraeg Sir Gâr.



Ifor Jones, Ffion Rees ac Owain Davies, C.Ff.I. Llanllwni yn fuddugol yn yr adran ganol yn Siarad Cyhoeddus Cymraeg Sir Gâr.

S4C

DNA Cymru

8.00

1 Mawrth

Pwy yw'r Cymry? Edrych yn ôl drwy'r canrifoedd er mwyn deall ein gorffennol a'n presennol.

s4c.co.uk

Am ragor o wybodaeth ewch i s4c.co.uk/cymrudnawales